UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

HC 1495

UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023)

Cyfrifon a gyflwynir i Dŷ'r Cyffredin
Yn unol ag Adran 6(4) Deddf
Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Adroddiad Blynyddol a gyflwynir i Dŷ'r Cyffredin
Trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

**Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin**

18 Gorffennaf 2023

HC 1495

Mae’r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2022-23, y ddogfen Public Expenditure: Statistical Analyses 2022, and the Supply Estimates 2022-23: Supplementary Budgetary Information, yn cyflwyno alldro’r Llywodraeth ar gyfer 2022=23 a gwariant arfaethedig ar gyfer 2023=24.

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-Government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sy’n destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint perthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/Government/publications ac ar ein gwefan: www.walesoffice.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn correspondence@ukgovwales.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4059-6

E02898472 07/23

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Fe’i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


**Pennod 1 – Yr Adroddiad Perfformiad** **1**

Rhagair y Gweinidog 1

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr 3

Trosolwg Adrannol 4

Mae Trosolwg Strategol yr Adran yn nodi ein gwaith o dan dair blaenoriaeth strategol 4

Datblygu Cynaliadwy 31

Adolygiad Ariannol 33

**Pennod 2 – Yr Adroddiad Atebolrwydd** **37**

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 37

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 39

Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol 40

Datganiad Llywodraethu 41

Adroddiad Tâl a Staff 52

Adroddiad Staff 65

Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio 73

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin 83

**Pennod 3 – Datganiadau Ariannol** **90**

Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 94

**Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** **112**

# 1 Yr Adroddiad Perfformiad

## Rhagair y Gweinidog

Chwe mis yn ôl, cefais yr anrhydedd a'r fraint aruthrol o gael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan y Prif Weinidog Rishi Sunak, sydd wedi rhoi'r dasg i mi o gryfhau lle Cymru yn yr Undeb drwy wella bywydau a chreu mwy o gyfleoedd.

Ers i mi gael fy mhenodi, mae canlyniadau beiddgar fy adran yn dangos llwyddiant ein gweithredoedd.

Rydym yn buddsoddi dros £1.7 biliwn i sicrhau ffyniant bro yng Nghymru, sy'n cynnwys arian drwy'r Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol, y Gronfa Ffyniant Bro, a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Er enghraifft, ar gyfer ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro, cyhoeddwyd £208 miliwn bedwar mis yn ôl ar gyfer llawer o brosiectau yng Nghymru. Rydym hefyd yn sicrhau bod cyllid yr UE wedi cael ei ddisodli'n llawn, ac rydym wedi ymrwymo i ddatganoli priodol, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol ledled Cymru i alluogi ein cyllid uchaf erioed i fod o fudd i bob cymuned.

Rwyf yn hynod falch o'r rôl y mae'r Prif Weinidog, Rishi Sunak, a minnau wedi'i chwarae wrth arwain y llwyddiant hwn. Yn y pen draw, dim ond drwy sicrhau ffyniant bro y gallwn greu mwy o swyddi a chyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf ym mhob rhan o Gymru.

Ar ben hynny, un o'r llwyddiannau mwyaf eleni fu cymeradwyo – nid un, ond – dau borthladd rhydd (Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Phorthladd Rhydd Celtaidd ar gyfer Aberdaugleddau a Phort Talbot) a fydd yn arwain at gyfnod newydd drwy ddenu – yn ôl y ceisiadau porthladdoedd rhydd – amcangyfrif o £1.4 biliwn o fuddsoddiad preifat a chyhoeddus a chreu tua 20,000 o swyddi medrus newydd.

Bydd y ddau lwyddiant enfawr yma yn sicr o ddatgloi potensial economaidd enfawr Cymru ac yn dangos nodau strategol allweddol y Llywodraeth Geidwadol hon yn y DU.

Ac nid dyna ddiwedd ein gwaith gwych.

Mae ein cytundeb masnach newydd – Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP) – yn cynnig cyfleoedd newydd i ffermwyr Cymru allforio i farchnad economaidd sy'n dod yn fwyfwy pwysig – Asia a'r Môr Tawel. Yn bwysig, mae sicrhau'r cytundeb masnach broffidiol hwn yn ychwanegol at y camau eraill rydym eisoes wedi'u cymryd i gryfhau Cymru, gan gynnwys allforio cig oen Cymru i'r Unol Daleithiau am y tro cyntaf ers bron i ddau ddegawd.

Ac i gryfhau ein Hundeb ymhellach, bob wythnos rwyf allan yn crwydro Cymru yn hyrwyddo rhaglenni Llywodraeth y DU, lle rwy'n gweld yn uniongyrchol sut maen nhw'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Fel Cymro balch, byddaf bob amser yn rhoi buddiannau Cymru yn gyntaf – sy'n golygu cyhoeddi llawer mwy o gynlluniau cyffrous maes o law. Wrth symud ymlaen, byddaf yn parhau i sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed wrth y prif fwrdd ac yn sicrhau mwy o swyddi a chyfleoedd i'n gwlad.

**Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Mae Adroddiad Blynyddol eleni yn nodi blwyddyn arall o lwyddiannau nodedig i'r adran. Gwelsom Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei lansio a buddsoddiad parhaus ym mhob rhan o Gymru drwy gyfrwng Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol a chronfeydd fel y Gronfa Ffyniant Bro. Gwnaethom gyhoeddi dau Borthladd Rhydd ac mae gwaith yn parhau i sicrhau ein bod yn sicrhau o leiaf un Parth Buddsoddi. Gwnaethom gynnydd da hefyd tuag at wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer gwynt ar y môr sy'n arnofio ac roedd cyhoeddi Strategaeth Lled-ddargludyddion Genedlaethol y Llywodraeth yn gam pwysig ymlaen i Glwstwr De Cymru. Mae datblygiadau eraill fel penodi Comisiynydd Cyn-filwyr cyntaf Cymru a'r buddsoddiad rydym wedi'i weld mewn chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru yn dangos ehangder anhygoel y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws yr adran.

Wrth i mi fyfyrio dros y deng mlynedd diwethaf fel Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru, un o'r pethau sy'n fy nharo fwyaf yw'r graddau y mae ymgysylltu â rhanddeiliaid bellach wrth galon ein model gweithredol. Mae ein Gweinidogion yn arwain o'r blaen wrth iddynt deithio ar hyd a lled Cymru i glywed am broblemau, blaenoriaethau ac anghenion pobl a throsglwyddo'r negeseuon hynny i San Steffan. Mae ein timau'n gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, busnesau, prifysgolion a phartneriaid eraill i hyrwyddo buddiannau Cymru a defnyddio'r rhwydweithiau y maent wedi'u creu yn Whitehall i sicrhau ei fod yn ymdrech Llywodraeth gyfan. Ni fyddai'r un o'r cyflawniadau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol hwn wedi bod yn bosibl oni bai am y gwaith tîm hwnnw.

Rwyf hefyd yn falch o'r ffordd y mae'r adran wedi datblygu'n lle gwych i weithio ynddo. Eleni, fe wnaethom gynnal ein sgôr uchaf erioed yn yr Arolwg Pobl er gwaethaf y pwysau a'r heriau amrywiol a symud o fod yn sefydliad gweithio'n ddoethach 'sefydledig' i un 'aeddfed'. Mae'n brawf o ymrwymiad ac ansawdd ein staff ein bod yn mynd o nerth i nerth, nid yn unig o ran yr hyn yr ydym yn ei ddarparu ond hefyd o ran sut yr ydym yn cyflawni.

**Glynne Jones CBE**
**Cyfarwyddwr**

# Trosolwg Adrannol

## Mae Trosolwg Strategol yr Adran yn nodi ein gwaith o dan dair blaenoriaeth strategol

Mae Swyddfa Cymru (‘y Swyddfa’) yn helpu Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau Cymru mewn Teyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb Llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru ar draws Whitehall.

Mae gan y Swyddfa dair blaenoriaeth strategol:

### *Blaenoriaeth 1 – Cefnogi Twf Economaidd yng Nghymru*

### *A - Ysgogi twf a chreu swyddi cynaliadwy drwy gefnogi economi gref yng Nghymru mewn Prydain fyd-eang ffyniannus, a marchnad fewnol y DU.*

***i. Gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid i sicrhau bod Bargeinion Twf Dinesig a Rhanbarthol yn cyflawni eu cynlluniau.***

Mae’r Swyddfa’n arwain Llywodraeth y DU ar y pedair Bargen Twf Dinesig a Rhanbarthol (“y Bargeinion”) yng Nghymru a maent wedi gweithio’n agos iawn yn ystod 2022-23 gyda Llywodraeth Cymru a’n partneriaid rhanbarthol i sicrhau bod y Bargeinion ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni’n llwyddiannus.

Mae Bwrdd Gweithredu Bargen Ddinesig a Thwf Cymru, sy’n cael ei gadeirio ar y cyd gan uwch swyddogion yn Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn darparu’r sylfaen y mae swyddogion yn y ddwy lywodraeth yn cynghori Gweinidogion arni ar faterion sy’n ymwneud â’r Bargeinion. Cyfarfu’r Bwrdd bob chwarter yn ystod y flwyddyn i adolygu cynnydd pob bargen yn erbyn cerrig milltir perfformiad a nodi’r risgiau allweddol o ran cyflawni. Ym mhob cyfarfod, roedd partneriaid rhanbarthol o un o’r Bargeinion yn adrodd ar gynnydd, gan alluogi trafodaeth ar faterion allweddol. Roedd swyddogion Swyddfa Cymru hefyd yn cynrychioli Llywodraeth y DU mewn cyfarfodydd rheolaidd byrddau rhaglenni pob un o’r Bargeinion.

Bu swyddogion Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio’n rheolaidd gyda phob un o Swyddfeydd Rheoli Portffolio’r rhanbarthau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Roedd yr ymgysylltu cadarnhaol hwn wedi galluogi Tîm Twf Rhanbarthol Swyddfa Cymru i feithrin perthynas gynyddol ffrwythlon a chadarnhaol gyda’n partneriaid rhanbarthol yn ystod y flwyddyn.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Parhaodd Swyddfa Cymru i weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe wrth i'r Fargen Ddinesig gyflymu'r ddarpariaeth yn ystod 2022-23. Mae'r Swyddfa Portffolio wedi bod yn rhagweithiol yn ei mesurau i liniaru'r pwysau economaidd presennol i gynnal momentwm a chyflawni targedau y cytunwyd arnynt. Dechreuodd y rhanbarth ar y gwaith adeiladu ar dri phrif safle yn ystod y flwyddyn adrodd: 71/72 Ffordd y Brenin yng Nghanol Dinas Abertawe (man swyddfa hyblyg ar gyfer busnesau digidol a thechnoleg); Pentre Awel, datblygiad iechyd, lles ac ymchwil arloesol yn Llanelli a phrosiect Morol Doc Penfro yn Sir Benfro, a fydd yn creu mannau ar raddfa fawr i gefnogi diwydiant i greu, lansio a chynnal seilwaith morol (gan gynnwys seilwaith gwynt ar y môr sy'n arnofio a fydd yn cyfrannu at uchelgais Sero Net Llywodraeth y DU).

Yn y flwyddyn adrodd, mae pum prosiect a rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cael eu cydnabod drwy ddyfarniadau wedi'u hachredu gan y diwydiant, gan gynnwys Canolfan Dechnoleg Bae Baglan (a agorwyd ym mis Hydref 2021) am ei nodweddion amgylcheddol.

Roedd Swyddfa Cymru wedi cefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol ar nifer o ymweliadau safle ar draws y Rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â phrosiect Campysau, a seremoni torri tir datblygiad Pentre Awel yn Llanelli ym mis Mawrth.

**Bargen Twf y Gogledd**

Lansiodd Bargen Twf y Gogledd ei phrosiect gyntaf yn ystod y flwyddyn adrodd. Roedd cyllid y Fargen Twf gwerth £3 miliwn wedi darparu offer newydd o'r radd flaenaf yng Nghanolfan Prosesu Digidol Prifysgol Bangor. Mae'r offer yn cefnogi ymchwil arloesol ym maes cyfathrebu digidol sydd o fudd i fusnesau a phreswylwyr gan ddarparu galluoedd cyfathrebu gwell, fel 5G a 6G. Cafodd y garreg filltir hon ei chydnabod ym mis Gorffennaf gydag ymweliad gan y Gweinidog David TC Davies a'r Prif Weinidog, Mark Drakeford.

Gweithiodd Swyddfa Cymru gyda Bargen Twf y Gogledd wrth iddi gael ei chyflawni. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n agos ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Rheoli Portffolio'r Rhanbarth i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i fynd i'r afael â llithriadau o ran llif cyflawni'r Fargen. Roedd hefyd yn cynnwys defnyddio arbenigedd sectorau Swyddfa Cymru i gynghori'r rhanbarth ar bynciau penodol, gan gynnwys ynni adnewyddadwy.

Mae'r gefnogaeth hon wedi helpu'r Fargen i roi ffocws newydd i'w blaenoriaethau, gan gynnwys galwad yn ddiweddar am geisiadau prosiect ychwanegol ar gyfer cyllid y fargen twf. Bydd yr ymarfer hwn yn helpu'r Swyddfa Rheoli Portffolio i adfer cydbwysedd ei phortffolio a chyfrannu at gyflawni targedau gwariant a budd.

**Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**

Mae Swyddfa Cymru wedi meithrin perthynas waith gref â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth iddi gyflymu'r gwaith o gyflawni ei phortffolio. Mae'r rhanbarth yn parhau i ganolbwyntio ei sylw ar gefnogi cwmnïau arloesol, yn enwedig yn y Cyfryngau, a'r sectorau technoleg ariannol a thechnoleg feddygol, drwy ei raglen fuddsoddi. Mae cyllid ar gyfer cwmnïau fel Creo Medical, Jellagen, a Human Data Intelligence eisoes wedi creu cyflogaeth newydd o werth uchel ar draws y rhanbarth a bydd yn rhoi Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar flaen y gad mewn amrywiaeth o sectorau diwydiannol sy'n dod i'r amlwg.

Ym mis Tachwedd, aeth yr Ysgrifennydd Gwladol i lansiad Cronfa Buddsoddi mewn Arloesi gwerth £50 miliwn Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r gronfa ecwiti wedi cael ei chreu ar y cyd â PWC i ddarparu buddsoddiad i gefnogi busnesau bach a chanolig twf uchel yn y rhanbarth. Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi rhoi gwybod i Swyddfa Cymru ei bod wedi cael nifer sylweddol o geisiadau sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd.

Llofnodwyd y contract cyfreithiol ar gyfer prynu Aberddawan gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ym mis Chwefror. Mae'r gwaith caffael ar gyfer dymchwel yr hen orsaf bŵer yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i gontractwyr ddechrau ar y safle ddiwedd 2023.

**Bargen Twf y Canolbarth**

Mae Swyddfa Cymru wedi meithrin perthynas waith agos â Chanolbarth Cymru wrth iddo ddatblygu ei achos busnes portffolio. Mae Swyddfa Cymru wedi annog y rhanbarth i ddysgu o arferion gorau'r Bargeinion eraill, ac mae wedi llunio rhestr fer o brosiectau i asesu ar gyfer addasrwydd strategol a hyfywedd ariannol o dan fodel pum achos Trysorlys EF.

Mae'r Fargen wedi blaenoriaethu pum maes twf strategol i'w datblygu yn ei hachos busnes portffolio; Ymchwil ac Arloesi Cymhwysol, Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod, Digidol, Cynnig Twristiaeth Cryfach a Chefnogi Menter. Disgwylir i'r gwaith o gyflawni'r prosiect yn yr ardaloedd hyn sydd wedi'u targedu ddechrau o ddiwedd 2023 ymlaen

***ii. Hyrwyddo cyllid ar gyfer twf lleol sy'n hybu swyddi a thwf yng Nghymru ac yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth y DU i sicrhau ffyniant bro yng Nghymru***

Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae Swyddfa Cymru wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i hyrwyddo a darparu rhaglenni buddsoddi lleol fel y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol. Cyhoeddwyd y ffrydiau cyllido hyn am y tro cyntaf yng Nghyllideb 2021 ac maent wedi'u llunio i hyrwyddo twf economaidd lleol a ffyniant bro mewn cymunedau ledled y DU.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro yn ogystal â dau gyfnod ymgeisio arall ar gyfer y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol. Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ac adrannau eraill y Llywodraeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cronfeydd hyn yn llwyddiannus a sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion yng Nghymru.

Roedd ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau i ganolbwyntio ar brosiectau diwylliannol, adfywio a thrafnidiaeth sydd o fudd i gymunedau lleol ledled y DU. Ar ôl lansio'r ail rownd, ymunodd swyddogion Swyddfa Cymru â chydweithwyr o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar gyfer sesiynau briffio gyda rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru i drafod sut y gellid manteisio i'r eithaf ar ffrydiau cyllido yng Nghymru a sut y dylai partïon sydd â diddordeb gymryd rhan yn y broses.

Cyfrannodd swyddogion at y gwaith o asesu 43 cais yn ystod ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol Cymru, gan adolygu'r holl ddeunyddiau ymgeisio a darparu sylwadau ar addasrwydd strategol prosiectau fel rhan o broses asesu yn Whitehall. Roedd Swyddfa Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli ar fyrddau cyflawni Whitehall ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro a Chronfa Adfywio Cymunedol y DU. Roedd swyddogion yn rhan o'r gwaith o sicrhau ansawdd a chymedroli ceisiadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro, a gafodd ei wneud rhwng adrannau. Roedd yr asesiadau hyn yn cynghori Gweinidogion Swyddfa Cymru i roi sylwadau ar y prosiectau yn y cam llunio rhestr fer terfynol. Llwyddodd Cymru i sicrhau £208 miliwn yn ystod ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer 11 o brosiectau, sef cyfran o 10% o gyfanswm dyraniad y DU ar gyfer yr ail rownd.

| Cronfeydd Twf Lleol – Cymru | | |
|---|---|---|
| **Cronfa** | **Nifer y Prosiectau** | **Gwerth** |
| Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU | 165 | £46.8 miliwn |
| Rownd 1 y Gronfa Ffyniant Bro | 10 | £121 miliwn |
| Rownd 2 y Gronfa Ffyniant Bro | 11 | £208 miliwn |
| Rownd 1 y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol | 3 | £460,000 |
| Rownd 2 y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Cyfnod 1 | 5 | £1.1 miliwn |
| Rownd 2 y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol Cyfnod 2 | 1 | £175,000 |

**Ffig Cyfanswm Cyllid Twf Lleol ar gyfer Cymru**
**Ffynhonnell**
https://www.gov.uk/government/collections/new-levelling-up-and-community-investments

Cyfrannodd swyddogion hefyd at y gwaith o asesu 14 cais o Gymru yn ystod y cyfnod bidio cyntaf a'r ail gyfnod bidio yn ystod ail rownd y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol. Adolygwyd pob cais, a darparwyd sylwadau ar wybodaeth a chyd-destun lleol perthnasol i fwydo i mewn i asesiad ehangach o'r ceisiadau. Hyd yma, mae Cymru wedi cael £1.7 miliwn o gyllid y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol, sy'n tua 8% o gyfanswm dyraniad y DU ar gyfer y Gronfa.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, lansiwyd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Ar 13 Ebrill 2022, cyhoeddwyd y prosbectws ac ar 5 Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU lythyrau Penderfyniad Grant i arwain awdurdodau lleol. Bydd Cymru'n elwa o £585 miliwn drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU erbyn diwedd 2024/25 (mae £101 miliwn o hwn wedi'i glustnodi ar gyfer Multiply, sef rhaglen rhifedd i oedolion). Bu

swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i sicrhau bod y cymysgedd mwyaf priodol o ymyriadau ar gael i Gymru, bod gwersi priodol yn cael eu dysgu gan y Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU ac yn wir bod cyfran gyffredinol Cymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cyfateb mewn termau real i lefel y cyllid a dderbyniwyd o dan Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi parhau i ymweld â phrosiectau ledled Cymru sydd wedi cael cyllid twf lleol. Ym mis Awst, ymwelodd cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS, â'r ganolfan EVI yng Nglynebwy a gafodd £266k drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU. Cyflwynodd y prosiect ddatblygiad menter gymdeithasol drwy ddarparu caffi cymunedol a darparu hyfforddiant sgiliau digidol.

Ym mis Medi, ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol[1] â Chanolfan Drafnidiaeth Porth a gafodd £3.5 miliwn yn ystod rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Bro. Bydd y Ganolfan yn gweithredu fel angor ar gyfer adfywio, datblygu a buddsoddi cynhwysfawr ar draws canol tref Porth a'r ardal gyfagos a bydd yn ganolbwynt ar gyfer teithio ar fysiau ym Mhorth. Ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol â'r Ganolfan eto ym mis Ebrill 2023 gyda'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth.

Ym mis Ionawr, ymwelodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol â Siop Gymunedol Llandyrnog yn Sir Ddinbych a gafodd £200k drwy'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol. Roedd y cyllid hwn yn galluogi'r gymuned i sicrhau'r ased lleol hwn a gosod caffi ynghyd â'r siop i wasanaethu fel canolfan, gan helpu gyda materion fel iechyd meddwl, teimlo'n ynysig ac unigrwydd ac adfer ymdeimlad o gydlyniant a balchder cymunedol.

Yn dilyn cyhoeddi'r prosiectau llwyddiannus ar gyfer ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro, ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol â nifer o brosiectau o bob rhan o Gymru a oedd wedi sicrhau cyllid. Roedd y rhain yn cynnwys Canolfan Ddiwylliannol a Chaffi Pont-y-pŵl, Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl, Cam 1 Crossrail Caerdydd, Cysylltedd Trafnidiaeth Arfordir Conwy i'r Dyffryn, a Chaergybi: Prosiect trawsnewid sy'n seiliedig ar ddiwylliant a threftadaeth.

Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda Thîm Ardal Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Cymru i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyflawni prosiectau llwyddiannus a darparu adborth ar geisiadau aflwyddiannus.

### *iii. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru o flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer masnach a buddsoddiad tramor*

### Polisi Masnach

Drwy gydol y cyfnod adrodd, bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn mewn Cytundebau Masnach Rydd a chytundebau eraill a lofnodwyd gan y DU a gwledydd

1 Ar gyfer yr ymweliad cyntaf ym mis Medi 2022, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar y pryd.

eraill, ac mewn mandadau ar gyfer trafodaethau i gytuno ar gytundebau masnach rydd yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach i sicrhau bod y mandadau ar gyfer trafodaethau masnach y DU yn gweithio i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys y mandadau ar gyfer trafodaethau gyda Chyngor Corfforaeth y Gwlff, De Korea, Canada, Mecsico, Israel a'r Swistir a'r Cytuniad Buddsoddi gyda Singapore. Yn ogystal, fe wnaethom gefnogi trafodaethau parhaus gydag India, memorandwm cyd-ddealltwriaeth lefel gwladwriaeth UDA, a chais y DU i ymuno ag ardal masnach rydd gydag 11 o wledydd Asia a'r Môr Tawel o'r enw'r Cytundeb Cynhwysfawr a Chynyddol ar gyfer Partneriaeth Traws-Basiffig (CPTPP).

Bu'r swyddfa hefyd yn gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach i sicrhau bod manteision Cytundebau Masnach Rydd newydd a phresennol yn cael eu gwireddu i Gymru a busnesau Cymru, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i gael mynediad i'r farchnad yn Awstralia, Seland Newydd, ac adeiladu ar gyfleoedd masnachu presennol gyda Singapore. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod bwrdd crwn yn Sioe Frenhinol Cymru gydag undebau ffermio Cymru a'r Derbyniad Wythnos Masnach Ryngwladol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Yn dilyn y cytundeb rhwng Llywodraeth y DU ac UDA i ddiddymu'r Rheol Anifeiliaid Bach sy'n Cnoi Cil, cafodd Cig Oen Prydain ei allforio i UDA am y tro cyntaf o'r DU o safle prosesu yng Nghymru ym mis Hydref 2022.

At hynny, mae'r trafodaethau llwyddiannus ag UDA wedi sicrhau bod tariffau Adran 232 yr Unol Daleithiau ar fewnforion dur, alwminiwm a chynhyrchion deilliadol yn y DU sydd wedi bod ar waith ers 2018 wedi cael eu dileu'n eang. Mae'r cynnig hwn yn golygu y gall cynhyrchwyr yn y DU allforio (o 1 Mehefin 2022 ymlaen) 500,000 tunnell fetrig o ddur a 21,600 tunnell fetrig o dariff alwminiwm yn rhydd i UDA.

Cyfarfu Gweinidogion y Swyddfa â Gweinidogion eraill Llywodraeth y DU ac uwch randdeiliaid o sectorau amrywiol yng Nghymru i ystyried effaith polisi masnach Llywodraeth y DU. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gydag undebau'r ffermwyr, sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau a'r diwydiannau modurol, dur ac awyrofod.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd yn mynychu'r Fforwm Gweinidogol dros Fasnach, lle mae Gweinidogion y DU a gweinidogion o'r gweinyddiaethau datganoledig yn trafod materion sy'n ymwneud â masnach ryngwladol. Mae'r Fforwm Gweinidogol dros Fasnach yn cael ei gefnogi gan grŵp o uwch swyddogion, sy'n cael ei fynychu gan swyddogion Swyddfa Cymru.

**Hyrwyddo Masnach**

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth i hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru. Mae swyddogion wedi parhau i weithio gyda'r Adran Busnes a Masnach i uwchsgilio timau'r sector ac arweinwyr hyrwyddo masnach ar gryfderau Cymru a chyfleoedd buddsoddi. Mae cyfleoedd buddsoddi mewnol cryf yng Nghymru mewn ynni carbon isel (yn enwedig Gwynt ar y Môr sy'n Arnofio a Niwclear) a HPOs yn y sectorau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a Thechnoleg Feddygol. Gwnaethom barhau i weithio gyda'r Adran Busnes a Masnach

wrth iddynt ddatblygu cynlluniau i hyrwyddo'r HPOs lled-ddargludyddion cyfansawdd a thechnoleg feddygol. Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth yr Adran Busnes a Masnach lansio HPO Technoleg Feddygol, gan dynnu sylw at gyfleoedd buddsoddi mewn technoleg feddygol yn ne Cymru.

I gefnogi gwaith i gynyddu cyfran Cymru o gyfanswm y mewnfuddsoddiadau, mae arweinydd penodol i Gymru wedi'i benodi yn y Swyddfa Buddsoddiadau (OFI) sy'n gweithio ar draws yr Adran Busnes a Masnach a'r Swyddfa Fuddsoddi i gysylltu buddsoddiadau strategol ar draws sectorau allweddol.

Tynnodd Simon Hart, yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol a'r Ysgrifennydd Gwladol presennol, sylw at gyfleoedd yng Nghymru drwy ymweliadau rhyngwladol. Ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol Simon Hart â'r Unol Daleithiau ym mis Ebrill 2022 i hyrwyddo cryfderau Cymru yn y sector ynni, yn enwedig cyfleoedd ym maes niwclear a gwynt ar y môr sy'n arnofio. Roedd yr ymweliad hefyd yn cynnwys cyfarfodydd gyda busnesau sydd â'u pencadlys yn UDA i drafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer eu safleoedd yng Nghymru. Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol presennol ddigwyddiad bwrdd crwn i fusnesau i drafod cyfleoedd buddsoddi a hyrwyddo cynnyrch o Gymru. Cyfarfu hefyd â Chyngor Mewnforio Cig America i drafod y potensial i allforio Cig Oen Cymru.

Gan gydnabod y cyfleoedd a ddaeth yn sgil Cymru ar lwyfan y byd drwy Gwpan Pêl-droed y Byd, ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol presennol â Qatar ym mis Tachwedd 2022 i hyrwyddo cryfderau Cymru ym maes ynni, Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a Thechnoleg Feddygol.

Yn dilyn lansio Made in the UK: Sold to the World, y strategaeth newydd i hybu allforion i £1 triliwn ym mis Tachwedd 2021, rydym wedi gweithio gyda'r Adran Busnes a Masnach wrth i'r ymrwymiadau yn y strategaeth gael eu rhoi ar waith yng Nghymru, gan sicrhau bod cymorth allforio yn cael ei ddarparu i fusnesau yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Allforio wedi ehangu ei wasanaethau i gynnwys Wcráin a Japan. Mae'r Academi Allforio yn cynnig rhaglenni hyfforddi pwrpasol ac adnoddau digidol i helpu busnesau i lywio drwy elfennau technegol allforio a dod o hyd i gyfleoedd dramor ac mae UK Export Finance wedi cael £10 biliwn ychwanegol o gapasiti i hybu mwy o allforion o'r DU.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU wyth o Hyrwyddwyr Allforio Cymru, a fydd yn rhoi cyngor i fusnesau'r DU ar sut mae ymuno â marchnadoedd rhyngwladol. Dewiswyd pob Hyrwyddwr oherwydd bod ganddynt hanes llwyddiannus o fasnachu rhyngwladol.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o'r Bwrdd Masnach. Cyfarfu'r Bwrdd Masnach yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd, gan lansio adroddiad y Bwrdd ar Wyddorau Bywyd, sy'n nodi'r cyfleoedd y mae'r sector yn eu cynnig ar gyfer twf economaidd ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU, a chydnabod y cryfderau yn y maes hwn yng Nghymru. Clywodd y Bwrdd gan y gwneuthurwr a'r allforiwr o Gymru, Dulas Ltd, sydd wedi cefnogi ymdrechion imiwneiddio ac iechyd ar draws y byd drwy ddarparu'r oergell solar cyntaf ar gyfer brechlynnau i gael ei fasgynhyrchu.

***iv Helpu busnesau ac eraill i dyfu a chynnal gweithgareddau a sicrhau buddsoddiad o gynlluniau diwydiant Llywodraeth y DU***

Fel y nodir yn y Cynllun ar gyfer Cymru, mae Swyddfa Cymru wedi canolbwyntio ar sawl sector allweddol ar gyfer Cymru, gan gynnwys y sector modurol, dur, lled-ddargludyddion cyfansawdd, ac amaethyddiaeth.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio gyda Diwydiant ac ar draws Whitehall, i sicrhau bod y sector dur yng Nghymru yn cael ei gynrychioli a bod ganddo ddyfodol cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael nifer o sgyrsiau â chydweithwyr yn y Cabinet i hyrwyddo Sector Dur Cymru. Ym mis Ionawr, ymwelodd yr Ysgrifennydd Gwladol â gwaith dur Port Talbot. Mae dur yn bwysig i economi Cymru ac yn bwysig yn strategol i'r DU gyfan. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol cynaliadwy a chystadleuol i'r sector dur yng Nghymru ac felly mae wedi cymryd camau bras i wella'r amgylchedd gweithredu ar gyfer cynhyrchwyr dur y DU. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Disgownt Busnes Ynni, yr ateb ar dariffau'r Unol Daleithiau, ein bwriad i ymgynghori ar opsiynau lliniaru gollyngiadau carbon a Gwibwefrwr Diwydiant Prydain, gyda mesurau newydd wedi'u targedu i sicrhau bod y costau ynni ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys yn cyd-fynd â rhai ein cymdogion tebyg.

Mae llawer o gyfleoedd yng Nghymru i'r sector modurol fel rhan o ymgyrch y Llywodraeth i drydaneiddio cerbydau a'r newid i Sero Net. Mae Swyddfa Cymru'n parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Busnes a Masnach a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru, er mwyn i Gymru barhau i fod yn un o'r lleoliadau mwyaf cystadleuol yn y byd ar gyfer y sector modurol. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda diwydiant modurol Cymru, yr Adran Busnes a Masnach a'r Adran Drafnidiaeth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu hystyried wrth lunio polisïau wrth i ni weithio tuag at ein nodau Sero Net. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth gynigion ymgynghori ar gyfer mandad cerbydau dim allyriadau ar weithgynhyrchwyr modurol y DU. Byddwn yn parhau i gefnogi gweithgynhyrchwyr ceir a'u cadwyn gyflenwi wrth iddynt wneud y newid angenrheidiol i ddod â gwerthiant ceir a faniau petrol a disel i ben yn 2030.

Mae clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd De Cymru yn faes o fantais gystadleuol o'r radd flaenaf i Gymru. Mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg i ddatblygu Strategaeth Lled-ddargludyddion Cyfansawdd y DU, gan sicrhau bod rôl hanfodol Clwstwr De Cymru yn sector lled-ddargludyddion y DU yn y dyfodol yn cael ei chydnabod yn briodol. Ar ben hynny, rydym wedi hwyluso ymgysylltu rhwng yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg, Llywodraeth Cymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ymgysylltu'n gynnar â phartneriaid rhanbarthol er mwyn gallu cyflawni'r strategaeth yn effeithiol yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd wedi cael trafodaethau gyda chydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau bod yr arbenigedd sydd gyda'r gorau yn y byd yn Ne Cymru yn cael cefnogaeth briodol i alluogi'r Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd i gyflawni ei botensial llawn.

Bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gyda'r Trysorlys cyn Datganiad yr Hydref 2022 i sicrhau £1.6 biliwn o gyllid, cynnydd o 35%, ar gyfer 9 canolfan arloesi Catapwlt y DU, gan gynnwys Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd De Cymru. Mae swyddogion wedi meithrin cysylltiadau cryf ac wedi ymgysylltu'n aml â rhanddeiliaid allweddol yn

y Clwstwr, gan gynnwys CSConnected a'r Catapwlt Ceisiadau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, ac wedi trosglwyddo adborth gan y Clwstwr ar draws Whitehall. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd wedi ymweld â rhanddeiliaid yng Nghlwstwr De Cymru, gan gynnwys Canolfan Deunyddiau Lled-ddargludyddion Integredig Prifysgol Abertawe a'r Catapwlt Ceisiadau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

Mae'r sector amaethyddiaeth yn un allweddol i Gymru, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ymgysylltu'n adeiladol drwy gydol y flwyddyn gyda chydweithwyr yn Defra drwy gyswllt swyddogol ac ymgysylltu Gweinidogol, yn fwyaf arbennig yng nghyfarfodydd rheolaidd Grŵp Rhyngweinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ar lefel swyddogol a Gweinidogol, mae Swyddfa Cymru wedi parhau i feithrin ei pherthynas â'r sector, gan gynnwys undebau'r ffermwyr. Yn fwyaf nodedig, cynhaliodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd gyfarfod bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid amaethyddol allweddol yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf. Roedd y Gweinidog hefyd wedi ymweld â Ffair Aeaf Frenhinol Cymru ym mis Tachwedd, lle cyfarfu â chynrychiolwyr o undebau'r ffermwyr.

Mae Swyddfa Cymru wedi nodi bod Technoleg Feddygol yn faes blaenoriaeth i Gymru. Mae swyddogion wedi gweithio i fapio'r sector Technoleg Feddygol yng Nghymru i ganfod lle mae clystyrau Technoleg Feddygol wedi'u lleoli a ble mae cyllid Llywodraeth y DU yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd. Mae Swyddfa Cymru wedi datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid ar draws y sector Technoleg Feddygol, gan gynnwys ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff cydlynu fel TriTech a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ymweld â chwmnïau Technoleg Feddygol arloesol sydd wedi cael cyllid gan Lywodraeth y DU, er enghraifft Jellagen.

Yn dilyn ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid allanol, rydym wedi meithrin cysylltiadau ar draws Cyngor Ymchwil Meddygol UKRI, Innovate UK KTN ac Innovate Edge i ddatblygu dealltwriaeth y Swyddfa o gryfderau Technoleg Feddygol Cymru a'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y DU i dyfu'r sector allweddol hwn. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn ymgysylltu â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal ac yn cefnogi eu gwaith i ehangu arlwy'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd yn y Gwledydd Datganoledig. Yn olaf, rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd i sicrhau ymgysylltiad cryf â rhanddeiliaid yng Nghymru ar y Weledigaeth ar gyfer Gwyddorau Bywyd a bod cryfderau Cymru yn cael eu hadlewyrchu a'u cefnogi mewn cenadaethau allweddol lle mae gan Gymru arbenigedd cryf.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda Chlwstwr Diwydiannol De Cymru wrth iddynt ddatblygu eu strategaeth i ddatgarboneiddio diwydiannau trwm De Cymru, gyda chymorth dros £20m o gyllid gan Her Datgarboneiddio Diwydiannol UKRI. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi'r clwstwr i gynllunio map ar gyfer sero net drwy dechnolegau datgarboneiddio arloesol fel cynhyrchu hydrogen gwyrdd, dal, defnyddio a storio carbon, a chludo CO2. Siaradodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn lansiad y Cynllun Clwstwr ym mis Mawrth 2023 ac mae'r Swyddfa'n parhau i weithio gyda'r clwstwr i gefnogi gwaith y prosiect lleoli.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o gyllid ar gyfer prosiectau yng Nghlwstwr Gogledd Orllewin HyNet. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ddal carbon yn ffatri Hanson Cement yn Padeswood. Mae Proses Dilyniant Clwstwr Dal, Defnyddio a Storio Carbon yn cael ei hariannu i £1 biliwn drwy'r Gronfa Seilwaith CCS i gefnogi'r

gwaith o weithredu Dal, Defnyddio a Storio Carbon. Mae'r buddsoddiad hwn yn dal i roi gogledd Cymru ymhlith y rhanbarthau a fydd yn cael eu trawsnewid dros y degawd nesaf.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar Borthladdoedd Rhydd i Gymru. Ym mis Mawrth, yn dilyn proses gystadleuol, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth y DU yn cefnogi dau Borthladd Rhydd yng Nghymru – un yn Ynys Môn ac un ym Mhort Talbot ac Aberdaugleddau. Bydd porthladdoedd rhydd yn ganolfannau ar gyfer masnach ryngwladol, arloesi a masnach, gan ddod â busnesau, swyddi a buddsoddiad newydd i adfywio cymunedau ledled y DU.

Rydym wedi ac yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i ddylunio a darparu o leiaf un Parth Buddsoddi yng Nghymru. Yn debyg i'r broses Porthladd Rhydd, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac yn parhau i drafod Parthau Buddsoddi yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau y bydd Parth Buddsoddi yn cael ei gyflawni cyn gynted â phosibl, gan adlewyrchu anghenion Cymru i wneud yn siŵr bod rhai Cymru'n gallu manteisio'n llawn ar y cyfle.

## *B - Sicrhau ffyniant bro yng Nghymru fel rhan o'r gwaith o wneud hynny yn y DU, gan gyflawni'r cenadaethau yng Nghymru erbyn 2030*

Mae sicrhau ffyniant bro yn y DU yn flaenoriaeth strategol Llywodraeth y DU. Yn ystod 2022-23, mae ffyniant bro yng Nghymru wedi bod wrth galon gwaith Swyddfa Cymru, gan gefnogi'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ac adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod ffyniant bro wedi'i wreiddio'n llawn ym mholisïau Llywodraeth y DU a'r gwaith o gyflawni rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru.

Mae ein gwaith o dan flaenoriaeth 1A i ysgogi twf a chreu swyddi cynaliadwy drwy gefnogi economi gref yng Nghymru mewn Prydain fyd-eang ffyniannus a marchnad fewnol y DU, yn cefnogi'n uniongyrchol Cenhadaeth y Papur Gwyn Ffyniant Bro y bydd cyflogau, cyflogaeth a chynhyrchiant wedi codi ym mhob rhan o'r DU erbyn 2030, gyda phob un yn cynnwys dinas gystadleuol fyd-eang, gyda'r bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau a'r ardaloedd eraill yn cau.

Mae hyn yn cynnwys un ar ddeg o brosiectau yng Nghymru yn cael £208 miliwn yn ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro. Mae'r cyllid yn galluogi buddsoddiad cyfalaf mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru sydd angen ffyniant, gan gynnwys £9 miliwn ar gyfer campws peirianneg newydd ar gyfer 600 o bobl ifanc ym Mlaenau Gwent ac £17 miliwn i adnewyddu adeiladau diwylliannol a threftadaeth yng nghanol tref Caergybi.

Daeth y Gronfa Adfywio Cymunedol i ben ym mis Rhagfyr 2022. Cafodd y Gronfa ar gyfer y DU gyfan ei lansio yn 2021 i helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Cafodd Cymru £46 miliwn o gyllid ar gyfer dros 160 o brosiectau i gefnogi ffyniant bro drwy fuddsoddi mewn cymunedau lleol a rhoi hwb i sgiliau.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hefyd cafodd £585 miliwn ei ddatgloi ar gyfer Cymru gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn lle'r cyllid a gafodd Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Prif nod Cronfa Ffyniant Gyffredin

y DU yw meithrin balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd, yng Nghymru ac ar draws y DU, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth y Papur Gwyn Ffyniant Bro sef, erbyn 2030, y bydd balchder mewn lle megis boddhad pobl â chanol eu tref a'u hymgysylltiad â diwylliant a chymuned leol wedi codi ym mhob rhan o'r DU, gyda'r bwlch rhwng y rhai sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau.

Mae Ffyniant Bro yng Nghymru hefyd yn cael ei gefnogi gan y rhaglen Multiply, sy'n rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae Cymru'n cael £101 miliwn o gyllid Multiply i wella sgiliau rhifedd oedolion, gan roi hwb i'w gallu i ddefnyddio mathemateg yn eu bywyd bob dydd (gartref neu yn y gwaith) a gwella canlyniadau'r farchnad lafur drwy gynyddu cyfran yr oedolion mewn addysg neu gyflogaeth barhaus a lleihau'r bylchau mewn sgiliau rhifedd a nodwyd gan gyflogwyr. Mae hyn yn cefnogi'r genhadaeth Ffyniant Bro: Erbyn 2030, bydd nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant sgiliau o ansawdd uchel yn llwyddiannus wedi cynyddu'n sylweddol ym mhob rhan o'r DU.

Mae'r rhaglenni hyn, gyda phedwar bargen twf dinesig a rhanbarthol Cymru, yn golygu bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi buddsoddiad o dros £1.75bn hyd yma ar raglenni penodol sy'n seiliedig ar ardaloedd i helpu i sicrhau ffyniant bro yng Nghymru.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i ddarparu Porthladdoedd Rhydd ar Ynys Môn ac ym Mhort Talbot ac Aberdaugleddau. Bydd y porthladdoedd rhydd hyn yn ganolfannau ar gyfer masnach ryngwladol, arloesi a masnach, gan ddod â busnesau, swyddi a buddsoddiad newydd i adfywio'r cymunedau lleol.

Ar ben hynny, mae ein gwaith i gefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru, ar draws y DU ac yn fyd-eang, yn helpu i gefnogi'r balchder yn y Genhadaeth. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r Gymraeg a Chwpan Pêl-droed y Byd y Dynion yn Qatar, yn ogystal â buddsoddi yn y Rhaglen Cyfleusterau Aml-chwaraeon ar Lawr Gwlad ledled y DU a rhaglen uwchraddio cyrtiau tennis cyhoeddus y Gymdeithas Tennis Lawnt.

Mae gwaith y Swyddfa i gynyddu'r cyfleoedd i Gymru o flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer masnach a buddsoddiad tramor a chynorthwyo busnesau ac eraill i dyfu a chynnal gweithgareddau a sicrhau buddsoddiad, hefyd yn cefnogi ffyniant bro ledled Cymru drwy sbarduno'r economi mewn sectorau allweddol. Er enghraifft, bydd y gefnogaeth ar gyfer Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn sbarduno twf rhwng Casnewydd ac Abertawe, a bydd y ffocws ar gefnogi datgarboneiddio diwydiant yn cefnogi busnesau yn ne-orllewin a gogledd-ddwyrain Cymru.

Mae ein gwaith i sicrhau buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith, technoleg ac arloesi yng Nghymru hefyd yn cefnogi datblygiad diwydiannau allweddol yng Nghymru, gan greu swyddi a thwf. Mae cefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer gwynt ar y môr sy'n arnofio yn cefnogi datblygiad diwydiant allweddol yn ne-orllewin Cymru. Mae gan Gymru hefyd brif safleoedd ar gyfer prosiectau niwclear newydd, ac mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net i ddatblygu cyfleoedd ynni niwclear.

Mae'r Swyddfa wedi parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd seilwaith digidol ar gyfer sicrhau ffyniant bro yng Nghymru ac mae wedi gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg i ddatblygu cysylltedd digidol ymhellach yng Nghymru. Mae

hyn yn cynnwys cymorth i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, cyflawni Prosiect Gigabit gwerth £5bn Llywodraeth y DU a lansio Treialon Alffa mewn nifer o leoliadau sydd wedi cael eu pennu fel rhai Anodd Iawn eu Cyrraedd. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cefnogi'r Genhadaeth Ffyniant Bro: Erbyn 2030, bydd gan y DU ddarpariaeth 4G a band eang sy'n gallu delio â gigabit ledled y wlad, gyda darpariaeth 5G ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth.

Mae'r genhadaeth ffyniant bro ar gyfer ymchwil a datblygu yn gyfle i Gymru: Erbyn 2030, bydd buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu allan i'r De-ddwyrain Fwyaf yn cynyddu o leiaf 40%, ac o leiaf un rhan o dair dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, gyda'r cyllid ychwanegol hwnnw gan y Llywodraeth yn ceisio denu o leiaf ddwywaith cymaint o fuddsoddiad gan y sector preifat dros y tymor hir i ysgogi arloesedd a thwf mewn cynhyrchiant. I gefnogi'r ymrwymiad hwn, cynhaliodd Swyddfa Cymru ddadansoddiad cynhwysfawr o gyllid ymchwil a datblygu yng Nghymru i lywio strategaeth yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg. Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos gydag Ymchwil ac Arloesi yn y DU i sicrhau bod arbenigedd Cymru yn cael ei gydnabod a bod cyllid ar gael i brosiectau cymwys. Mae Swyddfa Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â Phrifysgolion Cymru a Rhwydwaith Arloesi Cymru ac mae wedi meithrin perthynas â phob un o'r wyth prifysgol yng Nghymru. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau cyffredin ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru.

## *C – Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru o ran dyfodol gwyrdd a chynaliadwy, gan sicrhau swyddi a buddsoddiad wrth i'r DU symud i economi sero net a sicrhau bod gan Gymru gysylltiadau da yn fewnol ac â gweddill y DU*

***Sicrhau buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilwaith, technoleg, ac arloesi***

Rôl Swyddfa Cymru mewn buddsoddi mewn seilwaith yw helpu adrannau'r Llywodraeth i ddeall anghenion Cymru a sicrhau eu bod yn cael eu blaenoriaethu'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith ymgysylltu ar seilwaith wedi bod gyda'r Adran Drafnidiaeth, yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg.

**Seilwaith Ynni**

Ym mis Mawrth, cyflwynodd yr Adran Diogelwch Ynni a Sero *Powering Up Britain*, sef pecyn o gyhoeddiadau gan gynnwys y Cynllun Diogelwch Ynni a'r Cynllun Twf Sero Net.

I gefnogi gwynt ar y môr sy'n arnofio (FLOW) yng Nghymru, cyhoeddodd y Cynllun Diogelwch Ynni lansiad y cynllun buddsoddi mewn gweithgynhyrchu gwynt ar y môr sy'n arnofio (FLOWMIS), £160m o gyllid newydd i gefnogi porthladdoedd môr i ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen i wasanaethu'r diwydiant newydd hwn. Mae Swyddfa Cymru yn parhau i weithio gyda'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net wrth i'r cyllid hwn gael ei ddyfarnu i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried, a bod Cymru mewn sefyllfa dda i elwa o'r cyllid hwn.

Mae Swyddfa Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid lleol, yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net ac Ystad y Goron i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynhyrchu

ynni gwynt ar y môr sy'n arnofio yng Nghymru. Mae gan y dechnoleg hon botensial lleoli cryf yn nyfroedd Cymru, yn enwedig yn y Môr Celtaidd oddi ar arfordir de-orllewin Cymru a Lloegr lle mae cyflymder y gwynt yn uchel a lle mae moroedd dwfn yn hygyrch o borthladdoedd strategol mawr. Bydd buddsoddi mewn seilwaith porthladdoedd yn allweddol i sicrhau bod Cymru'n manteisio ar y swyddi a'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi y mae gwynt ar y môr sy'n arnofio yn eu cynnig.

Mae gan Gymru gryfderau a chyfleoedd sylweddol mewn technolegau ynni morol. Gweithiodd Swyddfa Cymru yn agos gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod prosiectau ffrwd lanw yng ngogledd Cymru yn cael cyfle i wneud cais i Gylch Dyrannu 4 y Contractau ar gyfer Gwahaniaeth. Ym mis Gorffennaf, sicrhaodd Morlais Magallanes Gontract ar gyfer Gwahaniaeth ar gyfer prosiect ffrwd lanw oddi ar arfordir Ynys Môn.

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd yn clustnodi arian ar gyfer technoleg ffrwd lanw yn y cynllun Contract ar gyfer Gwahaniaeth. Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i ddatgloi'r potensial ar gyfer sector ynni'r llanw ffyniannus a allai gefnogi cannoedd o swyddi gwyrdd ledled gogledd Cymru.

Mae gan Gymru brif safleoedd ar gyfer prosiectau niwclear newydd, ac mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos gyda'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net i ddatblygu cyfleoedd ynni niwclear. Roedd Cynllun Diogelwch Ynni Llywodraeth y DU a'r Cynllun Twf Sero Net ym mis Mawrth yn cynnwys sefydlu Great British Nuclear, asiantaeth yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net sy'n gyfrifol am hwyluso'r gwaith o ddatblygu pŵer niwclear. Bydd Swyddfa Cymru yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ymgysylltu â Great British Nuclear ac adrannau eraill y Llywodraeth i hyrwyddo cyfleoedd niwclear yng Nghymru.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio gyda'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net i gefnogi'r cynnydd o ran datblygu cynhyrchu Hydrogen yng Nghymru. Ym mis Mawrth, cafodd tri darpar ddatblygiad Hydrogen yng Nghymru eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cael cymorth drwy'r Gronfa Hydrogen Sero Net, gyda pedwerydd prosiect yn Sir Benfro yn cael cyllid i fwrw ymlaen.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio ar gyfleoedd prosiect sero-net eraill dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

**Seilwaith trafnidiaeth**

Yn dilyn cyhoeddi Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb Syr Peter Hendy ym mis Tachwedd 2021, dyfarnwyd £2.7m drwy Gronfa Datblygu Cysylltedd yr Undeb i ddatblygu ymhellach gynigion i uwchraddio a datblygu gorsafoedd ar hyd Prif Reilffordd De Cymru er mwyn lleihau tagfeydd ar hyd coridor yr M4. Mae Swyddfa Cymru yn ymgysylltu'n agos â'r Adran Drafnidiaeth ynghylch ymateb y Llywodraeth, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2023.

Roedd Cyllideb mis Mawrth yn cynnwys dyfarniad o £20m ar gyfer adfer y Morglawdd ym Mhorthladd Caergybi. Bydd y buddsoddiad hwn, ochr yn ochr â rhoi statws Porthladd Rhydd, yn cefnogi cynaliadwyedd a datblygiad y Porthladd.

Mae cynnydd wedi bod o ran uwchraddio'r rheilffyrdd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ym mis Ionawr, dyfarnwyd £50 miliwn i Gyngor Caerdydd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro i ddatblygu Crossrail Caerdydd, llwybr newydd rhwng Gorsaf Caerdydd Canolog a'r Bae. Roedd yr Adran Drafnidiaeth wedi ariannu'r cynnydd tuag at ailagor Gorsaf Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd ag uwchraddio capasiti Gorsaf Caerdydd Canolog.

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r Adran Busnes a Masnach i gefnogi'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd, a fydd yn creu cyfleuster profi trenau o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r £20 miliwn o gyllid grant a ymrwymwyd i'r Ganolfan wedi cael ei ddarparu ac mae £8 miliwn o gyllid arloesi wrthi'n cael ei ddarparu drwy UKRI.

O ran seilwaith ffyrdd, mae'r Swyddfa'n parhau i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth ar ddewisiadau sy'n ymwneud â'r ymrwymiad yn y maniffesto i uwchraddio'r A55, ac uwchraddio ffyrdd trawsffiniol eraill. Mae'r Swyddfa yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth cyn ymateb Llywodraeth y DU i'r Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb, yn enwedig mewn perthynas â gwella seilwaith trafnidiaeth ar draws gogledd a de Cymru.

**Seilwaith digidol**

Mae Papur Gwyn y Gronfa Ffyniant Bro yn ymrwymo y bydd gan y DU ddarpariaeth 4G a band eang sy'n gallu delio â gigabit ledled y wlad, gyda darpariaeth 5G ar gyfer y rhan fwyaf o'r boblogaeth erbyn 2030. Mae disgwyl i Gymru gael darpariaeth band eang sy'n gallu delio â gigabit o 70-80% erbyn 2025, a darpariaeth 4G 80% gan bob Gweithredwr Rhwydwaith Symudol erbyn 2027. Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd seilwaith digidol ar gyfer sicrhau ffyniant bro yng Nghymru ac mae wedi gweithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg i ddatblygu cysylltedd digidol ymhellach yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fargen gwerth £1 biliwn gyda gweithredwyr rhwydweithiau symudol i ddarparu'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. O dan y rhaglen, bydd darpariaeth Cymru gan y pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol yn cynyddu o 60% i 80%, a bydd ardaloedd sydd â darpariaeth gan o leiaf un darparwr yn cynyddu o 90% i 95%. Mae'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir eisoes yn cynyddu darpariaeth 4G yng Nghymru. Mae'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol bellach wedi cyflwyno dros 150 o safleoedd newydd ledled y DU yn uniongyrchol i ofynion y Rhwydwaith Gwledig a Rennir ac wedi uwchraddio dros 1,300 o safleoedd – gan gynnwys 138 yng Nghymru – ers i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir ddechrau yn 2020.

Mae Swyddfa Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r holl weithredwyr rhwydweithiau symudol sy'n ymwneud â'r rhaglen er mwyn deall eu cynnydd, yn enwedig mewn perthynas â chaniatâd cynllunio.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi ymgysylltu â'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg/BDUK ynghylch elfen Gwasanaeth Ardal Estynedig (EAS) y Rhwydwaith Gwledig a Rennir a fydd yn gwella darpariaeth 4G yn ardaloedd anodd eu cyrraedd Cymru lle nad oes signal gan unrhyw weithredwr ar hyn o bryd. Yng Nghymru, mae 86 o safleoedd EAS yn cael eu hystyried yn rhanbarthau Dyfed Powys, Gwent a gogledd Cymru. Mae 44 o 86 o safleoedd posibl EAS yng Nghymru bellach wedi dechrau symud drwy brosesau mewnol BDUK a dylid eu trosglwyddo i'r gweithredwyr rhwydweithiau

symudol yn 2023. Mae gan y gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedyn hyd at 12 mis i roi'r safleoedd hyn ar waith ar gyfer cysylltedd masnachol. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cadeirio gweithgor sy'n dod â swyddogion o BDUK, y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru ac arweinwyr Digidol y Fargen Twf at ei gilydd i drafod darparu safleoedd EAS yng Nghymru.

O ran rhaglen Gigabit Prosiect £5bn Llywodraeth y DU, cafodd yr Adolygiad Cyhoeddus ei gwblhau ym mis Mai 2022, a oedd yn nodi 231,482 o safleoedd yng Nghymru sydd o fewn cwmpas Prosiect Gigabit. Cwblhawyd dadansoddiad o'r Adolygiad Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2022 a defnyddiwyd y dadansoddiad hwn i ddiffinio Ardaloedd Ymyrryd posibl. Ers mis Tachwedd 2022, mae BDUK wedi bod yn asesu diddordeb cyflenwyr yn yr Ardaloedd Ymyrryd hyn drwy broses ffurfiol Ymgysylltu â'r Farchnad Cyn-Caffael.

Ers mis Tachwedd 2022, mae 2,473 o dalebau wedi cael eu rhoi i helpu cymunedau mewn ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru drwy Gynllun Talebau Gigabit y DU Prosiect Gigabit. Mae hyn yn ychwanegol at y 2,732 o dalebau sydd eisoes wedi cysylltu cartrefi a busnesau yng Nghymru ers 2018. Ddechrau 2023, cynyddodd BDUK y gwerth taleb uchaf, o £1,500 ar gyfer cartrefi a £3,500 i fusnesau i £4,500 ar gyfer cartrefi a busnesau. Pan fydd y cynllun talebau yn ailagor yng Nghymru yn ystod haf 2023, bydd y cynnydd hwn yn helpu darparwyr band eang i ymestyn ymhellach i ardaloedd gwledig yng Nghymru lle mae costau adeiladu yn uwch[2].

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg lansiad Treialon Alffa mewn nifer o leoliadau i brofi hyfywedd cysylltedd lloeren gyda nifer o randdeiliaid i nifer cyfyngedig o adeiladau o bell ledled y DU sydd y tu allan i gwmpas Prosiect Gigabit ac sydd wedi cael eu pennu fel rhai Anodd Iawn eu Cyrraedd. Cyhoeddwyd dau Dreialon Alffa yn Nyffryn Ogwen a Dyffryn Crafnant – y ddau ym Mharc Cenedlaethol Eryri – a disgwylir iddynt bara am hyd at 2 flynedd.

**Arloesedd**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos gydag Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) i sicrhau bod arbenigedd Cymru yn cael ei gydnabod a bod cyllid ar gael i brosiectau cymwys. Mae Ymchwil a Datblygu Cymru wedi cael nifer o fuddsoddiadau, gan gynnwys £118m dros 148 o brosiectau unigryw yng Nghymru drwy Gronfa Her y Strategaeth Ddiwydiannol. Mae prosiectau diweddar a ariannwyd drwy'r rhaglen hon yn cynnwys £4.1m ar gyfer y prosiect 'UP', dan arweiniad Fibretec yn Abertawe, i sefydlu cyfleuster arddangos ar raddfa fasnachol ar gyfer adfer, didoli ac ailgylchu plastig ôl-ddefnydd wedi'i becynnu o ffrydiau gwastraff cymysg, a £740k i gefnogi gweithgarwch corfforol gan ddefnyddio AI a thechnoleg y gellir ei wisgo, dan arweiniad Tendertec yng Nghaerdydd. Bydd y cyllid hwn yn helpu i ddod ag ymchwil yn fyw a datblygu perthnasedd ymchwil yn y byd go iawn. Mae swyddogion hefyd yn ymgysylltu'n agos â'r timau cyflawni ar gyfer rhaglen Cyfryngau Cymru gwerth £22m a'r rhaglen CSConnected gwerth £25m, y naill a'r llall wedi'u hariannu drwy'r Gronfa Strength in Places, i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglenni hyn yn effeithiol.

2 Mae'r cynllun talebau yng Nghymru wedi cael ei ohirio ers mis Awst 2022 ac mae'r gwaith mapio ar gyfer ardaloedd ymyrryd Prosiect Gigabit wedi bod yn mynd rhagddo. Disgwylir y bydd y cynllun talebau yng Nghymru yn ailddechrau ym mis Mai/Mehefin 2023, ar ôl lansio'r prosesau caffael ar gyfer Prosiect Gigabit.

Yn Adolygiad o Wariant yr hydref 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd cynnydd mewn buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu i £20bn erbyn 2024-25 i adeiladu tuag at y targed o gynyddu buddsoddiad ymchwil a datblygu cyhoeddus i £22bn erbyn 2026-27 ac ymchwil a datblygu ar draws yr economi i 2.4% o'r cynnyrch domestig gros erbyn 2027. Yn dilyn hyn, roedd ymrwymiadau o'r papur gwyn ffyniant bro yn nodi cynlluniau'r Llywodraeth ymhellach, gyda'r nod o gynyddu buddsoddiad cyhoeddus domestig mewn ymchwil a datblygu y tu allan i'r De-ddwyrain Fwyaf 40% o leiaf, a thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant o draean o leiaf. I gefnogi'r ymrwymiadau hyn, cynhaliodd Swyddfa Cymru ddadansoddiad cynhwysfawr o gyllid ymchwil a datblygu yng Nghymru i lywio strategaeth yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg. Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi sefydlu ymgysylltiad Gweinidogol a swyddogol ar draws UKRI, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd â swyddogion yng Nghynghorau Ymchwil UKRI, Innovate UK, a thîm UKRI Place i ddeall sut mae UKRI yn gweithio i gyflawni ymrwymiadau ffyniant bro ymchwil a datblygu Llywodraeth y DU.

Mae'r Swyddfa'n gweithio'n agos gyda thîm Cyfathrebu UKRI i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyhoeddiadau UKRI yn effeithiol yng Nghymru ac yn tynnu sylw at fuddsoddiad Llywodraeth y DU mewn ymchwil a datblygu yng Nghymru. Fe wnaethom hyrwyddo cystadleuaeth Lansio Innovate UK ar sail lle i randdeiliaid yng Nghymru, gan sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gyflwyno ceisiadau o ansawdd uchel ar gyfer y gystadleuaeth hon.

O ran cysylltiad â rhaglenni'r UE ar gyfer Ymchwil a Datblygu, rydym wedi darparu adborth ar raglenni amgen arfaethedig i Horizon er mwyn sicrhau bod sectorau ymchwil a datblygu allweddol Cymru yn cael eu cefnogi'n dda yn y mentrau hyn. Gan weithio gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg, fe wnaethom helpu i sicrhau £11.5m o gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru fel rhan o becyn uniongyrchol o gymorth Ymchwil a Datblygu ym mis Tachwedd 2022 o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch cysylltiad Horizon.

Mae Swyddfa Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â Phrifysgolion Cymru a Rhwydwaith Arloesi Cymru ac mae wedi meithrin perthynas â phob un o'r wyth prifysgol yng Nghymru. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymweld â'r rhan fwyaf o brifysgolion Cymru yn ystod y misoedd diwethaf i gael profiad uniongyrchol o'r ymchwil blaenllaw sy'n cael ei wneud ac mae wedi ymrwymo i ymweld â'r prifysgolion sy'n weddill yn y dyfodol agos. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau cyffredin ar gyfer ymchwil a datblygu yng Nghymru.

**Sgiliau**

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y Cynllun Turing yn cael ei gyflwyno'n effeithiol yng Nghymru. Cynllun Turing yw cynllun Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ar gyfer cyfleoedd addysg a hyfforddiant ledled y byd fel rhan o agenda Prydain Fyd-eang y Llywodraeth. Cafodd Addysg Uwch yng Nghymru lwyddiant mawr yn Rownd 2 Cynllun Turing, lle'r oedd holl brifysgolion Cymru yn llwyddiannus yn eu ceisiadau ac wedi cael cyllid gan Gynllun Turing. I baratoi ar gyfer y drydedd rownd, rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid ledled Cymru, yn enwedig y rheini mewn Addysg Bellach, i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gyflwyno ceisiadau o ansawdd uchel. Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi helpu'r Adran Addysg i ddatblygu ei chynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid i hyrwyddo trydedd rownd

Cynllun Turing, yn ogystal â sefydlu gweithgor gyda rhanddeiliaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i lunio rowndiau Turing yn y dyfodol a sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer Cymru.

## *Blaenoriaeth 2 - Cryfhau a diogelu'r Undeb a rôl Cymru ynddo.*

***Hyrwyddo statws Cymru yn y DU drwy sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar ei lle yn yr Undeb***

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn ganolog i strategaeth Undeb Llywodraeth y DU, a bu'n llais cryf i Gymru o fewn y Llywodraeth. Mae Gweinidogion a swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid i sicrhau bod adrannau Llywodraeth y DU yn ymwybodol o setliad datganoli Cymru wrth lunio polisïau a chefnogi eu hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gweithrediad effeithiol yr Undeb. Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi gweithio gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar ei phroses bleidleisio fewnol i ddeall agweddau tuag at yr Undeb yng Nghymru yn well.

Bu Gweinidogion Swyddfa Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod adrodd ar nifer o faterion pwysig. Yn ystod ei gyfnod fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, cyfarfu'r Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS â Phrif Weinidog Cymru a Gweinidog Economi Cymru ar sawl achlysur i drafod meysydd o ddiddordeb ar y cyd.

Cyfarfu'r Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS hefyd â Gweinidogion Cymru yn rheolaidd yn y ddwy rôl weinidogol a gyflawnodd yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn cael ei benodi'n Ysgrifennydd Gwladol ym mis Hydref, cyfarfu â Phrif Weinidog Cymru i drafod gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn meysydd fel y rhaglen porthladdoedd rhydd ac is-ddeddfwriaeth. Cyfarfu'r Ysgrifennydd Gwladol, David TC Davies, a Gweinidog Economi Cymru, hefyd â'r Awdurdod Buddsoddi Ariannol ar y cyd yn ystod eu hymweliad i nodi cyfranogiad tîm pêl-droed dynion Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA, gan dynnu sylw at ymdrechion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd i ddenu buddsoddiad i Gymru.

Roedd Swyddfa Cymru hefyd wedi parhau i gefnogi ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r Gweinyddiaethau Datganoledig drwy'r prosesau a'r strwythurau y cytunwyd arnynt drwy'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhyng-Lywodraethol. Roedd y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 29ain Mehefin a 1af Chwefror. Roedd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn ystyried materion trawsbynciol fel heriau costau byw, rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a Fframweithiau Cyffredin. Roedd Gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd yn mynychu Grwpiau Rhyngweinidogol ar lefel adrannol lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, mynychodd y Gweinidog James Davies ddau gyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac un cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol dros Fasnach yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r dull strwythuredig hwn o ymgysylltu rhwng y gweinyddiaethau i'w weld yn adroddiadau tryloywder chwarterol a blynyddol Llywodraeth y DU ar gysylltiadau rhynglywodraethol.[3]

**Sicrhau bod setliad datganoli Cymru yn gweithio'n effeithiol**

Chwaraeodd Swyddfa Cymru ran allweddol wrth gefnogi rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn nhrydedd sesiwn y Senedd hon, gan weithio'n agos gyda thimau Biliau adrannol ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi ymgysylltu rhwng timau Biliau a Llywodraeth Cymru, wrth i Lywodraeth y DU ofyn am gydsyniad y Senedd i ddarpariaethau mewn Biliau Seneddol amrywiol. Dros y flwyddyn, cymeradwywyd cynigion cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau mewn pedwar Bil y gofynnodd Llywodraeth y DU am gydsyniad y Senedd ar eu cyfer, gan gynnwys y Bil Prisiau Ynni a Bil Banc Seilwaith y DU.

Fodd bynnag, cafwyd un Bil yn ystod y cyfnod hwn nad oedd wedi cael cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd – Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), sy'n rhoi pwerau i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig weithredu rhwymedigaethau caffael y mae'r DU wedi cytuno arnynt fel rhan o gytundebau masnach gydag Awstralia a Seland Newydd. Bu Swyddfa Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Adran Masnach Ryngwladol ar y Bil hwn i gefnogi ei hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru. Drwy'r ymgysylltu swyddogol a Gweinidogol hwn, ceisiodd Llywodraeth y DU gytuno ar gyfaddawdau lle codwyd materion. Er gwaethaf hyn, nid oedd yn bosibl dod i gytundeb, a gwrthododd y Senedd gydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 31 Ionawr. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar weithredu'r rhwymedigaethau hyn.

Bu Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth y DU i sicrhau bod deddfwriaeth y Senedd a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn parchu'r ffin ddatganoli ac o fewn cymhwysedd datganoledig. Er enghraifft, hwylusodd y Swyddfa gais gan Lywodraeth Cymru am ganiatâd gan Weinidog y Goron ar gyfer darpariaethau'r Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) a oedd yn dileu pwerau a oedd yn arferadwy gan weinidogion Llywodraeth y DU. Gweithiodd Swyddfa Cymru gyda chydweithwyr o'r Adran dros Dechnoleg Digidol, Diwylliant a'r Adran Ffyniant Bro, yr adrannau polisi arweiniol ar gyfer y pwerau dan sylw, i sicrhau cytundeb gweinidogol i'r cais. Yn dilyn hyn, rhoddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ganiatâd ffurfiol i Weinidog y Goron ar gyfer y darpariaethau.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Diwygiadau Canlyniadol) 2023**

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sy'n gyrff rhanbarthol yng Nghymru sy'n cynnwys arweinwyr awdurdodau lleol y rhanbarth[4]. Sefydlwyd pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer Cymru gyfan wedi hynny. Mae ganddynt gyfrifoldeb

3 Mae dolenni i'r adroddiadau chwarterol a blynyddol ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: Cysylltiadau rhynglywodraethol – GOV.UK (www.gov.uk)

4 Mae hyn yn cynnwys deiliaid swyddi cymwys o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn y rhanbarth. Dim ond ar faterion sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau datblygu strategol y caniateir i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol bleidleisio, oni bai fod arweinwyr cynghorau'n cytuno'n unfrydol y gallant gyfrannu ar faterion eraill.

dros gynllunio datblygu strategol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn, roedd angen diwygio deddfwriaeth y DU i roi'r un statws treth a chyflogwr i Gyd-bwyllgorau Corfforedig â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol. Roedd hyn yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Benthyciadau Gwladol 1968, Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Treth Incwm 2007. Gan na fyddai'r gwelliannau hyn o fewn cymhwysedd y Senedd, gwnaeth Llywodraeth Cymru gais i Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud y diwygiadau gan ddefnyddio'r pŵer sydd ganddo o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Bu'r Swyddfa'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i baratoi'r Gorchymyn a osodwyd gerbron y Senedd ar 23 Chwefror. Cafodd y Gorchymyn ei drafod wedyn yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Mawrth ac yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 28 Mawrth, cyn iddo gael ei wneud ar 30 Mawrth. Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2023, gan sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth treth mewn grym o ddechrau blwyddyn ariannol 2023/24 ymlaen.

**Plismona a Chyfiawnder**

Gweithiodd Swyddfa Cymru gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r Gweinidog Cyfiawnder, yr Arglwydd Bellamy, yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Cyfiawnder a Chyfansoddiad Cyfreithiol y Senedd ym mis Rhagfyr yn cyflwyno'r achos dros un awdurdodaeth gyfreithiol. Yn y sesiwn honno, nododd y Gweinidog fwriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i weithredu rhai o argymhellion Comisiwn Thomas, gan ddangos ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella'r broses o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Parhaodd Swyddfa Cymru i gefnogi partneriaid plismona drwy gydol y flwyddyn. Yn fwyaf nodedig oherwydd presenoldeb Gweinidogol yng nghyfarfod chwarterol Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Dathlodd yr Ysgrifennydd Gwladol lwyddiant Rhaglen Uplift yr Heddlu pan aeth i seremoni recriwtio recriwtiaid newydd Heddlu Gwent ym mis Rhagfyr.

***Cefnogi buddiannau diwylliannol Cymru yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol***

Mae Swyddfa Cymru yn cefnogi'r uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Llywodraeth y DU. Lansiodd Swyddfa Cymru ei Fforwm y Gymraeg yn Whitehall gyda'r nod o wella cysondeb y ddarpariaeth Gymraeg ar draws Llywodraeth y DU. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf gydag ail gyfarfod ym mis Ionawr a oedd yn boblogaidd ymysg cydweithwyr yn Whitehall ac yn gyrru darpariaeth Gymraeg Llywodraeth y DU yn ei blaen. Yn ystod yr haf cyntaf ar ôl y pandemig, roedd Swyddfa Cymru'n gallu ymgysylltu wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau Cymraeg allweddol. Bu'r Gweinidog ar y pryd (yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn hyn) yn Eisteddfod yr Urdd i ddathlu ei chanmlwyddiant ym mis Mehefin. Bu'r Swyddfa hefyd yn hwyluso presenoldeb stondin cyntaf Llywodraeth y DU yn yr Eisteddfod Genedlaethol, y bu'r Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd a'r Gweinidog ar y pryd yn bresennol ynddi.

Gan mai S4C yw'r unig ddarlledwr Cymraeg, mae Swyddfa Cymru'n cydnabod ei bwysigrwydd i bobl a diwylliant Cymru. Ar ôl cyhoeddi setliad ffi'r drwydded yn ystod y

cyfnod adrodd blaenorol, mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch yr adolygiad tymor hwy o fodel cyllido ffi'r drwydded y BBC. Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y cynlluniau ar gyfer y Bil Cyfryngau a gyhoeddwyd ar ffurf drafft ar 29 Mawrth. Mae'r Bil yn bwysig i S4C gan y bydd yn gweithredu newidiadau statudol a nodwyd fel rhan o adolygiad S4C yn 2018.

Cyflwynodd Wrecsam gais cryf i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025. Er iddynt fod yn aflwyddiannus yn eu cais, buom yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau cyllid i adlewyrchu'r ffaith eu bod nhw wedi dod yn ail, fel ei bod yn bosibl iddynt wireddu rhai o fanteision y cais.

Llwyddodd Cymru i gymhwyso am y tro cyntaf ers 64 mlynedd ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Pêl-droed y Byd Dynion yn Qatar. Bu Swyddfa Cymru'n gweithio gyda swyddogion o bob rhan o Whitehall a Llywodraeth Cymru nid yn unig i ddathlu'r llwyddiant gwych hwn ond hefyd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i economi a diwylliant Cymru yn sgil y sylw eang a roddodd hyn.

Cefnogodd Swyddfa Cymru'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Chymdeithas Bêl-droed Cymru ym mis Tachwedd i gyflwyno rhan Cymru o'r cais cychwynnol ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon i UEFA ar gyfer cynnal Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop yn 2028. Mae ymgysylltu dilynol wedi parhau i sicrhau y bydd modd cyflwyno cais llawn ym mis Ebrill 2023.

Arweiniodd ymgysylltiad ffrwythlon Swyddfa Cymru â swyddogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon at gyhoeddi £12.6 miliwn arall ym mis Ionawr ar gyfer Cymru o dan y Rhaglen Cyfleusterau Aml-chwaraeon ar Lawr Gwlad ledled y DU. Bydd y buddsoddiad hwn yn gwella cyfleusterau chwarae yn sylweddol mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau bod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn gallu cael mynediad at gyfleusterau chwaraeon o safon. Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch rhaglen uwchraddio cyrtiau tenis cyhoeddus Cymdeithas Tennis Lawnt a gefnogir gan Lywodraeth y DU. Bydd Cymru'n elwa o'r gronfa hon i uwchraddio cyfleusterau tennis cyhoeddus adfeiliedig.

***Hyrwyddo cyfraniad y Lluoedd Arfog yng Nghymru***

Mae'r Swyddfa wedi parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar eu hymrwymiad i gynnal presenoldeb cryf y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu Barics Caer-went yn Sir Fynwy, a fydd yn gartref i ddwy uned Reolaidd: Gwarchodlu Dragŵn y Frenhines a Bataliwn 1af Catrawd y Reifflau. Bydd uned wrth gefn wedi'i lleoli yn Wrecsam hefyd.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n llwyddiannus gyda Thrysorlys Ei Fawrhydi a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau hyd at £10 miliwn yn Natganiad yr Hydref i gefnogi'r gwaith o greu'r Ganolfan Ymchwil Technoleg Uwch. Bydd y Ganolfan yn ganolfan ragoriaeth sy'n canolbwyntio ar amddiffyn, a fydd yn cynnwys y Llywodraeth, y diwydiant a phartneriaid academaidd sy'n cyd-fynd â thechnolegau newydd a gofynion o ran gallu amddiffyn. Bydd y Ganolfan yn galluogi Cymru i fanteisio ar fuddsoddiad

cynyddol mewn ymchwil a datblygu ym maes amddiffyn a bydd yn gosod ei hun fel arweinydd byd-eang yn y maes hwn gyda chyfleuster pwrpasol o'r radd flaenaf.

Llwyddodd Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru – y Cyrnol James Phillips – i ddechrau yn ei swydd ym mis Mehefin 2022. Mae wedi ymgysylltu â'r gymuned cyn-filwyr yng Nghymru ac wedi cynnal cyfarfod teirochrog gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Materion Cyn-filwyr i drafod ei argraffiadau o'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i gyn-filwyr yng Nghymru. Yn ogystal, penodwyd swyddog cymorth gweinyddol ym mis Ionawr 2023 i gynorthwyo'r Comisiynydd gyda'i waith ac i'w alluogi i fod yn fwy effeithiol yn ei swydd.

Mae Swyddfa Cymru'n parhau i gymryd rhan mewn grŵp cydlynu cyn-filwyr, i sicrhau bod Swyddfeydd Tiriogaethol, y Gweinyddiaethau Datganoledig a'r Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn cydweithio'n effeithiol i ddathlu cyfraniad cyn-filwyr i gymdeithas, lle bynnag y maent yn dewis ymgartrefu yn y DU.

## *Blaenoriaeth 3 - Gwneud ymrwymiad Llywodraeth y DU i Gymru yn fwy amlwg*

***Cryfhau presenoldeb Llywodraeth y DU yng Nghymru a'i gwneud yn fwy amlwg***

Mae'r rhaglen Llefydd ar gyfer Twf yn cyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i adleoli 22,000 o swyddi gwasanaeth sifil o Lundain Fwyaf i weddill gwledydd a rhanbarthau'r DU erbyn 2030. Mae'r rhaglen wedi gweld adrannau'n cynyddu eu presenoldeb yng Nghymru, yn bennaf yng Nghanolfan Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd – Tŷ William Morgan – yn unol â'u hymrwymiadau dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Swyddfa Cymru wedi gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i gefnogi uchelgais i gynyddu nifer y swyddi yn y gwasanaeth sifil yng ngogledd Cymru. Ym mis Gorffennaf, ymunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS, â'r Gweinidog ar y pryd dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth, y Gwir Anrhydeddus Jacob Rees-Mogg AS, ar ymweliad â Wrecsam a oedd yn cynnwys cyfarfod bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid lleol ar y cyfleoedd o'r Rhaglen Lleoedd ar gyfer Twf ar gyfer yr ardal leol.

***Gwneud gwariant Llywodraeth y DU yng Nghymru, a manteision a chanlyniadau'r gwariant hwn, yn fwy amlwg***

Mae cefnogi buddsoddiad adrannau Llywodraeth y DU yng Nghymru wedi bod yn rhan allweddol o waith y Swyddfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae Swyddfa Cymru yn arwain ar fuddsoddiad Llywodraeth y DU yn y pedair bargen twf dinesig a rhanbarthol yng Nghymru, gyda buddsoddiad o £47.5 miliwn yn 2022-23.

Buom yn gweithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar fuddsoddiad Llywodraeth y DU mewn cronfeydd twf lleol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys rhyddhau £585 miliwn i Gymru o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF, gan gynnwys y rhaglen Multiply), gan ddisodli'n llawn y cyllid yr oedd Cymru yn ei gael drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol Cronfa Buddsoddi Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Roedd hefyd yn cynnwys £208 miliwn a fuddsoddwyd mewn 11 o brosiectau

Cronfa Ffyniant Bro yn ystod Rownd 2 rhaglen y Gronfa a £1.2 miliwn arall mewn 6 prosiect Cronfa Perchnogaeth Gymunedol ledled Cymru.

Cafodd cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y rhaglenni twf lleol hyn ei ddarparu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol (UKSPF a'r Gronfa Ffyniant Bro) a chymunedau lleol (Cronfa Perchnogaeth Gymunedol) yng Nghymru gan ddefnyddio'r pŵer cymorth ariannol o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mae gwelededd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r buddsoddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo drwy frandiau Levelling Up / Ffyniant Bro a UK Government / Llywodraeth y DU. Ar gyfer prosiectau UKSPF, gofynnir i awdurdodau lleol arweiniol nodi'n glir bod y prosiect yn cael ei ariannu neu ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae'r buddsoddiadau hefyd yn cael eu hyrwyddo drwy raglen o ymweliadau Gweinidogol â phrosiectau ar lawr gwlad sy'n canolbwyntio ar fanteision hirdymor y buddsoddiadau a'r gwerth i Gymru o fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

Cyfarfu swyddogion Swyddfa Cymru yn rheolaidd ag amrywiaeth eang o bartneriaid lleol a rhanbarthol yn ystod y flwyddyn i drafod blaenoriaethau a buddsoddiadau strategol Llywodraeth y DU. Roedd y rhain yn cynnwys prif weithredwyr awdurdodau lleol a chyfarwyddwyr adfywio, cynrychiolwyr mudiadau busnes ac arweinwyr yn y sectorau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru.

Bu Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chynrychiolwyr o sefydliadau chwaraeon yng Nghymru i sicrhau bod Cymru'n cael cyfran briodol o gyllid ledled y DU ar gyfer cyfleusterau aml-chwaraeon a phêl-droed ar lawr gwlad ac adnewyddu cyrtiau tennis cyhoeddus. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Gweinidog dros Chwaraeon £12.6 miliwn ar gyfer 2022-25 ar gyfer cyfleusterau aml-chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru fel rhan o gyllid ledled y DU. Dyrannwyd £1.2 miliwn o hyn yn 2022-23. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gefnogi cais y DU ac Iwerddon i gynnal pencampwriaeth bêl-droed Ewrop y dynion yn 2028.

Mae tua £1.8 miliwn o gyllid Llywodraeth y DU yn cael ei fuddsoddi rhwng 2022 a 2024 i wella cyrtiau tennis yng Nghymru. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys cyllid i wella cyrtiau tennis yng Nghasnewydd a Wrecsam.

***Gwneud Gweinidogion a pholisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru yn fwy amlwg ac yn fwy effeithiol***

Bu Swyddfa Cymru'n gweithio gydag adrannau ar draws Whitehall i gydlynu ymweliadau â Chymru gan Weinidogion Llywodraeth y DU. Fel rhan o'r cydlynu hwn, buom yn gweithio gyda 10 Stryd Downing a Swyddfa'r Cabinet i sicrhau ymweliadau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gan amrywiaeth o Weinidogion â phortffolios amrywiol.

Roedd yr ymweliadau'n tynnu sylw at fuddsoddiad Llywodraeth y DU yng Nghymru ac yn ceisio sicrhau bod manteision yr Undeb i Gymru yn glir, yn weladwy ac yn cael eu deall yn ehangach. Roedd ymweliadau Gweinidogol â Chymru yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Ymweliad y Prif Weinidog â Chaergybi i gyhoeddi dau Borthladd Rhydd newydd ar gyfer Cymru – gan gynnwys yn y Môr Celtaidd – a gafodd sylw helaeth yn y cyfryngau ac ymateb cadarnhaol gan randdeiliaid.

- Ymweliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg â Chasnewydd i gyhoeddi buddsoddiad o £1 biliwn yn y sector Lled-Ddargludyddion.

- Ymweliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth â Chymru i gyhoeddi ail rownd y Gronfa Ffyniant Bro, a chyllid ar gyfer prosiect CrossRail Caerdydd.

- Ymweliad Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn ag Airbus i weld ei waith ar seiberddiogelwch ar ran Llywodraeth y DU.

Ymwelodd Gweinidogion Gwladol o amrywiol adrannau gan gynnwys y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Amddiffyn a Thrysorlys Ei Fawrhydi hefyd â dangos eu hymrwymiad i Gymru.

Gweithiodd y Swyddfa i sicrhau bod yr ymweliadau hyn yn cael sylw cadarnhaol yn y cyfryngau ar draws amrywiaeth o gyfryngau.

Roedd sylw'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyfryngau hefyd wedi cynyddu ar draws y DU. Mae wedi ymddangos ar Question Time sawl gwaith ac wedi cynnal cyfweliadau gydag amrywiol bapurau newydd cenedlaethol. Mae hefyd yn ymddangos yn rheolaidd ar gyfryngau Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwnaethom barhau i ddatblygu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn a chyflwyno cyfrif Instagram am y tro cyntaf.

Mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r tîm cyfathrebu ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal cyfweliadau gyda'r cyfryngau yn Gymraeg yn rheolaidd, yn cwrdd â rhanddeiliaid ac yn siarad â nhw yn Gymraeg a bydd yn cymryd rhan mewn cyfarfod bwrdd crwn Cymraeg i drafod beth y gellir ei wneud i ddiogelu'r iaith yn ddiweddarach eleni.

## *Gwaith sy'n gysylltiedig â Covid-19*

### *Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 y DU*

Cafodd Ymchwiliad Covid-19 y DU ("yr Ymchwiliad"), a sefydlwyd o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, ei lansio'n swyddogol ym mis Gorffennaf 2022. Fel y nodir yn ei Gylch Gorchwyl[5], bydd yr Ymchwiliad yn archwilio, yn ystyried ac yn adrodd ar y paratoadau a'r ymateb i'r pandemig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gofynnodd yr Ymchwiliad am wybodaeth a dogfennau gan y Swyddfa fel rhan o Fodiwl 2B o'i gwaith, sy'n archwilio'r penderfyniadau a wneir o fewn Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Gweithiodd y Swyddfa gydag Adran Gyfreithiol y Llywodraeth i ymateb i gais yr Ymchwiliad.

5 https://covid19.public-inquiry.uk/terms-of-reference/

**Comisiwn y DU ar Goffáu Covid**

Sefydlodd Llywodraeth y DU Gomisiwn y DU ar Goffáu Covid ym mis Gorffennaf 2022. Rôl y Comisiwn oedd ystyried y ffordd fwyaf priodol o goffáu'r rheini a gollodd eu bywydau yn ystod y pandemig a chydnabod y rheini a oedd yn rhan o'r ymateb.

Roedd y Comisiwn yn cynnwys cynrychiolydd penodol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cymeradwyodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS, benodiad cynrychiolydd Cymru ar y Comisiwn.

Lansiodd y Comisiwn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref. Er mwyn helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn cael cymaint o ymatebion â phosibl gan bobl yng Nghymru, rhannwyd manylion yr ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid allweddol a'u hannog i gyfrannu eu safbwyntiau.

## *Ymateb i gostau byw*

Roedd gan y Swyddfa rôl allweddol drwy gydol y flwyddyn o ran cefnogi cartrefi a busnesau yng Nghymru gan fod prisiau uwch wedi arwain at gynnydd mewn costau byw a gwneud busnes.

Bu Swyddfa Cymru'n gweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid ledled Cymru ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud â'r ymateb i gostau byw yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod aelwydydd a busnesau yng Nghymru yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y DU drwy hyrwyddo cyhoeddiadau drwy gyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth uniongyrchol â chynrychiolwyr etholedig, busnesau a'r cyhoedd.

- Ymgysylltu ag adrannau Llywodraeth y DU ar lefel Gweinidogion a swyddogion sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth i sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru yn cael eu hystyried a'u trin lle bo hynny'n bosibl.

- Cyfrannodd yr Ysgrifennydd Gwladol at gyfarfod o is-bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru ar Gost Byw i amlinellu cefnogaeth Llywodraeth y DU i bobl a busnesau yng Nghymru, a thrafododd gamau pellach y gellid eu cymryd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl Cymru, gydag aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys y Prif Weinidog.

## *Cyllid a Llywodraethu*

Mae pum egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da yn sail i gyflawni ein tair blaenoriaeth strategol.Sef: -

- darparu gwerth am arian a rheoli costau yn effeithiol.

- sicrhau rheolaeth ariannol dda, gan ymateb yn gywir ac yn brydlon i ohebiaeth.

- cynnal gweithlu cymwys, llawn cymhelliant.
- rheoli gwybodaeth yn effeithiol;
- creu amgylchedd gwaith dymunol.

Rydym yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth gyflawni ein prif weithgareddau corfforaethol.

***Cyllid***

Gosodwyd cyllideb 2022-23 yr Adran yng Nghylch Gwario 2021.

O'r £19.948 biliwn o setliad Cymru, roedd dyraniad y Swyddfa ar gyfer 2022-23 tua £5.6 miliwn, a wariwyd yn bennaf ar staff a swyddfeydd, a chyfrifoldebau Adrannol eraill fel ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Dyrannwyd gweddill y setliad (£19.943 biliwn) i Gronfa Gyfunol Cymru.

Y Swyddfa sy'n trefnu trosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru ond mater i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yw sut yn union y caiff yr arian hwnnw ei wario ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Senedd Cymru am ei defnydd o adnoddau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

**Effeithlonrwydd**

Er mwyn helpu i gyflawni amcanion a heriau'r Adran, mae'r Swyddfa'n parhau i reoli ei gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu da a darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo'n llwyr i rannu gwasanaethau ac arbenigedd gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ac adrannau Llywodraeth y DU lle bynnag y bo modd, gyda'r bwriad o fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau arbedion effeithlonrwydd lle bo modd a chryfhau cydnerthedd.

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein gwasanaethau presennol yn llawn gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol. Ar hyn o bryd rydym yn rhannu tîm seneddol a chynghorydd diogelwch gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill a gwasanaeth ceisiadau rhyddid gwybodaeth gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon, ac yn cydgrynhoi ymhellach y timau cyllid a rennir rhwng Swyddfeydd Cymru a'r Alban.

Fel Adran fach, mae gan y Swyddfa agwedd gost-effeithiol a phragmatig tuag at ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, gan gynnal trefniadau fframwaith a chontractau presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn meysydd fel diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG, a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn sicrhau manteision sylweddol i'r Adran o ran arbedion maint ac arbenigedd i'r Adran.

***Rhwymedigaethau Pensiwn***

Mae manylion sut mae rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu trin yng nghyfrifon y Swyddfa yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad Tâl a Staff ac yn nodyn polisi

Cyfrifyddu 1.10.

***Tryloywder***

Mae tryloywder, atebolrwydd, a bod yn agored wrth wraidd gwerthoedd craidd y Swyddfa. Daliwyd ati i gyhoeddi llawer iawn o wybodaeth ar gov.uk, gan gynnwys:

- ein gwariant dros £500*;
- rhoddion a roddir ac a dderbynnir gan Weinidogion (a chan y Cynghorwyr Arbennig)*;
- teithiau tramor Gweinidogion*; a
- lletygarwch a dderbynnir gan Weinidogion a'r Cynghorwyr Arbennig*.

* https://www.gov.uk/government/publications/transparency-spend-over-500-for-financial-year-2022-23

** https://www.gov.uk/government/publications/ossw-ministerial-gifts-hospitality-travel-and-meetings-october-to-december-2022

** https://www.gov.uk/government/publications/ossw-special-advisers-gifts-hospitality-and-meetings-october-to-december-2022

Yn ystod 2022-23 deliwyd â 100 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel y nodir isod.

| Disgrifiad | Nifer 2022-23 | Nifer 2021-22 |
|---|---|---|
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd, O blith y rhain: | 100 | 100 |
| Atebwyd o fewn 02 diwrnod gwaith neu o fewn estyniad a ganiateir | 95 (95%) | 98 (98%) |
| Gofynnwyd am adolygiad mewnol o'n hatebion | 3 | 5 |
| Cyfeiriwyd yr ateb gan y sawl a wnaeth y cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth | 1 | 1 |

Mae ein perfformiad Seneddol dros 2022-23 yn cael ei grynhoi isod:

| Math o Gwestiwn | Nifer 2022-23 | Nifer 2021-22 |
|---|---|---|
| Dyddiad Trafod | 29 | 18 |
| Ymatebion i'r Diwrnod a Enwyd a atebwyd ar amser (targed 100%) | 29 (100%) | 16 (89%) |
| Arferol | 75 | 102 |
| Ymatebion Arferol a atebwyd ar amser (targed 100%) | 75 (100%) | 101 (99%) |

Ein perfformiad o ran delio â gohebiaeth yn ystod 2022-23 oedd:

| Targed | 2022-23 % | 2021-22 % |
|---|---|---|
| Ymdriniwyd â 100% o ohebiaeth o fewn 15 diwrnod | 93% | 97% |

***Rhoddion Gwleidyddol ac Elusennol***

Ni wnaeth y Swyddfa unrhyw roddion gwleidyddol nac elusennol yn 2022-23. (2021-22 Dim).

***Atal Twyll a Mynegi Pryder (Chwythu'r Chwiban)***

Mae gan Swyddfa Cymru drefniadau cadarn ar gyfer atal, canfod a rhoi gwybod am dwyll ac mae wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, gonestrwydd ac atebolrwydd. Mae ein trefniadau'n dilyn yr egwyddorion a amlinellir yng nghyhoeddiad 'Managing Public Money' Trysorlys EF, a pholisïau'r Gwasanaeth Sifil ar ddatgelu camarfer neu fynegi pryder ynghylch unrhyw amheuon ynghylch materion y mae staff yn credu eu bod yn anghywir, yn anghyfreithlon neu'n peryglu eraill, gan gynnwys twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd.

Ni chafwyd unrhyw achosion o dwyll na datgelu camarfer yn ystod y cyfnod adrodd. (2021-22 Dim).

***Ystadau***

Mae gan yr Adran ddwy swyddfa: Tŷ Gwydyr yn Llundain, a Chanolfan Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd.

Mae Tŷ Gwydyr yn adeilad rhestredig Gradd II* ac yn eiddo i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Ar 1 Ebrill 2021, trosglwyddodd y Swyddfa berchnogaeth Tŷ Gwydyr i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Roedd y trosglwyddiad hwn yn rhan o raglen ar draws y Llywodraeth.

Mae'r Swyddfa'n rhentu lle ochr yn ochr ag Adrannau eraill o Lywodraeth y DU yn Hyb Caerdydd.

Mae'r ddwy swyddfa yn bodloni gofynion y Ddeddf Anableddau.

***Iechyd a Diogelwch***

Mae Swyddfa Cymru'n cydnabod ei dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod cyfundrefn iechyd a diogelwch effeithiol yn cael ei datblygu.

Mae'n ofynnol i'r holl staff gwblhau hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol blynyddol, ac mae'r adran yn adolygu ei chanllawiau iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Yn ystod 2022-23, ni roddwyd gwybod am unrhyw ddamweiniau i'r awdurdodau perthnasol (dim yn ystod 2021-22).

***Gweithio'n Ddoethach***

Mae Gweithio'n Ddoethach yn rhaglen ar draws y Gwasanaeth Sifil i ddatblygu ffyrdd modern o weithio. Ym mis Rhagfyr 2022, cafodd y Swyddfa achrediad fel sefydliad Gweithio'n Ddoethach Aeddfed.

## Datblygu Cynaliadwy

Paratowyd yr adroddiad datblygu cynaliadwy hwn yn unol â chanllawiau 2022–23 a osodwyd gan Drysorlys EF yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' sydd i'w weld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1125091/2022-23_Sustainability_Reporting_Guidance.pdf

Mae'r ffocws ar gyrraedd targedau'r Llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, a lleihau costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, defnyddio llai o ddŵr ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Nid yw'r Swyddfa'n berchen ar yr adeilad yn Llundain na'r adeilad yng Nghaerdydd. Mae'r ddau adeilad yn cael eu rhannu â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn y DU. Nid yw'n bosibl nodi cyfrifoldeb unigol pob sefydliad tuag at gynaliadwyedd cyffredinol pob adeilad. Ni roddir cyfrif am swyddi a rennir, oherwydd yr anawsterau o ran allosod data cynaliadwyedd dibynadwy o daliadau gwasanaeth a ddarperir gan y landlordiaid.

Nid yw'r Swyddfa'n adrodd ar ddiogelu'r amgylchedd a chyfrifoldeb cymdeithasol gan nad yw gwaith a chylch gwaith y Swyddfeydd yn cwmpasu'r maes polisi hwn

***Llywodraethu, cyfrifoldebau, a sicrwydd mewnol***

Adolygir perfformiad amgylcheddol y Swyddfa o bryd i'w gilydd.

***Ymrwymiadau ar Effeithiau Amgylcheddol***

Mae Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011, yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau gymryd camau i leihau'r effaith ar yr amgylchedd yn sylweddol. Gellir gweld yr ymrwymiadau hyn yma:

https://www.gov.uk/government/publications/greening-government-commitments-2021-to-2025/greening-government-commitments-2021-to-2025

Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i leihau ein defnydd o ynni er mwyn helpu i gyrraedd targed allyriadau sero net y DU.

Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n rheoli ymrwymiad lleihau carbon yr Adran. Mae'r Swyddfa wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy wneud y canlynol:

a. cynyddu'r amrywiaeth o eitemau y gellir eu casglu i'w hailgylchu yn ein dau adeilad.

b. newid peiriannau argraffu am fodelau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon

c. lle bo'n bosibl, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir pan fo'n rhaid teithio i gyfarfodydd.

| | Tunelli Allyriadau $CO_2$ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
| Teithio mewn Awyren | 36.01 | 31.42 | 49.65 | 0.00 | 0.00 | 28.12 |
| Milltiroedd Awyr | 151,515 | 165,038 | 137,193 | 0 | 0 | 58,665 |
| Teithio ar Drén | 15.56 | 16.29 | 11.98 | 1.33 | 3.42 | 8.94 |
| Milltiroedd Drén | 138,728 | 254,360 | 187,351 | 22,656 | 62,421 | 158,049 |
| Millitiroedd mewn Ceur | 1.92 | 2.34 | 1.92 | 2.06 | 1.46 | 2.25 |
| Gwresogi Nwy | 23.59 | 19.7 | 13.4 | 11.14 | 14.08 | 22.87 |
| Trydan* | 26.68 | 23.42 | 11.1 | 10.20 | 2.89 | 9.53 |
| Gwastraff | 0.11 | 0.04 | 0.01 | 0.10 | 0.08 | 0.06 |
| Cyfanswm Tunelli $CO_2$ | 103.87 | 93.21 | 88.06 | 24.83 | 21.93 | 71.77 |
| Defnyddio Dwr Metrau Ciwbig** | 385 | 212 | 427 | 505 | 252 | 642 |

* Mae'r ffactor trosi $C0_2$ ar gyfer trydan wedi gostwng yn 2019 oherwydd gostyngiad mewn defnyddio glo i gynhyrchu trydan a chynnydd mewn cynhyrchu ynni drwy ddulliau adnewyddadwy.

** Mae'r defnydd o ddŵr yn 2021-22 yn seiliedig ar ddarlleniadau amcanol o'r mesurydd.

Lle mae'r Swyddfa'n defnyddio gwasanaethau a gyflenwir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth neu dan gontract iddi, mae ein cyfraniad i ymrwymiadau'r Llywodraeth ar effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael ei fodloni o fewn y fframweithiau ehangach hynny.

# Adolygiad Ariannol

Yn 2022-23, gwariodd y Swyddfa £19.7 biliwn (2021-22 £19.9 billwn) o fewn Amcangyfrifon o'r Cyflenwad Seneddol (Amcangyfrif Atodol), yn bennaf fel grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

***Perfformiad ariannol***

Mae'r Senedd yn pleidleisio ar gyllid i Adrannau ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn drwy *Brif Amcangyfrif* ar ddechrau'r flwyddyn ac *Un Amcangyfrif Atodol* ym mis Chwefror 2023.

Cyhoeddir yr amcangyfrifon gan Lyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO) ac maent yn cynnwys manylion yr arian a bleidleisiwyd ar gyfer holl adrannau'r Llywodraeth. Mae Amcangyfrifon Atodol 2022-23 ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/publications/supplementary-estimates-2022-23#:~:text=The%20Supplementary%20Estimates%2C%20presented%20to,for%20any%20necessary%20new%20services.

***Symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer Amcangyfrif yn ystod 2022-23***

Ar ddechrau'r flwyddyn, pleidleisiwyd dros £18.9 biliwn i'r Adran yn ei Phrif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Sengl terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £19.9 biliwn yn bennaf oherwydd cynnydd o £1 biliwn yn y cyllid ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru.

***Eglurhad o'r amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a'r Alldro Adnoddau Net***

***Adnodd Swyddfa Cymru***

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 5,320 | 5,564 | 244 | 4% |

Mae'r tanwariant o £0.244 miliwn yn erbyn yr Amcangyfrif Cyflenwi i'w briodoli'n bennaf i wariant is na'r disgwyl ar wasanaethau swyddfa ac Arglwydd Raglawiaid a chronfeydd wrth gefn nas defnyddiwyd.

***Swyddfa Cymru - Cyfalaf***

| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 39 | 72 | 33 | 46% |

Roedd alldro gwariant cyfalaf ar lefel is na'r disgwyl yn wreiddiol gan arwain at danwariant yn erbyn y gyllideb.

*Costau Anghyllidebol*

| Gwariant o fewn Terfynau Anghyllidebol | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| C | Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 17,209,376 | 17,465,076 | 255,700 | 1.46% |
| D | *Tâl dros Gyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru | 2,477,747 | 2,477,747 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm i Gronfa Gyfunol Cymru** | **19,687,123** | **19,942,823** | **255,700** | **1.46%** |

Ar 6 Ebrill 2019, cyflwynwyd Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT) yng Nghymru. Caiff derbyniadau o WRIT eu hychwanegu at Grant Bloc Cymru.

*Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

Mae'r swm o £255.7 miliwn a ddisgrifir fel tanwariant yn y grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru yn dangos faint o arian parod gwirioneddol na wnaeth Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio yn 2022-23. Cyfrifoldeb Swyddfa Cymru yw trosglwyddo cyllid o'r Gronfa Gyfunol i Gronfa Gyfunol Cymru bob mis gan sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid cyn bod ei angen. Talodd y Swyddfa bob swm i Gronfa Gyfunol Cymru ar gais Llywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth am wariant gwirioneddol Llywodraeth Cymru mewn termau adnoddau ar gael yng nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru a chyfrifon ei chyrff hyd braich. Mae'r Swyddfa'n gyfrifol am sicrhau bod cyllid yn cael ei drosglwyddo'n briodol a bod trosglwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir yn ein cyfrifon. Mater i Senedd Cymru yw penderfynu sut mae'r arian yn cael ei wario ac i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am y gwariant.

*Crynodeb o Dermau Allweddol Cyllidebu'r Llywodraeth*

Mae cyllideb Adnoddau Adrannol yn cwmpasu costau defnyddio adnoddau e.e. talu costau.

Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant ar asedau sefydlog newydd e.e. Offer a pheiriannau ac offer.

Rhennir cyllidebau Adnoddau a Chyfalaf Adrannol yn:-

**Mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** ar gyfer gwariant sydd o fewn rheolaeth yr adran. Pennir terfynau yn yr Adolygiad o Wariant ac ni chaiff Adrannau fynd dros y terfynau a osodwyd.

**Mae cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** yn cael eu pennu gan y Trysorlys a gellir eu hadolygu gydag adrannau yn y cyfnod cyn y Gyllideb. Yn gyffredinol, mae gwariant yn yr AME yn llai rhagweladwy a rheoladwy na gwariant yn y TGA.

Cyfanswm y gyllideb Adnoddau Adrannol yw cyfanswm y TGA adnoddau a'r gyllideb AME adnoddau. Cyfanswm cyllideb Cyfalaf yr Adran yw cyfanswm y DEL Cyfalaf a'r gyllideb AME.

O fewn y gyllideb Adnoddau mae rheolaethau gweinyddol ar wahân wedi'u gosod yn yr Adolygiad o Wariant:-

**Gweinyddu Mae cyllidebau'n** talu costau holl weinyddiaethau llywodraeth ganolog e.e. cyflogau staff a chostau teithio a chynhaliaeth.

**Mae Cyllidebau Rhaglen** yn talu costau gweithgareddau cymorth sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau rheng flaen.

Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith cyllidebu ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/consolidated-budgeting-guidance-2022-to-2023

***Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

Y rhwymedigaethau net ar 31 Mawrth 2023 yw £-0.535m, (2021-22 asedau net £-0.466m). Dyma'r balansau sylweddol ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol -

- Eiddo, offer a chyfarpar £0.100m - Mae hyn yn cynnwys offer a chyfarpar a dodrefn a ffitiadau yn Swyddfa Llundain yn bennaf.

- Asedau Hawl eu Defnyddio £4.7m – mabwysiadodd yr adran IFRS 16 'Prydlesi' o 1 Ebrill 2022 ymlaen. O dan IFRS 16, mae'r rhan fwyaf o lesoedd, sy'n cael eu trin fel lesoedd gweithredol tan 31 Mawrth 2021, bellach wedi cael eu cydnabod ar y fantolen fel asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd. O ganlyniad, fe wnaethom gydnabod £5m ar 1 Ebrill 2022. Mae'r ased wedi cael ei ddibrisio gan adael gwerth net ar bapur o £4.7m ar 31 Mawrth 2023. Mae contractau'r brydles yn cynnwys adeiladau ar brydles.

- Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol £213.5m (2021-22 £67.6m) benthyciadau a roddwyd gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF) i Lywodraeth Cymru. Mae symiau llog a thaliadau cyfalaf yr NLF yn cael eu cydbwyso â symiau cyfatebol mewn symiau derbyniadwy a symiau taladwy.

*Cysoni gwariant adnoddau net rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon*

| | 2022-23<br>£000 | 2021-22<br>£000 |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net (Amcangyfrifon)** | **19,692,443** | **19,947,995** |
| Addasiadau i dynnu eitemau anghyllidebol* | (19,687,123) | (19,942,334) |
| **Cyfanswm Alldro Cyllideb Adnoddau** | **5,320** | **5,661** |
| O'r rhain | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol | 5,320 | 5,964 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 0 | (303) |
| | | |
| Mae'r addasiadau'n cynnwys | | |
| Eitemau Anghyllidebol** | 19,687,123 | 19,924,334 |
| Grant Cyfalaf mewn Nwyddau** | | **5,000** |
| **Cost Gweithredu Net (Cyfrifon)** | **19,692,443** | **19,952,995** |

**Nodiadau**

* Eitemau anghyllidebol yw'r Grant sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru a Thâl dros Gyfraddau Treth Incwm Cymru i'r Gronfa Gyfunol. Gweler y Datganiad Cyflenwad Seneddol SOPS1

** Neilltuir cyllideb ar gyfer grantiau cyfalaf fel CDEL ond fe'u cyfrifir fel gwariant ar wyneb y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac felly maent yn gweithredu fel eitem gysoni rhwng Adnoddau a gwariant gweithredu net. Rhoddwyd grant cyfalaf gwerth £5 miliwn i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar ffurf trosglwyddo tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol. Ar 1 Ebrill 2021, trosglwyddwyd perchnogaeth Swyddfa Llundain, Tŷ Gwydyr, i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth am ddim ystyriaeth.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**12 Gorffennaf 2023**

# 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### *Adroddiad y Cyfarwyddwyr*

***Gweinidogion, Cyfarwyddwyr ac Uwch-swyddogion***

| Gweinidogion/Cyfarwyddwyr/Uwch-swyddogion |
|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru o 25 Hydref 2022 ymlaen<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru tan 25 Hydref 2022 |
| **Y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng 7 Gorffennaf 2022 a 25 Hydref 2022 |
| **Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru tan 6 Gorffennaf 2022 |
| **Dr James Davies AS**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 27 Hydref 2022 ymlaen |
| **Alison White –** Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) |
| **Alun Evans CBE –** Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) |
| **Glynne Jones CBE –** Cyfarwyddwr |
| **Geth Williams –** Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Undebol, Twf a Chorfforaethol |
| **Sarah Jennings –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat |
| **Louise Parry a Kate Starkey –** Dirprwy Gyfarwyddwr ar y Cyd, Polisi |
| **Dafydd Jones –** Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu |
| **Matt Rigg* –** Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol |

**Nodiadau**

* Mae Matt Rigg yn cael ei gyflogi gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth (GLD). Mae'n aelod o Uwch Dîm Arwain y Swyddfa ond nid yw'n aelod o'r Bwrdd Adrannol.

Roedd gan y Swyddfa ddau aelod anweithredol o'r bwrdd (NEBM) – Alison White (aelod arweiniol NEBM) ac Alun Evans (NEBM). Amlinellir manylion holl bwyllgorau y Swyddfa a'u haelodaeth yn y "Datganiad Llywodraethu" (tudalennau 41-45)

***Diogelwch a diogelwch gwybodaeth***

Nid yw'r Swyddfa'n ymdrin â llawer iawn o ddata sensitif neu bersonol, ond serch hynny mae wedi ymrwymo i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei dal yn cael ei thrin a'i diogelu'n gywir a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Mae asedau a risgiau gwybodaeth yn cael eu nodi ac mae rheolaethau ar waith i reoli eu defnydd, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddi a ddarperir drwy Civil Service Learning (CSL) i hyfforddi'r holl staff yn flynyddol mewn materion sy'n ymwneud â sicrhau gwybodaeth a thrin data.

Roedd un digwyddiad ynglŷn â diogelwch yn ystod 2022-23. (2020-21 1). Roedd hyn yn ymwneud â cholli ffôn symudol. Roedd yr eitem wedi'i hamgryptio'n llawn ac nid oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na sensitif. Ymchwiliwyd yn llawn i'r digwyddiad, a chymerwyd camau priodol.

## Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Swyddfa Cymru i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa a'i hincwm a'i gwariant, ei datganiad o sefyllfa ariannol a'i llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- Glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddir gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol mewn ffordd gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon;
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw;
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EF wedi penodi Glynne Jones Cyfarwyddwr y Swyddfa yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdanynt, cadw cofnodion cywir ac amddiffyn asedau Swyddfa Cymru, wedi'u nodi yn *Managing Public Money* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

## Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Paratowyd Cyfrifon y Swyddfa ar sail statudol yn unol â gofynion Trysorlys EF a dynodir eu bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Cyfrifon cyffredinol a roddir i adrannau gan Drysorlys EF dan adran 5 (2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Archwilir y datganiadau ariannol gan y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodir mewn statud ac sy'n adrodd i'r Senedd ar yr archwiliad archwilio. Datgelir taliadau a threuliau'r archwilwyr yn Nodyn 2 ar y cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni wnaed unrhyw daliad i'r archwilwyr am waith nad oedd yn ymwneud ag archwilio (2021-22 £dim).

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Swyddfa yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Swyddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu/Cyfarwyddwr drwy hyn yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

## *Cyflwyniad*

Fel Cyfarwyddwr y Swyddfa, fi hefyd yw'r Swyddog Cyfrifyddu. Yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn fy llythyr penodi, ac fel y nodir yn Managing Public Money, fi sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Swyddfa.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol i'r Senedd am stiwardiaeth yr adnoddau sydd o fewn rheolaeth y Swyddfa ac am eu rheoli, ac rwyf hefyd yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaethau mewnol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r Swyddfa a sut y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n ymdrin â'r broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion ac yn ystyried a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at gyflawni canlyniadau priodol a chost-effeithiol.

Mae Datganiad Llywodraethu'r Swyddfa yn nodi'r strwythurau llywodraethu, y rheolaethau mewnol a'r gweithdrefnau rheoli risg sydd wedi bod ar waith yn y Swyddfa yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-23 a hyd at ddyddiad cyflwyno'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol yn y Senedd.

## *Cyfrifoldebau Gweinidogol*

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i'r Swyddfa ac mae'n atebol i'r Senedd. Fe'i cefnogir gan Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, a Barwnes Breswyl (Chwip y Llywodraeth) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chan dîm bychan o weision sifil dan arweiniad Cyfarwyddwr y Swyddfa.

Mae Gweinidogion yn arwain adrannau ac yn gyfrifol ac yn atebol i'r Senedd am weithredoedd a pholisïau eu hadrannau. Mae byrddau, o fewn y fframwaith strategol a bennir gan Weinidogion, yn cefnogi pennaeth yr Adran drwy gynghori Gweinidogion a rhoi cyngor am berfformiad yr Adran. Gweinidogion ac aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am lywodraethu corfforaethol, sy'n diffinio hawliau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, yn pennu rheolau a gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn cynnwys y broses a ddefnyddir i osod a monitro amcanion yr Adran.

## *Strwythurau Llywodraethu Corfforaethol*

Goruchwylir y gwaith o reoli'r Swyddfa gan y Bwrdd Adrannol a sefydlwyd ym mis Medi 2015 ac mae'n cyfarfod hyd at pum gwaith mewn blwyddyn ariannol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cyfarwyddwr mewn cyfarfodydd lle nad yw Gweinidogion yn bresennol.

Mae'r Bwrdd Adrannol yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar gyfeiriad strategol y Swyddfa (nodau ac amcanion) yn unol â pholisïau a bennir gan Weinidogion, craffu ar y cynllun

busnes a chyflawni canlyniadau a sicrhau bod gan y swyddfa’r capasiti a’r gallu i gyflawni’r cynllun busnes, er mwyn diwallu anghenion y presennol a’r dyfodol.

Mae’r Bwrdd yn cefnogi’r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i’r Senedd. Dangosir manylion aelodaeth y Bwrdd isod.

Yn 2022-23, monitrodd y Bwrdd gynnydd perfformiad y Swyddfa yn erbyn ei blaenoriaethau strategol, a’i hamcanion.

Mae’r Cod Ymarfer Da ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog (2017) yn nodi y dylai gwerthusiadau effeithiolrwydd byrddau adrannol gael eu cynnal yn flynyddol, dan arweiniad Aelod Anweithredol Arweiniol y Bwrdd ac y dylai fod â mewnbwn annibynnol o leiaf unwaith bob tair blynedd. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 a datgelwyd y canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Swyddfa Cymru 2021-22.

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu’r Adran gan yr Aelod Anweithredol Arweiniol o’r Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Manylwyd ar ganlyniadau ei hadolygiad mewn adroddiad ar wahân a rannwyd â holl Aelodau’r Bwrdd. Y canfyddiadau oedd bod y Bwrdd wedi parhau i wella ei effeithiolrwydd ers adolygiad y llynedd, a bod y trefniadau llywodraethu diwygiedig y cytunwyd arnynt o ganlyniad i’r adolygiad annibynnol y llynedd, yn gweithio’n dda.

Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda’r Cyfarwyddwr i drafod materion polisi, strategaeth a materion Adrannol.

**Dangosir presenoldeb yn y Bwrdd Adrannol yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod:**

## Bwrdd Adrannol

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
| --- | --- |
| **Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS - Cadeirydd**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru o 25 Hydref 2022 ymlaen<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 25 Hydref 2022 | **3 o 3** |
| **Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru rhwng 7 Gorffennaf 2022 a 25 Hydref 2022 | **1 o 1** |
| **Y Gwir Anrh. Simon Hart AS**<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru tan 6 Gorffennaf 2022 | **0 o 0** |
| **Dr James Davies AS**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 27 Hydref 2022 ymlaen | **2 o 2** |
| **Alison White –** Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) | **4 o 4** |
| **Alun Evans CBE –** Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM) | **4 o 4** |
| **Glynne Jones CBE –** Cyfarwyddwr | **4 o 4** |
| **Geth Williams –** Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Undebol, Twf a Chorfforaethol | **4 o 4** |
| **Sarah Jennings –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat | **4 o 4** |
| **Louise Parry a Kate Starkey –** Dirprwy Gyfarwyddwr ar y Cyd, Polisi | **4 o 4** |
| **Dafydd Jones –** Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu | **4 o 4** |

**Nodiadau**

* Disgwylir i Weinidogion fynychu dau gyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn.

Mae Uwch Dîm Arwain y Swyddfa yn cefnogi'r Bwrdd drwy gynnal adolygiadau rheolaidd ar brosesau risg a llywodraethu.

## *Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)*

Mae'r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM), ac mae'n cynnwys un NEBM arall ac aelod annibynnol arall. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio'r Trysorlys ac yn cyfarfod bob chwarter. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Ebrill 2023, gan geisio barn ei aelodau. Daeth i'r casgliad bod y Pwyllgor yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan sicrhau bod ei gylch gorchwyl yn cael sylw priodol.

Roedd rhai o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- prosesau rheoli risg yr Adran gan gynnwys ymchwilio'n drylwyr i gofrestrau risg adrannol, a'r datganiad archwaeth risg.
- Cynllun busnes a phrosesau llywodraethu;
- Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol.

**Roedd presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:**

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys a Fynychwyd |
|---|---|
| **Alison White** – Aelod Arweiniol Anweithredol o'r Bwrdd (NEBM), Cadeirydd | 3 o 3 |
| **Alun Evans CBE** – NEBM | 3 o 3 |
| **Rachel Irvine**[1] – Aelod Annibynnol ers 1 Ionawr 2023 | 0 o 0 |
| **Sam Hartley**[2] – Aelod Annibynnol tan 31 Rhagfyr 2022 | 2 o 3 |

**Notes**

1: Rachel Irvine yw'r Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfansoddiadol ar hyn o bryd yn Swyddfa'r Alban a Swyddfa'r Adfocad Cyffredinol.

2: Daeth tymhorau Sam Hartley fel aelod annibynnol i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Ef oedd Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Dadansoddi a Dirprwy Ysgrifennydd ymchwiliad Covid-19 y DU. Er mwyn cynnal ei annibyniaeth, roedd y swyddog hwn yn absennol o unrhyw drafodaethau ar Covid-19.

## *Byrddau/Pwyllgorau Eraill*

### Bwrdd Cyflawni Canlyniadau

Mae'r Bwrdd Cyflawni Canlyniadau yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflawni Canlyniadau'r Adran. Sefydlwyd y Bwrdd Cyflawni Canlyniadau ym mis Gorffennaf 2021 ac mae'n adrodd i'r Bwrdd Adrannol ar faterion strategol a chynnydd cyffredinol o ran cyflawni'r Cynllun.

### Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu gyda'u cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yr holl staff ac ymwelwyr ag adeiladau'r Swyddfa.

Yn ystod 2022-23, bu'r Pwyllgor yn ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys adrodd am unrhyw ddamweiniau yn y gwaith, a hyfforddiant ar gyfer wardeniaid tân, swyddogion cymorth cyntaf ac aseswyr DSE.

## *Cofrestr Buddiannau*

Mae prosesau Swyddfa Cymru ar gyfer cofrestru buddiannau a chyflogaeth allanol yn berthnasol i holl aelodau gweithredol ac anweithredol y Bwrdd a'r Pwyllgorau ac i'r holl Uwch Weision Sifil sy'n gweithio yn yr adran. Ar gyfer y staff hynny sy'n is na graddfa'r Uwch Wasanaeth Sifil, mae datgan a rheoli buddiannau yn unol â pholisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gofynion Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

### Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Swyddfa'n cadw cofrestr o fuddiannau, sy'n cael ei hadolygu a'i diweddaru bob chwarter. Mae'r buddiannau a gofrestrwyd gan aelodau wedi'u nodi isod:

| Aelodau | Swydd/Buddiant |
|---|---|
| Alison White | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chyfarwyddwr Anweithredol - Canolfan y Frenhines Elizabeth II (Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau) hyd at fis Tachwedd 2022<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chyfarwyddwr Anweithredol – Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion hyd at fis Ionawr 2023<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chyfarwyddwr Anweithredol – Yr Asiantaeth Olew a Phiblinellau<br><br>Aelod Anweithredol o'r Pwyllgor Archwilio – Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Alun Evans CBE | Unig Gyfarwyddwr – Atbeconsulting Ltd<br><br>Cadeirydd – Atlee Foundation (di-dâl) |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr a Chadeirydd – Clwb Celfyddydau Rhanbarth Llundain (di-dâl) |

### Cynghorwyr Arbennig

Yn unol â'r polisi Datgan Buddiannau cyfredol ar gyfer cynghorwyr arbennig, mae pob cynghorydd arbennig wedi datgan unrhyw fuddiannau perthnasol neu wedi cadarnhau nad ydynt yn credu bod ganddynt unrhyw fuddiannau perthnasol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi ystyried y ffurflenni hyn ac mae'r buddiannau perthnasol canlynol wedi'u nodi'n gyhoeddus:

***Cynghorwyr Arbennig Cyfredol***

| Enw | Buddiant |
|---|---|
| Corrie Driscoll | Mae tad Ms Driscoll yn Gynghorydd ym Mro Morgannwg. |

***Cyn Gynghorwyr Arbennig (a oedd wedi gadael yn ystod 2022-23)***

| Enw | Buddiant |
|---|---|
| Olivia Williams (tan 6/09/2022) | Mae gan Ms Williams swydd ddi-dâl fel Cyfarwyddwr Nameco 1064. |
| Alex Williams (rhwng 6/09/2022 a 25/10/2022) | Mr Williams yw Cyfarwyddwr Transom Campaigns Limited |

## *Penodiadau Busnes*

Mae'r Swyddfa'n dilyn y Rheolau Penodi Busnes a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Gweision Sifil

https://www.gov.uk/government/publications/governments-business-appointment-rules-for-civil-servants

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn monitro cydymffurfiad y Swyddfa â'r rheolau.

Er mwyn cydymffurfio â'r Rheolau Penodi Busnes, mae'r adran yn dryloyw yn y cyngor a roddir i geisiadau unigol am uwch staff, gan gynnwys Cynghorwyr Arbennig ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn:

https://www.gov.uk/search/transparency-and-freedom-of-information-releases?organisations%5B%5D=office-of-the-secretary-of-state-for-wales&parent=office-of-the-secretary-of-state-for-wales

## *Adnabod a rheoli risg*

Mae system reolaeth fewnol y Swyddfa wedi'i dylunio i adnabod risgiau busnes a'u lliniaru yn unol â'r parodrwydd i dderbyn risg a ddiffinnir gan y Bwrdd Adrannol. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i adnabod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni amcanion Adrannol, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae cadernid y system hon yn parhau i gael ei ddangos gan y ffordd y mae'r Adran yn rheoli ei phrif risgiau strategol. Yn 2022-23, mae'r rhain wedi cynnwys y risgiau canlynol: -

- Methiant i gefnogi Twf Economaidd yng Nghymru gydag effaith ganlyniadol ar gyflogaeth, twf busnes a ffactorau cymdeithasol.

- Methiant i gryfhau a chynnal rôl yr Undeb a Chymru ynddo a chynyddu amlygrwydd ymrwymiad Llywodraeth y DU i Gymru.

Mae gan y Swyddfa drefniadau da ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymgysylltu'n rheolaidd ac yn effeithiol ag Adrannau Eraill y Llywodraeth a defnyddio mecanweithiau traws-lywodraethol.
- Ymgysylltu'n effeithiol ac yn uniongyrchol â rhanddeiliaid.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i brosiectau Bargeinion Dinesig a Thwf a rhaglenni eraill.
- Cynnal ymchwil a dadansoddi ansawdd er mwyn meithrin hygrededd
- Ymgysylltu ar lefel weinidogol lle bo angen a
- Meithrin hygrededd ac ymddiriedaeth rhwng swyddogion rhynglywodraethol

## *Y gallu i ddelio â risg*

Adnabuwyd risgiau a'u mynegi ar lefel strategol a gweithredol gan y Bwrdd Adrannol ac ar lefel weithredol gan y timau o fewn y pedair is-adran. Roedd cofrestrau risg y canghennau yn ategu ac yn bwydo i mewn i'r Gofrestr Risg Strategol Adrannol gyffredinol a gafodd ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn adolygu eu dull o reoli risg yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod risgiau allweddol wedi cael eu nodi a bod mesurau priodol a chymesur ar waith i reoli lefel y risg i lefel dderbyniol. Cafodd y Bwrdd sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arwain ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau i reoli risg weithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o ran effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn arwain y gwaith o graffu a delio â risgiau allweddol, ac wedi cynnal adolygiad manwl o gofrestrau risg adrannol a sut roeddent yn cael eu rheoli.

## *Fframwaith risg a rheolaeth*

Mae gan y Swyddfa Bolisi Fframwaith Rheoli Risg ar waith sy'n cyd-fynd â Llyfr Oren Trysorlys EF ar Reoli Risg – Egwyddorion a Chysyniad. Caiff y polisi ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Bwrdd Adrannol.

Mae'r Polisi Fframwaith Rheoli Risg yn amlinellu ei weithdrefnau'n glir, ac yn hyrwyddo diwylliant tryloyw ac atebol i gefnogi rheolaeth risg gyson, amserol ac effeithiol ar draws yr Adran.

Cefnogwyd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch dîm rheoli a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth

fewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

### Datganiadau Sicrwydd

Mae'n ofynnol i bob Dirprwy Gyfarwyddwr gwblhau a llofnodi datganiad Tystysgrif Sicrwydd gyda Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol wedi'i llenwi i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ar lywodraethu, rheoli risg a gweithredu rheolaethau mewnol yn eu hadrannau. Cafodd yr holl ddatganiadau eu hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fel rhan o'r adolygiad llywodraethu.

Ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol fel rhan o'r broses datganiad sicrwydd diwedd blwyddyn

### Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth

Mae'r Adran wedi adolygu ei chydymffurfiaeth â safonau swyddogaethol perthnasol y Llywodraeth. Mae'r adolygiad hwn wedi dangos ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion sylfaenol.

### Archwilio Mewnol

Mae Trysorlys EF yn mynnu bod yn rhaid i archwiliad mewnol roi sicrwydd diwedd blwyddyn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth adran. Sicrwydd yr Archwiliad Mewnol yw un o'r prif ffynonellau tystiolaeth sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol i Swyddfa Cymru gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n gweithio yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae gwaith archwilwyr mewnol yn cynnwys adolygu gwybodaeth a chynnal cyfarfodydd gydag uwch reolwyr, i edrych ar y fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol.

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn rhoi sicrwydd blynyddol i Swyddog Cyfrifyddu'r adran, drwy gyfrwng barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheolaeth fewnol. Mae eu barn archwilio mewnol yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed drwy gydol y cyfnod adrodd. Mae eu cynllun gwaith archwilio blynyddol yn cael ei ddatblygu mewn cytundeb â'r uwch reolwyr, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae Swyddfa Cymru yn agored iddynt.

Roedd cynllun archwilio mewnol 2022-23 yn cynnwys adolygiadau o'r canlynol: Gwrthdaro rhwng Buddiannau, Rheoli Cyllideb a Chadernid Adnoddau.

Ar sail y gwaith a gwblhawyd a'r wybodaeth am y fframweithiau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn Swyddfa Cymru, mae Archwilio Mewnol wedi darparu barn flynyddol Gymedrol.

## *Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol*

Rhoddodd y Swyddfa ystyriaeth lawn i arweiniad Trysorlys EF *Corporate Governance in Central Government Departments* (Ebrill 2017) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol. Fodd bynnag, gwnaed hyn ar raddfa sy'n gymesur â'i maint, ei chyllideb, a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chyngor polisi i Weinidogion yn hytrach na darparu rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd). Mae'r meysydd lle nad yw'r Adran ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau wedi'u cyfyngu i:

- Niferoedd NEBMs. Ar ôl ystyriaeth briodol gan y Cyfarwyddwr, y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Archwilydd Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, penderfynodd yr Adran beidio â chynyddu nifer ei NEBMs. Teimlir bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 45 o staff). Roedd gan y ddau NEBM sgiliau a phrofiad gwerthfawr dros ben sy'n arbennig o berthnasol i'r Swyddfa. Mae'r arweinydd NEBM yn gyfrifydd cymwysedig ac yn gadeirydd profiadol ac yn aelod annibynnol o bwyllgorau archwilio a risg, gan gynnwys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, 2il Ganolfan Gynadledda'r Asiantaeth Olew a Phiblinellau. Mae'r ail NEBM a benodwyd ym mis Ionawr 2021 yn gyn-weithiwr sifil gyda phrofiad o fod yn aelod gweithredol o Fwrdd pedair adran yn y Llywodraeth, gan weithio gyda Gweinidogion, a dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu Adran fechan o'r Llywodraeth.

- Ystyriwyd yn benodol a allai gwrthdaro rhwng buddiannau godi yn rolau'r Cyfarwyddwr Anweithredol Arweiniol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n cael eu dal gan yr un person; nid yw'r Cyfarwyddwr Anweithredol Arweiniol yn cadeirio'r Bwrdd Adrannol, felly mae'r risg o unrhyw wrthdaro yn isel. Mae unrhyw fantais sydd i'w chael o ymgysylltu â thrydydd Cyfarwyddwr Anweithredol am y rheswm hwn yn parhau i gael ei gwrthbwyso gan y ddadl ar gymesuredd a amlinellir uchod.

- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod, mae swyddog o Swyddfa'r Alban a Swyddfa'r Adfocad Cyffredinol (Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfansoddiadol) ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel aelod annibynnol.

- Dylai aelodaeth y Bwrdd gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid: - Oherwydd maint y Swyddfa, ac i sicrhau cydbwysedd yr aelodaeth rhwng Gweinidogion a Swyddogion, nid yw'r Pennaeth Cyllid yn aelod o'r Bwrdd ond mae'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd mewn swyddogaeth ymgynghorol.

## *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Ymdrinnir â hyn yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Gweler tudalen 38.

## *Risg a Sicrwydd Gwybodaeth*

***Asedau Gwybodaeth***

Nid yw'r Swyddfa'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cynnal cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae nifer cyfyngedig o ddaliadau data personol ar ffurf cofnodion personél a chyllid, a gohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd (ASau) a Chymheiriaid. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau polisi a chorfforaethol, a phapurau Pwyllgor y Cabinet.

Mae'r Swyddfa'n cydymffurfio â'r Rheoliad Ewropeaidd ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018.

***Gwybodaeth Reolaethol***

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn derbyn gwybodaeth reolaethol o ansawdd am berfformiad y Swyddfa er mwyn eu galluogi i asesu, herio a gyrru gwelliannau yn ôl yr angen.

***Risgiau a Rheoli Risgiau***

O ystyried y daliadau cyfyngedig o wybodaeth sensitif, nid yw'r Swyddfa'n wynebu'r mesur o risg sy'n gofyn am strategaethau rheoli helaeth neu arbennig.

## *Canlyniadau yn ystod 2022-23*

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2022/23. (2021-22 Dim)

## *Cyfarwyddiadau Gweinidogol*

Nid oedd unrhyw gyfarwyddiadau Gweinidogol yn ystod y flwyddyn (2021-22 Dim).

### Adroddiad cryno gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Ar sail ei waith dros y cyfnod adrodd hwn, gall y Pwyllgor ddarparu sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd trefniadau archwilio'r Adran ac ar y sicrwydd a roddir i'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu a rheoli risg. Mae hefyd yn gallu rhoi sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith i gynhyrchu cyfrifon ariannol yr Adran yn gadarn.

## Asesiad o'r system reoli fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system rheolaeth fewnol yn y Swyddfa yn ddigonol i gyflawni amcanion yr Adran. Rhoddir hyn ar y sail, lle adnabuwyd risg, bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r risg neu fod natur y risg wedi ei deall a'i derbyn yn llawn.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**12 Gorffennaf 2023**

# Adroddiad Tâl a Staff

## *Adroddiad Tâl*

Mae'r Adroddiad Tâl a Staff yn crynhoi taliadau Gweinidogion, Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd, Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd a staff; mae hefyd yn cynnwys manylion costau gwirioneddol a threfniadau cytundebol.

Paratowyd yr Adroddiad Tâl a Staff yn unol â gofynion y llawlyfr adroddiadau ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae rhai o'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi bod yn destun archwiliad gan yr archwilydd allanol, y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Nodir yn glir pan fydd tablau wedi bod yn destun archwiliad.

### Polisi Tâl

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu ar Gyflogau Uwch-swyddogion.

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd ar dâl a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; ar lwfansau Arglwyddi; ac ar dâl, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogol ac Eraill 1975.

Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu wedi ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol.
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff.
- polisïau'r Llywodraeth i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad ar Adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau Adrannol.
- yr arian sydd ar gael i Adrannau fel y nodir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn: https://www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries

### *Taliadau aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil*

Nid yw'r Swyddfa yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n cael eu cyflogi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu ar fenthyg gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Pennir cyflogau Uwch Weision Sifil yn unol â pholisi Gwobrwyo Uwch Wasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet.

### *Contractau Gwasanaethau*

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn mynnu bod penodiadau'r Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod a hynny wedi'i seilio ar gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r swyddogion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau agored. Byddai terfynu swydd, ac eithrio am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn https://civilservicecommission.independent.gov.uk/

### *Cyflogau a hawliau pensiwn Gweinidogion*

***Mae'r adran hon a'r tablau cysylltiedig isod wedi cael eu harchwilio.***

Dangosir cyflogau, buddiannau trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Gweinidogion yn y tablau canlynol.

O ran Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, dim ond cost y tâl ychwanegol i Weinidogion a ysgwyddir gan adrannau; mae cyflog eu gwasanaethau fel AS £81,932 (o 1 Ebrill 2020) a'r lwfansau amrywiol y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu talu'n ganolog. Fodd bynnag, mae'r trefniant ar gyfer Gweinidogion yn Nhŷ'r Arglwyddi yn wahanol gan nad ydynt yn cael cyflog ond yn hytrach tâl ychwanegol, na ellir ei fesur ar wahân i gyflogau Gweinidogion. Yr Adran sy'n talu cyfanswm y tâl hwn, yn ogystal â'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, ac felly dangosir hyn yn llawn yn y ffigurau isod.

### *Buddion o fath arall*

Mae gwerth ariannol unrhyw fuddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan yr Adran ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EF fel enillion trethadwy. Ni chafodd yr un Gweinidog yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru fuddion mewn nwyddau yn 2022-23 na 2021-22.

## *Tâl (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)*

| Cyfanswm tâl unigol | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweinidogion** | **Cyflog (£)** | | **Buddion o Fath Arall (i'r £100 agosaf)** | | **Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf)[1]** | | **Cyfanswm (i'r £1000 agosaf)** | |
| | **2022-23** | **2021-22** | **2022-23** | **2021-22** | **2022-23** | **2021-22** | **2022-23** | **2021-22** |
| Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol ers 25 Hydref 2022 a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol hyd at 25 Hydref[†] | *32,270 | amh. | dim | amh. | 8,000 | amh. | 40,000 | amh. |
| Y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE, KC AS Ysgrifennydd Gwladol, rhwng 7 Gorffennaf 2022 a 25 Hydref 2022[††] | 37,019 | amh. | dim | amh. | 6,000 | amh. | 43,000 | amh. |
| Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol hyd at 6 Gorffennaf 2022†[††] | 34,841 | 67,505 | dim | dim | 4,000 | 17,000 | 39,000 | 85,000 |
| Dr James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 27 Hydref 2022 ymlaen[††††] | 9,624 | amh. | dim | amh. | 2,000 | amh. | 12,000 | amh. |

**Nodiadau i'r tabl:**

1. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

† Ar 25 Hydref 2022, penodwyd y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ef oedd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru tan y dyddiad hwn. *Mae ei gyflog yn cynnwys £3,294 a gafodd yn ei rôl fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 8 Medi 2022 ymlaen. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn yn y rôl fel Ysgrifennydd Gwladol oedd £67,505 a .£22,375 fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol.

†† Ar 7fed Gorffennaf 2022, penodwyd Syr Robert Buckland KBE, KC, AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn lle'r Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS. Gadawodd y swydd ar 27 Hydref 2022. Mae cyfanswm ei gyflog ar gyfer 2022-23 yn cynnwys taliad iawndal o £16,876. Roedd ei gyflog â blwyddyn llawn amser yn y rôl hon yn £67,505.

††† Ar 6 Gorffennaf 2022, ymddiswyddodd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS o'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae cyfanswm ei gyflog ar gyfer 2022-23 yn cynnwys taliad iawndal o £16,876. Roedd ei gyflog â blwyddyn llawn amser yn y rôl hon yn £67,505.

†††† Penodwyd Dr James Davies yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar 27 Hydref 2022. Roedd ei gyflog â blwyddyn llawn amser yn y rôl hon yn £22,375.

* Talwyd costau cydnabyddiaeth yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol gan y Gronfa Gyfunol tan 8 Medi 2022.

| Buddion Pensiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn Cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2023 | Cynnydd real mewn pensiwn yn 65 oed | CETV ar 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV £000 |
| **Gweinidogion** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Y Gwir Anrhydeddus David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol ers 25 Hydref 2022, a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol hyd at 25 Hydref | 0-5 | 0-2.5 | 58 | 47 | 4 |
| Y Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE, KC AS Ysgrifennydd Gwladol rhwng 7 Gorffennaf 2022 a 25 Hydref 2022 | 5-10 | 0-2.5 | 139 | 126 | 3 |
| Y Gwir Yr Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol hyd at 6 Gorffennaf 2022 | 0-5 | 0-2.5 | 51 | 46 | 3 |
| Dr James Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol o 27 Hydref 2022 ymlaen | 0-5 | 0-2.5 | 2 | 0 | 1 |

### *Pensiynau Gweinidogol*

Darperir buddion pensiwn i Weinidogion gan Gronfa Bensiwn Gyfrannol y Senedd (PCPF). Mae'r cynllun yn cael ei wneud dan statud ac mae'r rheolau wedi'u nodi yng Nghynllun Pensiwn y Gweinidog ac ati 2015, sydd ar gael yn http://qna.files.parliament.uk/ws-attachments/170890/original/PCPF%20MINISTERIAL%20SCHEME%20FINAL%20RULES.doc.

Caiff y Gweinidogion hynny sy'n Aelodau Seneddol hefyd gronni pensiwn AS o dan y PCPF (nid yw'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn). Cyflwynwyd cynllun pensiwn Aelodau Seneddol newydd o fis Mai 2015 ymlaen, er bod gan aelodau a oedd yn Aelodau Seneddol ac yn 55 oed neu hŷn ar 1 Ebrill 2013 warchodaeth drosiannol i aros yng nghynllun pensiwn cyflog terfynol yr AS blaenorol.

Mae buddion i Weinidogion yn daladwy o oedran Pensiwn y Wladwriaeth o dan gynllun 2015. Caiff pensiynau eu hailbrisio'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau cyn ac ar ôl ymddeol. Y gyfradd cyfrannu o fis Mai 2015 ymlaen yw 11.1% a'r gyfradd cronni yw 1.775% o enillion pensiynadwy.

Mae'r ffigur a ddangosir ar gyfer gwerth pensiwn yn cynnwys cyfanswm y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod o dan y cynlluniau pensiwn Gweinidogol cyn ac ar ôl 2015.

### *Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)*

Dyma werth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau pensiwn y maent wedi eu cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi ei gronni o ganlyniad i gyfanswm ei wasanaeth Gweinidogol, nid dim ond ei benodiad cyfredol fel Gweinidog. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

### *Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV*

Dyma elfen y cynnydd mewn pensiwn cronedig a ariennir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y Gweinidog. Mae'n cael ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## *Cyflog a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd*

### *Mae'r adran hon a'r tablau cysylltiedig isod wedi cael eu harchwilio*

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros; tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan y Swyddfa ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Mae ffigurau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan yr Adran, ond mae'r hyn sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yn cael ei gyfrifo'n net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Mae bonysau'n seiliedig ar lefelau perfformiad ac yn cael eu talu fel rhan o'r broses werthuso. Mae'r bonysau a gofnodwyd yn 2022-23 yn ymwneud â pherfformiad yn 2021-22 ac mae'r bonysau cymharol a gofnodwyd ar gyfer 2021-22 yn ymwneud â pherfformiad yn 2020-21.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu cefnogi gan y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Dangosir cyflogau, bonysau, buddiannau trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn Aelodau Bwrdd yn y tablau canlynol: -

**Cyfanswm tâl unigol**

| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£,000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn i'r £1000 agosaf)[2] | | Cyfanswm (£,000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 |
| Glynne Jones CBE, Cyfarwyddwr | 95-100 | 95-100 | dim | 10-15 | dim | dim | -13,000 | 15,000 | 85-90 | 120-125 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Corfforaethol, a'r Undeb | 75-80 | 75-80 | dim | 5-10 | dim | dim | -7,000 | 13,000 | 70-75 | 95-100 |
| Sarah Jennings Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat | 95-100 | 90-95 | 5-10 | dim | dim | dim | 5,000 | 37,000 | 120-125 | 130-35 |
| Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, rhannu swydd gyda Kate Starkey† | 45-50 | 45-50 | dim | dim | dim | dim | 1,000 | 11,000 | 45-50 | 55-60 |
| Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, rhannu swydd gyda Louise Parry)† | 45-50 | 45-50 | dim | dim | dim | dim | -2,000 | 9,000 | 45-50 | 50-55 |
| Dafydd Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu | 85-90 | 85-90 | dim | dim | dim | dim | 34,000 | 33,000 | 120-125 | 115-120 |

**Nodiadau i'r tabl:**

2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. Gwerthoedd negyddol - Aelod cyflog terfynol (clasurol/clasurol a mwy/premiwm) sydd wedi trosglwyddo i alffa. Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r nesaf yn rhinwedd unrhyw gynnydd mewn cyflog yn ystod y flwyddyn. Lle nad oes codiad cyflog neu lle mae codiad cyflog bach, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn ostwng, a dyna pam y mae'r gwerthoedd negyddol

† Mae cyflogau cyfwerth ag amser llawn Louise Parry a Kate Starkey ar gyfer 2022-23 rhwng £75k a £80k (2021-22 £70k i £75k).

## *Cyfarwyddwyr Anweithredol*

| Taliadau Cydnabyddiaeth | Cyflog ac eithrio bonws (gan gynnwys lwfansau (£'000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-22 | 2022-23 | 2021-21 |
| Alison White, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Gyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | dim | dim | 10-15 | 10-15 |
| Alun Evans, Cyfarwyddwr Anweithredol | 5-10 | 5-10 | dim | dim | 5-10 | 5-10 |

## *Buddion Pensiwn*

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronedig a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2023 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2023 | CETV ar 31 Mawrth 2022 | Cynnydd/ gostyngiad gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Glynne Jones CBE, Cyfarwyddwr* | 50 - 55 ynghyd â chyfandaliad o 95 - 100 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 966 | 888 | -26 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Corfforaethol, a'r Undeb | 30 - 35 ynghyd â chyfandaliad o 70 - 75 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 719 | 656 | -18 |
| Sarah Jennings, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat | 15-20 | 0-2.5 | 184 | 162 | 6 |
| Louise Parry, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi, rhannu swydd gyda Kate Starkey | 15 - 20 ynghyd â chyfandaliad o 30 - 35 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 287 | 261 | -5 |
| Kate Starkey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, rhannu swydd gyda Louise Parry | 20 - 25 | 0 - 2.5 | 318 | 291 | -7 |
| Dafydd Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu | 0 - 5 | 0-2.5 | 38 | 20 | 10 |

**Nodiadau i'r tabl:**
*Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

## *Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil*

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – sef Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alffa**, sy'n darparu buddion yn seiliedig ar gyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, roedd pob gwas sifil newydd, ynghyd â'r rhan fwyaf o'r bobl sydd eisoes mewn swydd, yn ymuno ag **alffa**. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan gynllun PCSPS bedair adran: 3 sy'n rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **clasurol a mwy**) gydag oed pensiwn arferol o 60; ac un sy'n rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan swm a benderfynir drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alffa** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau sy'n rhan o'r cynllun PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i **alffa** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu'r gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir y bydd gan aelodau cymwys, maes o law, sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, hawl i wahanol fuddion pensiwn mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i gynllun **alffa** yn cael eu 'bancio', gyda'r rheini sydd â buddion cynt yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alffa** – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac **alffa**, y ffigur a nodir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu gyfraniad wedi'i ddiffinio, pensiwn (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau'r cyflogai'n gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau'r cynllun **clasurol**, **premiwm**, **clasurol a mwy**, **nuvos** ac **alffa**. Mae'r buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol pan fydd cyflogai'n ymddeol. Gyda'r cynllun **premiwm**, mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **glasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **Clasurol a Mwy** yn ei hanfod yn gynllun hybrid gyda buddion yng nghyswllt gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun **Clasurol**, a buddion am wasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel yn y cynllun **Premiwm**. Gyda **nuvos**, mae'r aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy tra bo'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei

gynyddu yn ôl deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae'r buddion yn **alffa** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ond mae'r gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae cyfrif pensiwn y **bartneriaeth** yn drefniant pensiwn cyfraniadau galwedigaethol diffiniedig sy'n rhan o Mastertrust Legal & General. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oed yr aelod). Nid oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw wedi cyrraedd oed pensiwn neu dros yr oedran hwnnw. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau cynlluniau **clasurol**, **premiwm** a **chlasurol a mwy**, a 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, a 65 oed neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau cynllun **alffa**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alffa – fel sy'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alffa, mae'r ffigur a ddyfynnir yn gyfystyr â gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

## *Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)*

Gwerth Trosglwyddo sy'n cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Buddion a gronnwyd gan yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi eu cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a nodir yn ymwneud â buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad iddo'n prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

## *Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV*

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## *Lluosrifau Tâl*

*(Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio)*

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog mwyaf yn eu sefydliad â thâl chwartel isaf, canolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Taliadau band y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf yn y Swyddfa ym mlwyddyn ariannol 2022-23 oedd £95k-£100k (2021-22, £105k-£110k) (Gweler y tabl cyfanswm tâl unigol). Roedd hyn 2.1 gwaith (2021-22, 2.6 gwaith) yn fwy na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £45,647 (2021-22, £41,997). Roedd elfen gyflog y canolrif yn £45,647.

Roedd gweithredu dyfarniad cyflog yr Adran yn 2022-23 wedi cynyddu tâl cyfartalog staff ac wedi lleihau'r gymhareb rhwng tâl y cyfarwyddwyr sy'n cael y tâl uchaf a'r gymhareb cyflog canolrifol.

Yn 2022-23, cafodd 1 (2021-22, dim) aelod o staff daliadau (cyflog, lwfansau a bonysau) mwy na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf. Roedd y taliadau'n amrywio o £25,475 i £106,000 (2021-22 £8,300 i £106,000).

Roedd newid o 3% yng nghyflog a lwfans y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf. Roedd hyn oherwydd dyfarniad cyflog yr Uwch Wasanaeth Sifil. Roedd newid o 100% yn y taliadau bonws a dalwyd i'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf (ni chawsant fonws yn 2022-23).

Roedd tâl band y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yr un fath ag yn 2021-22.

Ar gyfer staff yr endid yn ei gyfanrwydd, yr amcangyfrif o newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflog a lwfansau oedd 7.2% a'r newid canrannol mewn taliadau perfformiad a thaliadau bonws oedd £-10.9%

Mae'r gymhareb rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a thâl a buddion y cyflogai ar y 25ain canradd a 75 canradd cyflog a buddion cyflogeion yr endid ar gyfer y flwyddyn ariannol i'w gweld yn y tabl isod.

Y tâl chwartel isaf (sy'n cynrychioli 25ain canradd y dosbarthiad llinol) oedd £33,090 (elfen gyflog hyn oedd £33,090) a'r tâl chwartel uchaf (sy'n cynrychioli 75ain canradd y dosbarthiad llinol) oedd £55,863 (elfen gyflog hyn oedd £55,863). Mae cyfanswm y tâl a'r buddion ar gyfer y chwartelau canolrifol, isaf ac uchaf yr un fath â'r elfen cyflog.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl seiliedig ar berfformiad heb ei gyfuno, a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

**Tabl i ddangos y tâl a'r gymhareb canolrifol, 25ain canradd a'r 75ain canradd yn erbyn band y Cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn Swyddfa Cymru.**

| Disgrifiad | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf (£000) | £95 i £100k | £105k i £110k |
| Tâl canolrifol (£) | 45,647 | 41,997 |
| Cymhareb | 2.1 | 2.6 |
| 25ain canradd tâl (£) | 33,090 | 30,769 |
| Cymhareb | 2.9 | 3.5 |
| 75ain canradd tâl (£) | 55,863 | 55,296 |
| Cymhareb | 1.7 | 1.9 |

## Iawndal am golli swydd

*(Yn amodol ar archwiliad)*

Ni adawodd yr un aelod o staff Swyddfa Cymru o dan delerau Ymadael yn Wirfoddol yn 2022-23 na 2021-22.

## Gweinidogion

*(Yn amodol ar archwiliad)*

Gadawodd y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS a'r Gwir Anrhydeddus Syr Robert Buckland KBE KC AS y Swyddfa ar 6 Gorffennaf 2022 a 25 Hydref 2022. Cafodd y ddau daliad diswyddo o £16,876 yn unol ag adran 4 o Ddeddf Pensiynau a Chyflogau Gweinidogion ac eraill 1991. Ni chafodd unrhyw daliadau diswyddo eu gwneud yn 2021-22.

# Adroddiad Staff

## *Costau Staff*

***Mae'r adran hon a'r tablau cysylltiedig isod wedi cael eu harchwilio***

Dangosir gwariant Swyddfa Cymru ar staff yn ystod 2022-23 yn y tabl isod: -

| | | | | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflo-gir yn Barhol a Secondeion I mewn | Eraill | Gweinidogion | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfolgau wythnosol a misol | 2,605 | 4 | 114 | 2,723 | 2,654 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 265 | | 9 | 274 | 235 |
| Costau penswim eraill | 595 | | | 595 | 539 |
| **Cyfanswm y Costau** | **3,465** | **4** | **123** | **3,592** | **3,428** |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Arall (CSOPS) – a elwir yn "alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu ond (rhowch enw'r cyflogwr) yn methu â nodi ei gyfran o'r arian gwaelodol. asedau a rhwymedigaethau. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y PCSPS ar 31 Mawrth 2016. Gallwch ddod o hyd i fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-dal Sifil.

Ar gyfer 2022-23 roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o £595k (2021-22: £539k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2021-22: 26.6% i 30.3%) o dâl pensiynadwy , yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2022-23 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £Dim (2021-22 £Dim) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75%. (2021-22: 8.0% i 14.75%).

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £Dim (2021-22 £Dim) 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd afiechyd y gweithwyr hyn.

Roedd y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen yn £ok (2021-22 £Dim). Y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw oedd £Dim. Nid oedd unrhyw ymddeoliadau yn ystod 2022-23 ar sail afiechyd. (2021-22: Dim)

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £Dim (2021-22 £Dim) 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd afiechyd y gweithwyr hyn.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £Dim (2021-22 £Dim). Y cyfraniadau a dalwyd ymlaen llaw ar y dyddiad hwnnw oedd £Dim. Nid oedd unrhyw ymddeoliadau yn ystod 2022-23 ar sail afiechyd. (2021-22: £Dim).

## *Nifer y staff*

*(Gwybodaeth wedi'i harchwilio)*

Roedd cyfartaledd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---:|---:|
| Staff parhaol | 49 | 43 |
| Eraill | 0 | 2 |
| Gweinidogion | 2 | 2 |
| Cynghorwyr Arbennig* | 2.2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **53.2** | **49** |

* Cymerwyd niferoedd cynghorwyr arbennig ar 31 Mawrth 2023.

Mae Cynghorwyr Arbennig yn weision sifil dros dro. Er mwyn gwella effeithlonrwydd, mae gweinyddiaeth costau staff yr holl Gynghorwyr Arbennig ar draws y Llywodraeth yn cael ei reoli gan Swyddfa'r Cabinet, gyda'r gyllideb gyfatebol yn cael ei throsglwyddo. Felly, adroddir ar gostau Cynghorwyr Arbennig yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Swyddfa'r Cabinet. Mae Cynghorwyr Arbennig yn dal i gael eu cyflogi gan Adran y Gweinidog sy'n eu penodi.


Yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 a'r Contract Enghreifftiol ar gyfer Cynghorwyr Arbennig, daw penodiad Cynghorydd Arbennig i ben yn awtomatig pan fydd y Gweinidog sy'n penodi yn gadael ei swydd. Nid oes gan Gynghorwyr Arbennig hawl i gyfnod rhybudd ond maent yn derbyn buddion terfynu cytundebol i wneud iawn am hyn.

Mae buddion terfynu yn seiliedig ar hyd gwasanaeth ac wedi'u capio ar gyflog chwe mis. Os bydd Cynghorydd Arbennig yn dychwelyd i weithio i Lywodraeth EF ar ôl derbyn taliad diswyddo, mae'n rhaid ad-dalu'r taliad, llai didyniad yn lle cyflog am y cyfnod hyd nes y bydd yn dychwelyd. Mae costau terfynu ar gyfer Cynghorwyr Arbennig yn cael eu hadrodd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Swyddfa'r Cabinet.

Nid yw Swyddfa Cymru erioed wedi cyflogi staff yn uniongyrchol. Rydym yn parhau i dderbyn gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n neilltuo staff i ni.


Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhwym wrth Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ac mae staff yn cael eu recriwtio ar ein rhan drwy gystadleuaeth deg ac agored. Yn y gorffennol rydym wedi bod yn llawer mwy dibynnol ar fenthyciadau gan adrannau eraill y Llywodraeth, ond erbyn hyn mae'r trefniant hwn yn berthnasol i lai na phum aelod o staff.

Dangosir dadansoddiad misol o'r lefelau staffio parhaol (fel canran o'r nifer a ddyrannwyd i ni) yn y siart isod:




Roedd gan Swyddfa Cymru gyflenwad staff o 45 erbyn diwedd cyfnod adrodd blwyddyn ariannol 2022-23. Roedd trosiant staff yn ystod y flwyddyn oddeutu 26%.

Dangosir dadansoddiad o'r staff yn ôl gradd y gwasanaethau sifil yn y siart isod:




***Adrodd am gynlluniau Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill –pecynnau ymadael***

***(Gwybodaeth archwiliedig)***

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael y Gwasanaeth Sifil yn 2022-23 na 2021-22

***Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offerynnau Statudol 328)***

Nid yw'r Rheoliadau Amser Cyfleuster Undeb Llafur yn berthnasol i Swyddfa Cymru gan nad ydym yn gyflogwr. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y cyflogwr, yn darparu cynrychiolaeth undeb llafur i staff.

***Uwch Wasanaeth Sifil***

Ar 31 Mawrth 2023, roedd chwech o bobl mewn pum swydd uwch was sifil barhaol yn Swyddfa Cymru.


| Staff mewn swyddi ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2023 | Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| Canran menywod | 50% | 50% |
| Canran menywod ym Mand Cyflog 2 ac uwch | 0% | 0% |
| Canran Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a ddatgelwyd | 0% | 0% |
| Canran y staff Anabl a ddatgelwyd | 0% | 0% |

***Cydraddoldeb ac Amrywiaeth***


Caiff nodweddion personol eu cofnodi drwy system Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, lle caiff staff eu hannog i wneud datganiadau personol yn wirfoddol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.


Mae cyfraddau ymateb sy'n dangos canrannau'r staff sydd wedi diweddaru eu cofnod Adnoddau Dynol yn wirfoddol ar gyfer pob nodwedd, ar 31 Mawrth 2023, i'w gweld yn y siart isod:

**Canran y staff sydd wedi datagran ar 31 Mawrth 2023**



Mae'r siart isod yn dangos y proffil rhywedd, ar sail data Adnoddau Dynol ar 31 Mawrth 2023.





O ran Cyfeiriadedd Rhywiol, Anabledd a Chrefydd a Chred, mae ein data yn ymwneud â llai na phump o staff ac i sicrhau eu bod nhw'n gallu aros yn ddienw, ni fydd dadansoddiad pellach o'r data hwn yn cael ei gyhoeddi.

Mae'r tabl isod yn dangos proffil oedran y staff sy'n gweithio yn Swyddfa Cymru.

**Proffi oedran ar 31 Mawrth 2023**




***Cyflogi pobl anabl***

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cymryd rhan yn y Cynllun Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd ac yn cynnig y Cynllun Gwarantu Cyfweliad (GIS) i ymgeiswyr sy'n ystyried eu hunain yn anabl.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel y cyflogwr yn defnyddio ceisiadau dienw fel rhan o'i phroses recriwtio i leihau rhagfarn ddiarwybod.

***Materion eraill sy'n ymwneud â Lles ym maes Iechyd***

1.26 oedd nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd (AWDL) oherwydd salwch staff ar gyfer blwyddyn galendr 2022. Mae hyn yn is na'r targed (7.4), ac mae hefyd yn welliant ar ein cyfradd absenoldeb yn 2021 (5.88).

Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan mewn digwyddiadau Lles a drefnir ar y cyd â Grŵp Llywodraethu ehangach y DU, ac rydym wedi cynnig hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i'n staff.

***Hawliau Dynol ac Atal Caethwasiaeth***

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i barchu hawliau dynol ac mae wedi'i chynnwys yn Natganiad Atal Caethwasiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

***Gwariant ar staff ymgynghorol a staff dros dro***

Roedd y gwariant ar ymgynghori yn 2022-23 yn ddim. (2021-22 £dim).

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yn 2022-23 oedd £3,920 (2021-22 £79,623). Defnyddiodd Swyddfa Cymru staff dros dro i lenwi swyddi gwag.

***Apwyntiadau oddi ar y Gyflogres***

Yn 2022-23 nid oedd gan Swyddfa Cymru unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y diwrnod ac am gyfnod o chwe mis neu fwy. (2021-22 dim)

***Arolwg Ymgysylltu â Staff***

Roedd ein mynegai ymgysylltu cyffredinol yn 68% yn 2022 a 2021, ein sgoriau uchaf erioed. Gwnaethom sgorio'n gyson uwch na Meincnod y Gwasanaeth Sifil.

***Y Gymraeg***

Mae gan Swyddfa Cymru ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar berfformiad yn erbyn y targedau a bennir yn y Cynllun.

Rydym yn sicrhau bod cyfran resymol o staff yn cael eu recriwtio sydd â gallu dwyieithog. Mae'r staff hyn yn gallu ymateb i ymholiadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, pan fo angen.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ac yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff yn unol â hynny.

Ar 31 Mawrth 2023: Roedd pum aelod o staff wedi datgan eu bod yn rhugl o ran gwrando, darllen a siarad Cymraeg (2021-22, pump). Roedd pedwar o'r pum aelod staff hyn hefyd yn rhugl yn ysgrifenedig (2021-22 pedwar).



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**12 Gorffennaf 2023**

# Atebolrwydd Seneddol ac adroddiad archwilio

## Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## *Datganiad am Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SOPS)*

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol.

Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig wedi'u harchwilio, fel y nodir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tŷ Cyffredin.

Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario o'i gymharu ag Amcangyfrif y Cyflenwad. Cyflenwi yw'r sefyllfa ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a gaiff ei dynnu'n bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei ddefnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn nodi cyflenwad, ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Petai endid yn mynd dros y terfynau a osodwyd yn Amcangyfrif y Cyflenwad, sef y terfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn amodol.

Mae fformat y SoPS yn adlewyrchu Amcangyfrifon y Cyflenwad a gyhoeddwyd ar gov.uk, er mwyn galluogi tynnu cymhariaeth rhwng yr hyn mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n nodi perfformiad yn erbyn y terfynau rheoli mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, yr arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd alldro yn cyd-fynd yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn nodi'r canlynol: Alldro yn ôl llinell Amcangyfrif, gan ddarparu dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â gwariant gweithredol net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, i gysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni'r alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a dadansoddi'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Mae'r SoPS a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i IFRS ond yn wahanol iddo. Ceir dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o dermau allweddol ar dudalen 32 i 34, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwario Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS ar gael ym mhennod 1 y Canllawiau ar Gyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae SoPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y pleidleisir arni ac a gydnabyddir gan y Senedd. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Perfformiad, yn darparu trafodaeth gryno ar alldro yn erbyn yr amcangyfrif fel cyflwyniad i ddatgeliadau'r SoPS.

## Crynodeb o Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2022-23 (darparwyd yr holl ffigurau mewn £000s)

| | | 2022-23 Alldro | | | 2022-23 Amcangyfrif | | | 2022-23 Alldro v Amcangyfrifarbedion (gormodedd)) | | 2021-22 Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Pleidleisi-wyd | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Pleidleisi-wyd | Heb ei bleidleisio | Cyfanswm | Pleidleisi-wyd | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 5,320 | – | 5,320 | 5,564 | – | 5,564 | 244 | 244 | 5,964 |
| Cyfalaf | 1.2 | 39 | – | 39 | 72 | – | 72 | 33 | 33 | - |
| **Cyfanswm** | | 5,359 | – | 5,359 | 5,636 | – | 5,636 | 277 | 277 | 5,964 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | – | – | – | 10 | – | 10 | 10 | 10 | (303) |
| Cyfalaf | 1.2 | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm** | | **–** | **–** | **–** | **10** | **–** | **10** | **10** | **10** | **(303)** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | | **5,320** | **–** | **5,320** | 5,574 | – | 5,574 | 254 | 254 | 5,661 |
| Cyfalaf | | **39** | **–** | **39** | 72 | – | 72 | 33 | 33 | – |
| **Cyfanswm Gwariant y Gyllideb** | | **5,359** | **–** | **5,359** | **5,646** | **–** | **5,646** | **287** | **287** | **5,661** |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | **19,687,123** | – | **19,687,123** | 19,942,823 | – | 19,942,823 | 255,700 | 255,700 | 19,942,334 |
| **Cyfanswm y Gyllideb ac Anghyllidebol** | | **19,692,482** | **–** | **19,692,482** | **19,948,469** | **–** | **19,948,469** | **255,987** | **255,987** | **19,947,995** |

Y ffigurau yn y darnau sydd wedi'u hamlinellu gyda llinell drwchus yw'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Edrychwch ar lawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, i gael rhagor o fanylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

## Gofyniad arian parod net 2022-23 holl ffigurau wedi'u cyflwyno mewn £000's

| Eitem | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'igymharu agz Amcangyfrif arbediad/ (dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arain parod net** | **3** | **19,692,342** | **19,948,319** | **255,977** | **19,948,361** |

## Costau gweinyddu 2022-23

| Math o Variant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro o'igymharu agz Amcangyfrif arbediad/ (dros ben) | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddu** | **1.1** | **5,295** | **5,503** | **208** | **5,887** |

Er nad yw'n derfyn y pleidleisir arno ar wahân, bydd unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidleisio swm dros ben.

# Nodiadau i'r Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2022-23 (£000's)

## *SOPS1 Manylion alldro, fesul Llinell Amcangyfrif*

### SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro fesul llinell Amcangyfrif

| | Adnoddau Alldro | | | | | | | Amcangyfrif | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | Cyfanswm | | | | | |
| Math o Wariant (Adnoddau) | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net | | Cyfanswm | Trosglwyddiad | Cyfanswm yn cynnwys trosglwyddiadau | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif arbedion/ (dros ben) | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro Cyfanswm 2021-22 |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a Bleidleisiwyd** | | | | | | | | | | | | |
| A – Swyddfa Cymru | 5,394 | (99) | 5,295 | 25 | – | 25 | 5,320 | 5,564 | – | 5,564 | 244 | 5,964 |
| **Cyfanswm y DEL a bleidleisiwyd** | **5,394** | **(99)** | **5,295** | **25** | **–** | **25** | **5,320** | **5,564** | **–** | **5,564** | **244** | **5,964** |
| **Cyfanswm y gwariant yn y DEL** | **5,394** | **(99)** | **5,295** | **25** | **–** | **25** | **5,320** | **5,564** | **–** | **5,564** | **244** | **5,964** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | | | | |
| B – Darpariaethau ac Amhariadau | | | | – | – | – | – | 10 | – | 10 | 10 | (303) |
| **Cyfanswm y AME a bleidleisiwyd** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **10** | **–** | **10** | **10** | **(303)** |
| **Cyfanswm y gwariant yn y AME** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **10** | **–** | **10** | **10** | **(303)** |
| **Gwariant Anghyllidebol** | | | | | | | | | | | | |
| C – Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 17,209,376 | – | 17,209,376 | 17,209,376 | 17,465,076 | – | 17,465,076 | 255,700 | 17,878,273 |
| D – Talu Cyfraddau Treth Incwm Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 2,477,747 | – | 2,477,747 | 2,477,747 | 2,477,747 | – | 2,477,747 | – | 2,064,061 |
| **Cyfanswm y Gwariant Anghyllidebol** | **–** | **–** | **–** | **19,687,123** | **–** | **19,687,123** | **19,687,123** | **19,942,823** | **–** | **19,942,823** | **255,700** | **19,942,334** |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **5,394** | **(99)** | **5,295** | **19,687,148** | **–** | **19,687,148** | **19,692,443** | **19,948,397** | **–** | **19,948,397** | **255,954** | **19,947,995** |

## SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul llinell Amcangyfrif (£000's)

| Math o Wariant (Cyfalaf) | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro o'i gymharu ag Amcangyfrif o'r arbedion (dros ben) | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwn | Net | Cyfanswm | Trosglwyddiadau | Cyfanswm yn cynnwys | | |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a Bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| A – Cyfalaf | 39 | – | 39 | 72 | – | 72 | 33 | - |
| **Cyfanswm y DEL a Bleidleisiwyd** | **39** | **–** | **39** | **72** | **–** | **72** | **33** | **-** |
| **Cyfanswm y gwariant yn y DEL** | **39** | **–** | **39** | **72** | **–** | **72** | **33** | **73** |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **39** | **–** | **39** | **72** | **–** | **72** | **33** | **73** |

Mae'r colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw ailddyrannu darpariaeth yn yr Amcangyfrifon heb fod angen awdurdod seneddol (am nad yw'r Senedd yn pleidleisio i lefel manyldeb o'r fath ac yn dirprwyo i Drysorlys EM), mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn Llawlyfr Amcangyfrifon y Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk

Mae'r golofn alldro o'i gymharu ag amcangyfrif yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau. Mae'r cyfanswm amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi cael ei gynnwys fel bod defnyddwyr yn gallu cysylltu'r amcangyfrif yn ôl â'r Amcangyfrifon a gyflwynwyd gerbron y Senedd.

## SOPS2 Cysoni'r alldro â'r gwariant gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro £000 | Y Flwyddyn Flaenoro Cyfanswm Alldro 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau** | SOPS 1.1 | | |
| Cyllidebt | | 5,320 | 5,661 |
| Anghyllidebol | | 19,687,123 | 19,942,334 |
| **Cyfanswm** | | **19,692,443** | **19,947,995** |
| Ychwanegu: Grant cyfalaf mewn nwyddau | | – | 5,000 |
| **Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr** | SOCNE | **19,692,443** | **19,952,995** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r Datganiad Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SoPS), caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond sy'n wahanol iddyn. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau â'r gwariant gweithredu net, ac yn cysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol.

Cyllidebir ar gyfer grantiau cyfalaf fel CDEL ond cyfrifir amdanynt fel gwariant ar wyneb y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac felly maent yn gweithredu fel eitem gysoni rhwng gwariant Adnoddau a gwariant gweithredu net. Yn 2021-22, gwnaed £5 miliwn o grant cyfalaf mewn nwyddau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar ffurf trosglwyddo tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol.

## SOPS3 Cysoni'r Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro | Amcangyfrif | Alldro o'i gymharu ag arbediad/ (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfanswm alldro Adnoddau** | **SOPS1.1** | **19,692,443** | **19,948,397** | **255,954** |
| **Cyfanswm alldro Cyfalaf** | **SOPS1.2** | **39** | **72** | **33** |
| *Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisiant | | (366) | (407) | (41) |
| Eitemau anariannol eraill | | (42) | (52) | (10) |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | | 38 | – | (38) |
| Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | (70) | – | 70 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau credydwyr | | 300 | 309 | 9 |
| Cyfanswm | | (141) | 150 | 9 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **19,692,342** | **19,948,319** | **255,977** |

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, ac nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau a chyfalaf â'r gofyniad arian parod net.

# SOPS4 Swm o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

## SOPS4.1 Dadansoddiad o'r Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ychwanegol at incwm a gedwir gan yr adran mae'r incwm a ganlyn yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.(derbyniadau arian parod wedi'u dangos mewn print italig).

| Eitem | Alldro | | Blaenorol Blwyddyn 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|
| | Croniadau | Sail arian parod | Croniadau | Sail arian parod |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm y tu allan i ffiniau'r Amcangyfrif Blaendaliadau Etholiad y Cynulliad a Gollwyd | – | – | – | – |
| **Cyfanswm yr Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **–** | **–** | **–** | **–** |

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru pan oedd yn gweithredu fel asiant i'r Gronfa Gyfunol yn hytrach na phrif bartner. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi'u heithrio o'r datganiadau ariannol hyn) yw:

Dangosir yr incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y tabl isod

| | Alldro Cyfanswm | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2021-22 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Benthyciadau i Fyfyrwyr | 48,631 | 37,300 |
| Benthyciad Pont Cleddau | 0 | 0 |
| Tai Cymru Illog | 4 | 8 |
| Llog Banc | 8 | 7 |
| Arall | 4 | 103 |
| **Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **48,647** | **37,418** |
| Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol | – | – |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 48,647 | 37,418 |
| Balansau a ddelid ar ymddiriedaeth ddiwedd y flwyddyn | – | – |

Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2023 oedd:

| | Alldro Cyfanswm | Y Flwyddyn Flaenorol Alldro 2021-22 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o 2021-22 | | 37,418 |
| Incwm o 2022-23 | 48,647 | |
| | **48,647** | **37,418** |

## 3. Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

(Mae'r adrannau canlynol yn destun archwiliad)

### 3.1 Colledion a Thaliadau Arbennig

Nid yw Swyddfa Cymru wedi colli neu wedi gwneud taliadau arbennig yn 2022-23 (2021-22 Dim).

### 3.2 Taliadau Eraill

Nid yw Swyddfa Cymru wedi gwneud unrhyw daliadau sylweddol i mewn 2022-23 (2021-22 Dim).

### 3.3 Ffioedd a Thaliadau

Nid oedd gan Swyddfa Cymru unrhyw ffioedd a thaliadau yn 2022-23. (2021-22 dim).

### 3.4 Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol pell.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**12 Gorffennaf 2023**

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru ('yr Adran') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau'r Adran:

- Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu o bwys.

Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith gymwys a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu yn y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2023 a'i gwariant gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisiwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; a
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs y DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 y ddogfen *Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022).* Ceir disgrifiad pellach o'm

cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran *Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy* adroddiad.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y* Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar Adran yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr Adrannau o'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Adrannau i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Caiff y sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ei mabwysiadu ar gyfer yr Adrannau wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nac ychwaith fy nhystysgrif a'm hadroddiad fel archwilydd. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad, neu yn ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn faterol.

Os wyf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Adran a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- Na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan yr Adran neu os na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu

- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nad yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys ei Fawrhydi.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn yr Adran y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith fel y bernir sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi'r datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau materol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a Staff, yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu'r Adran i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad materol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

## Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Lluniaf weithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

## Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau cam-ddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Adran;
- holodd y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Adran a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Adran ar:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll; a'r
    - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Adran sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth yr Adran â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Rheoli Arian Cyhoeddus a'r Cyflenwad a Deddf Neilltuo (Prif Amcangyfrifon) 2022; a
- holodd y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Adran a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a oedd hynny:
    - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
- discussed with the engagement team regarding how and where fraud might occur in the financial statements and any potential indicators of fraud.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn yr Adran ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod gwariant, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth, a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn gyffredin â phob archwiliad o dan ISAs (DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Adran a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Adran yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Adran. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2022, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth treth.

## Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;

- Holais y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profais briodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau ar amcangyfrifon yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes; a rhoddais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Cyfleais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm ymgysylltu ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o'r Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol y pleidleisir arnynt yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb fod yn Gyllideb (Adnodd) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio o bwys, ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Adran yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies** **13 Gorffennaf 2023**
**Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 3 Datganiadau Ariannol

## Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchir ac a ddefnyddir ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill nad oes modd eto'u cydnabod yn incwm neu wariant.

| | Nodyn | 2022-23<br>Adran Graidd<br>£000 | 2021-22<br>Adran Graidd<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | (99) | (99) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | (99) | (99) |
| Costau Staff | 2 | 3,592 | 3,428 |
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | 2 | 564 | 1,273 |
| Dibrisiant a thaliadau amhariad | 2 | 366 | 45 |
| Grantiau cyfalaf mewn nwyddau i Adrannau eraill y Llywodraeth | 2 | – | 5,000 |
| Gwariant gweithredu arall | 2 | 872 | 986 |
| Talu i Gronfa Gyfunol Cymru | 2 | 19,687,123 | 19,942,334 |
| Treuliau Arglwydd Raglawiaid | 2 | 25 | 28 |
| Llog NLF yn daladwy | | 2,360 | 2,419 |
| Llog NLF yn dderbyniadwy | | (2,360) | (2,419) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **19,692,542** | **19,953,094** |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | **19,692,443** | **19,952,995** |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | | |
| **Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r costau gweithredu net:** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | (2) |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **19,692,443** | **19,952,993** |

Mae'r holl incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 110 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
# As 31 Mawrth 2023

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif gydran: asedau a berchnogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gweddill gwerth yr endid.

| | | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 100 | 106 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 5 | 4,678 | – |
| Asedau ariannol | 8 | 213,155 | 67,609 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | 217,933 | 67,715 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 4,969 | 2,855 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 6 | 69 | 28 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 5,038 | 2,883 |
| **Cyfanswm asedau** | | **222,971** | **70,598** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 10 | (5,953) | (3,455) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | (5,953) | (3,455) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol net** | | **217,018** | **67,143** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (4,398) | – |
| Rhwymedigaethau ariannol | 10 | (213,155) | (67,609) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol*** | | (217,553) | (67,609) |
| **Asedau llai'r rhwymedigaethau** | | **(535)** | **(466)** |
| **Cyfanswm ecwiti** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | (537) | (470) |
| Y gronfa ailbrisio wrth gefn | | 2 | 4 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **(535)** | **(466)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 110 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



**Glynne Jones CBE**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**12 Gorffennaf 2023**

## Datganiad Llifau Arian
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Mae'r Datganiad Llifau Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn yr adran yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r datganiad yn dangos sut y bydd yr adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod drwy gategoreiddio llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.

Mae swm y llifau arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth ac i ba raddau y mae'r gweithrediadau hyn yn cael eu hariannu drwy gyfrwng incwm derbynwyr gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y mae'r llifau arian i mewn ac allan wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2022-23 £000 | 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOCNE | (19,692,443) | (19,952,995) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 2 | 408 | 5,010 |
| Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (2,114) | 13 |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr*[1] | 9 | 2,076 | 52 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 10 | 152,442 | (2,686) |
| *Llai: Symudiadau yn y symiau taladwy sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr* | 10 | (152,372) | 2,475 |
| *Defnydd o Ddarpariaethau* | 11 | – | (230) |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu*** | | **(19,692,003)** | **(19,948,361)** |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (29) | 0 |
| Ad-daliadau benthyciad gan gyrff eraill (cyfalaf) | 9 | 2,476 | 2,417 |
| Ad-daliadau benthyciad gan gyrff eraill (llog) | SOCNE | 2,360 | 2,419 |
| ***Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | **4,807** | **4,836** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn Gyfredol[2] | | 19,692,373 | 19,948,309 |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn flaenorol | | – | – |
| Blaendaliadau o'r Gronfa Wrth Gefn | | 150 | – |
| Ad-daliadau i'r Gronfa Wrth Gefn | | (150) | – |
| Talu rhwymedigaethau Prydles[5] | | (344) | – |
| Tâl cyllid ar brydlesi[5] | 2 | 44 | – |
| Ad-dalu benthyciadau gan yr NLF (cyfalaf)[3] | 9 | (2,476) | (2,417) |
| Ad-dalu benthyciadau gan yr NLF (llog)[3] | SOCNE | (2,360) | (2,419) |
| ***Ariannu net*** | | **19,687,237** | **19,943,473** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 6 | **41** | **(52)** |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran | | 48,647 | 37,418 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol[4] | | (48,647) | (37,418) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl eu haddasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 6 | **41** | **(52)** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 6 | **28** | **80** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 6 | **69** | **28** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 110 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

1. Mae'r symudiadau'n cynnwys: balansau adrannol gyda'r Gronfa Gyfunol: a symiau taladwy sy'n gysylltiedig ag ariannu – benthyciadau'r NLF (prifswm a llog), dyledwyr cyfalaf, a phrydlesi.
2. Dyma'r swm a dderbyniwyd o'r Gronfa Gyfunol yng nghyswllt y flwyddyn gyfredol.
3. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau a ad-dalwyd gan endidau ar gyfer eu trosglwyddo ymlaen i'r NLF a llog a dderbyniwyd gan endidau i'w trosglwyddo i'r NLF.
4. Arian parod a dalwyd drosodd i'r Gronfa Gyfunol dan unrhyw gategori.
5. Symud oherwydd cyflwyno IFRS 16.

## Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y fl wyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y fl wyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan Swyddfa Cymru wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyff redinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu'r newid yng ngwerthoedd yr asedau nad ydynt wedi cael eu cydnabod yn incwm nac yn wariant. Mae'r Gronfa Gyff redinol yn adlewyrchu cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau adran, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi'i gynrychioli gan gronfeydd cadw eraill ac eitemau ariannu.

| | Nodyn | Cronfa Gyffredinol £000 | Gwarchodfa Ailbrisio £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | | **527** | **3,605** | **4,132** |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| – Tynnwyd i lawr | SCF | 19,948,309 | – | 19,948,309 |
| – Tybiwyd | 9 | 80 | – | 80 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 9 | (28) | – | (28) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (19,952,995) | – | (19,952,995) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Taliadau i'r Archwilydd | 2 | 34 | – | 34 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | 2 | 2 |
| – Arall | | – | – | 0 |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 3,603 | (3,603 ) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(470)** | **4** | **(466)** |
| **Balans at 1 Ebrill 2022** | | **(470)** | **4** | **(466)** |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| – Tynnwyd i lawr | SCF | 19,692,373 | – | 19,692,373 |
| – Tybiwyd | 10 | 28 | – | 28 |
| Cyflenwad heb ei Wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (69) | – | (69) |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (19,692,443) | – | (19,692,443) |
| **Taliadau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Taliadau i'r Archwilydd | 2 | 42 | – | 42 |
| **Symudiadau Eraill yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Eiddo, Offer a Chyfarpar | | – | – | – |
| - Arall | | – | – | – |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 2 | (2) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(537)** | **2** | **(535)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 93 i 110 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

## 1a) Datganiad polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2022-23 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn FReM yn dilyn Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Pan fydd y FReM yn caniatáu dewis o ran polisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y tybiwyd iddo fod yr un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru ('y Swyddfa') at ddiben rhoi darlun cywir a theg wedi'i ddewis. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Swyddfa wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau a ystyriwyd yn berthnasol yng nghyswllt y cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa baratoi un datganiad sylfaenol arall. Mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol yn adrodd ar yr alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adran Atebolrwydd Seneddol yn yr adroddiad hwn.

Arian cyfred swyddogaethol a chyflwyniadol y Swyddfa yw'r Bunt Sterling Brydeinig (£).

### 1.2 Busnes byw

Mae'r cyfrifon ar gyfer 2022-23 wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw, y cyfnod yr ystyrir ei fod yn 12 mis o gymeradwyo'r cyfrifon hyn hyd at fis Gorffennaf 2024. Mae gan yr Adran sail statudol i'w swyddogaeth a chyllid cysylltiedig ac nid oes rheswm pam na fyddai hyn yn parhau. Yn yr un modd ag Adrannau eraill y Llywodraeth, bydd cyllid rhwymedigaethau'r Adran yn y dyfodol yn cael ei dalu gan grantiau Cyflenwi ac Incwm yn y dyfodol, y naill a'r llall i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Cafodd y cyllid diweddaraf hyd at 31 Mawrth 2024 ei gymeradwyo ar 18 Mai 2023. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, y lefelau cyllid disgwyliedig oedd y rhai a gynhwyswyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Mae'r sail cyfrifyddu busnes byw ar gyfer yr Adran yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Llywodraeth Trysorlys EF sy'n mynnu bod endidau'n mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle'r oedd yn rhagweld y byddai'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau. Am y rhesymau uchod, ystyriwyd ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes byw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

## 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y Cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried lle bo'n berthnasol ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

## 1.4 Safonau cyfrifyddu newydd a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, mae'r Swyddfa wedi mabwysiadu IFRS 16. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 1.8.

## 1.5 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod y Swyddfa yn darparu un swyddogaeth ac, o ran adroddiadau IFRS, ystyrir ei bod yn un segment gweithredu.

## 1.6 Eiddo, offer a chyfarpar

### *Sail prisio*

Mae asedau ar ffurf eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu nodi ar sail gwerth teg. Pan gânt eu cydnabod i ddechrau mae asedau o'r fath yn cael eu mesur ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau a briodolir yn uniongyrchol i'r gwaith o sicrhau eu bod mewn cyflwr sy'n gweithio.

Nid oes gan y Swyddfa unrhyw dir ac asedau adeiladu.

### *Dull prisio*

Bydd asedau nad ydynt yn eiddo'n cael eu cynnwys ar sail eu cost adeg eu prynu ac fe'u hailddatgenir os yn berthnasol ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Cynnyrch a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### *Ailbrisio*

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu yn sgil ailbrisio, bydd y cynnydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr i'r graddau ei fod yn gwrthdroi gostyngiad ailbrisio ar yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn ecwiti'r Trethdalwyr.

Pan fydd swm cario ased yn gostwng (ac eithrio yn sgil lleihad parhaol), bydd y gostyngiad yn cael ei gydnabod yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r graddau bod balans ar gyfer yr ased hwnnw. Bydd unrhyw ostyngiad pellach sy'n fwy na'r gwargedau ailbrisio'n cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net.

Bob blwyddyn, mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant ar sail swm cario wedi'i ailbrisio'r ased a godir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a dibrisiant ar sail cost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

### *Trothwy cyfalafu – asedau unigol*

Trothwy cyfalafu asedau unigol Swyddfa Cymru yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

### *Trothwy cyfalafu – asedau wedi'u grwpio*

Mae gan y Swyddfa gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi'u cyfalafu.

Bydd y Swyddfa yn rhoi trothwy cyfalafu ar waith ar gyfer asedau wedi'u grwpio o £10,000 (gan gynnwys TAW).

### *Dibrisiant*

Priodolir dibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu gwerth asedau llai'r amcangyfrif o'r gwerth gweddilliol yn gyson dros eu hoes fuddiol yn ôl yr amcangyfrifon neu ar gyfer asedau sydd dan les, dros oes y les neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Bydd oes fuddiol asedau neu gategorïau o asedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu trafod gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod goblygiadau cyllidebu wedi'u hystyried yn briodol. Os cytunir ar newid i oes ased, bydd yr ased yn cael ei dibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei hoes yn unol â'r asesiad. Bydd y dibrisio'n cychwyn yn y mis ar ôl caffael ased anghyfredol ar gyfer tir, adeiladau ac anheddau ac yn ystod y mis ar gyfer pob ased anghyfredol arall.

Amcangyfrifir oes fuddiol asedau o fewn yr ystodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Asedau wedi'u grwpio | Amrywiol ac yn dibynnu ar y mathau o asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 3 i 15 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 3 i 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Pa un bynnag yw'r byrraf – gweddill cyfnod y les neu 5 i 20 mlynedd |
| Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Ni chânt eu dibrisio |

Bydd y gwerthoedd cario'n cael eu hadolygu ar gyfer eu lleihau os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dangos nad yw'r gwerth cario o bosibl yn un y gellir ei adfer. Os pennir bod gwerth ased wedi gostwng, bydd hynny'n cael ei gofnodi ar unwaith a'i ostwng i'r swm adferadwy.

### *Gwaredu asedau anghyfredol*

Bydd enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol yn cael eu pennu drwy gymharu'r elw â'r swm cario ac fe'u cydnabyddir o fewn costau Gweinyddu, fel sy'n briodol yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

Pan werthir asedau sydd wedi'u hailbrisio, bydd y symiau sydd wedi'u cynnwys yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.7 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

Bydd asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o fewn eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol ac ni fydd y rhain yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Ni fydd ased yn cael ei chategoreiddio'n ased sydd wrthi'n cael ei hadeiladu pan fydd yn barod i'w defnyddio. Yna, bydd ei gwerth cario'n cael ei dynnu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Bydd y dibrisio neu'r amorteiddio wedyn yn cael ei briodoli i'r ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu datganedig.

Caiff gwariant ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio. Os ystyrir nad oes modd priodoli gwariant i'r ased, caiff ei gostio i'r Datganiad Cynhwysfawr.

Yn 2022-23, nid oedd gan y Swyddfa unrhyw asedau wrthi'n cael eu hadeiladu.

## 1.8 Lesoedd - cyn 1 Ebrill 2022

### *Lesoedd cyllidol*

Nid oedd gan Swyddfa Cymru unrhyw les gyllidol.

### *Lesoedd gweithredu*

Mae lesoedd lle bydd y risgiau a'r gwobrwyon i gyd yn eu hanfod yn rhai sy'n cael eu dal gan y lesydd yn cael eu categoreiddio'n les weithredu. Bydd lesoedd gweithredu ar rent yn cael eu priodoli i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

## 1.8a Lesoedd - o 1 Ebrill 2022 ymlaen

Ers 1 Ebrill 2022, mae'r Swyddfa wedi mabwysiadu IFRS 16 "Lesoedd", yn unol â FReM.

Mae IFRS 16 yn cynrychioli newid sylweddol mewn cyfrifyddu ar gyfer lesddeiliaid drwy ddileu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredol (cyllido'r sefyllfa ariannol oddi ar y datganiad) a lesoedd cyllid (ar ddatganiad o ariannu sefyllfa ariannol) a chyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer lesddeiliaid.

Mae IFRS 16 yn gofyn am gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, gydag eithriad yn cael ei roi i lesoedd gwerth isel a lesoedd tymor byr. Mae mabwysiadu'r safon yn arwain at gydnabod ased hawl i ddefnyddio, sy'n cynrychioli'r hawl i ddefnyddio'r ased sylfaenol a lesiwyd a rhwymedigaeth les, sy'n cynrychioli rhwymedigaeth i wneud taliadau les.

### *Cydnabyddiaeth gychwynnol*

Mae'r Swyddfa wedi mabwysiadu IFRS 16 ar sail dal i fyny cronnus fel sy'n ofynnol yn FReM, ac felly bydd unrhyw effaith gronnus ar ganlyniadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei chydnabod mewn ecwiti ar ddechrau'r cyfnod. O'r herwydd, ni fydd gwybodaeth gymharol y flwyddyn flaenorol yn cael ei hailddatgan ac mae Nodyn 1.8 yn berthnasol

ar gyfer y flwyddyn flaenorol. O dan y rheolau ‘gwaddol’ sy’n ofynnol yn FReM ar gyfer y newid cychwynnol i IFRS 16, bydd rhwymedigaeth les ac ased hawl i ddefnyddio yn cael eu cydnabod ar gyfer yr holl lesoedd perthnasol nad oeddent yn cael eu cydnabod yn flaenorol fel lesoedd cyllid at ddibenion cyfrifyddu o dan IAS 17.

Mae’r diffiniad o gontract yn cael ei ehangu i gynnwys cytundebau o fewn Llywodraeth y DU lle mae’n bosibl nad oes modd gorfodi diffyg perfformiad drwy gyfraith. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, cytundebau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

## *Mesur asedau hawl i ddefnyddio*

### *Yn ystod y cyfnod pontio*

I ddechrau, mae’r ased hawl i ddefnyddio yn cael ei fesur ar swm sy’n hafal i’r rhwymedigaeth lesoedd wedi’i haddasu yn ôl swm unrhyw les wedi’i thalu ymlaen llaw neu wedi cronni sy’n berthnasol i’r rheini sy’n cael eu cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol yn union cyn y data ar y dechrau.

### *Mesur dilynol*

Mae asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur wedyn yn unol â dosbarth yr ased eiddo, offer a chyfarpar y mae’r les yn berthnasol iddo. Defnyddir y model cost ar gyfer IFRS 16 fel procsi ar gyfer prisio ac eithrio:

- Contract tymor hwy nad oes ganddo unrhyw ddarpariaethau i asesu taliadau les ar gyfer amodau’r farchnad
- Pan fo cryn dipyn o amser rhwng yr asesiadau hyn
- Pan fo prisio’r ased sylfaenol yn debygol o amrywio’n sylweddol oherwydd newidiadau ym mhrisiau’r farchnad.

### *Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio*

Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu dibrisio ar sail llinell syth o’r dyddiad cychwyn i’r cynharaf o ddiwedd:

- Oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnyddio, a asesir fel yr un fath â dosbarth yr ased eiddo, offer a chyfarpar y mae’r les yn berthnasol iddo
- Cyfnod y les

## *Mesur rhwymedigaeth lesoedd*

### *Rhwymedigaethau lesoedd wrth drosglwyddo*

Ar y dechrau, mae rhwymedigaeth y les yn cael ei mesur ar sail gwerth presennol gweddill taliadau'r les gan ddefnyddio'r gyfradd fenthyca gynyddrannol ar y diwrnod cyntaf. Y gyfradd fenthyca gynyddrannol yw naill ai:

- Y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les
- Cyfradd ddisgownt Trysorlys EF lle nad oes modd pennu'n rhwydd y cyfraddau llog sydd ymhlyg yn y les.

Mae taliad y les yn cael ei fesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Mae'n cael ei ail-fesur pan fydd newid yn y taliadau les yn y dyfodol sy'n deillio o newid yn y mynegai neu'r gyfradd.

Mae taliadau les sydd wedi'u cynnwys wrth fesur atebolrwydd y les yn cynnwys y canlynol: Taliadau sefydlog, gan gynnwys taliadau sefydlog mewn sylwedd.

Pan fydd rhwymedigaeth y les yn cael ei hailfesur, gwneir addasiad cyfatebol i'r ased hawl i ddefnyddio neu ei gofnodi yn y SoCNE os yw swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio yn £dim.

Mae lesoedd newydd yn cael eu mesur yn y ffordd a nodir uchod.

### *Effaith y safon newydd*

Nododd y Swyddfa ddau gytundeb y Llywodraeth sy'n bodloni'r diffiniad uchod o les. Y cytundebau yw Memorandwm Telerau Galwedigaethau (MOTOs) gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA) ar gyfer Tŷ Gwydyr (Swyddfa Llundain) a chyda CThEF ar gyfer mannau penodol yng Nghanolfan Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd.

Mae effaith IFRS 16 ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 1 Ebrill 2022 ac ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 i'w gweld yn nhablau 1 a 2 isod:

Defnyddiodd y Swyddfa gyfradd fenthyca fewnol ganolog Trysorlys EF, sef 0.95% wrth drosglwyddo i IFRS 16 ar gyfer y Swyddfa.

## Effaith ar y SoFP sy'n deillio o fabwysiadu IFRS 16

### *Tabl 1*

***Effaith ar y SoFP sy'n codi o IFRS 16***

| Disgrifiad | 1 Ebrill 2022 £,000 |
|---|---|
| Asedau hawl defnyddio a gychwynnwyd ar 1 Ebrill 2022 (NBV) | 4,999 |
| **Cyfanswm** | **4,999** |
| Rhwymedigaethau les a gychwynnwyd ar 1 Ebrill 2022 | 4,999 |
| **Cyfanswm** | **4,999** |

### *Tabl 2*

***Effaith ar y SoCNE sy'n deillio o IFRS 16***

| Disgrifiad | 2022-23 £,000 | 2021-22 £,000 | Cynnydd/ Gostyngiad disgwyliedig £,000 |
|---|---|---|---|
| Dibrisiant asedau | 321 | 0 | 321 |
| Costau llog rhwymedigaethau lesoedd â disgownt | 44 | 0 | 44 |
| IAS 17 taliadau rhent sail | 0 | 356 | (356) |
| **Cyfanswm** | **365** | **356** | **9** |

### *Tabl 3*

***Cysoni'r ymrwymiadau Prydles Weithredol o dan IAS 17 ar 31 Mawrth 2022 i Atebolrwydd Prydles a gyfrifwyd o dan IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022***

| Disgrifiad | £,000 |
|---|---|
| Ymrwymiadau Prydles Gweithredu ar 31 Mawrth 2022 | 5,657 |
| Disgownt gan ddefnyddio cyfraddau disgownt | (371) |
| Addasiad ar gyfer TAW anadferadwy a adroddwyd o fewn IAS 17 | (287) |
| **Atebolrwydd Prydles ar 1 Ebrill 2022** | **4,999** |

### *Lesydd*

Pan fydd y Swyddfa'n gweithredu fel lesydd, mae'n penderfynu ar ddechrau'r les a yw pob les yn les gyllidol neu weithredol.

I ddosbarthu pob les, mae'r Swyddfa'n asesu'n gyffredinol a yw'r les yn trosglwyddo'r holl risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ar yr ased sylfaenol. Os felly, yna les gyllidol yw'r les. Os nad yw, yna les weithredol ydyw.

Mae'r Swyddfa'n cydnabod taliadau les o dan les weithredol fel incwm ar sail llinell syth dros hyd telerau'r les.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sy'n berthnasol i'r lesydd wedi'u newid i raddau helaeth gan IFRS 16.

## 1.9 Buddsoddiadau

### *Cronfa'r Benthyciadau Gwladol (NLF)*

Bydd rhagdaliadau gan Gronfa'r Benthyciadau Gwladol (NLF) yn cael eu trin yn fenthyciadau a'u datgelu ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan yr NLF a fenthycwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Yna, fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd y Bwrdd yn 1998. Ar ôl diddymu Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a'r llog ac fe'i priodolir i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd y symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru yn cael eu hildio i'r NLF. Bydd balansau benthyciadau sydd heb eu talu'n cael eu cynnwys yn y symiau Masnach a Symiau Taladwy Eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

O dan adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall Llywodraeth Cymru fenthyg hyd at £1bn ar gyfer gwariant cyfalaf.

## 1.10 Buddion i weithwyr

### *Gwyliau wedi'u cronni*

O dan IAS 19 Buddion i Weithwyr, bydd gwyliau blynyddol a gwyliau hyblyg sydd heb eu cymryd yn cronni. Ni fydd bonysau am berfformiad yn cael eu cronni oherwydd ni fydd y broses arfarnu flynyddol sy'n pennu cyflogau ar sail perfformiad wedi'i chwblhau adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

### *Pensiynau*

Mae gweithwyr y gorffennol a'r presennol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae'r cynlluniau buddion diffiniedig heb eu hariannu.

Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod pan fydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS y symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei phriodoli i'r PCSPS. Gyda golwg ar y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

*Costau ymadael yn gynnar*

Nid yw Swyddfa Cymru yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r staff i gyd naill ai'n staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n staff Llywodraeth Cymru a chyfrifoldeb yr Adrannau hyn yw talu costau ychwanegol y buddion y tu hwnt i PCSPS arferol staff sy'n ymddeol yn gynnar. O dan amgylchiadau penodol, lle bydd Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, mae costau ymadael yn gynnar yn cael eu darparu'n llawn ar y pwynt y mae'r cytundeb yn eu cyfrwymo. Mae'r llifau arian sydd â'r risg wedi'u haddasu yn ôl yr amcangyfrif yn cael eu disgowntio drwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EF mewn termau real os ydynt yn berthnasol.

## 1.11 Incwm gweithredu

Mae incwm gweithredu yn cynnwys incwm a briodolwyd er mwyn gwrthbwyso gwariant cysylltiedig ac incwm sy'n cael ei ildio ar ôl ei dderbyn i Dderbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol.

Mae refeniw'r Adran ar gyfer 2022-23 yn incwm rhent tymor byr a dderbyniwyd gan Adrannau eraill y Llywodraeth ar gyfer lle a rennir yn ein Swyddfa yn Llundain.

## 1.12 Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFERs)

Mae balansau CFERs yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau, oni ddywedir yn wahanol. Mae'r rhain yn berthnasol yn bennaf i symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru sydd wedi'u dynodi gan y Trysorlys o dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir y symiau hyn gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau drwy adfer blaendaliadau a gollwyd o etholiadau'r Cynulliad. Bydd Swyddfa Cymru yn talu'r symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol y DU.

## 1.13 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Mae'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant ar weinyddu ar gyfer costau cynnal Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant ar raglenni ar gyfer treuliau'r Arglwydd Raglawiaid a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.14 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Swyddfa Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, ac mae'n debygol y bydd all-lif o fuddion economaidd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar gyfer swm y rhwymedigaeth.

Mae'r darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Os bydd effaith y disgowntio'n berthnasol, bydd y darpariaethau'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth presennol, gan ddefnyddio'r wir gyfradd a bennir gan Drysorlys EF.

Nid oedd gan Swyddfa Cymru unrhyw ddarpariaethau yn 2022-23.

## 1.15 Treth ar Werth (TAW)

Priodolir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghostau pryniant wedi'u cyfalafu'r asedau anghyfredol. Lle codir treth wrth werthu neu lle bydd treth wrth brynu yn adferadwy, bydd y symiau'n cael eu datgan net o TAW.

## 1.16 Offerynnau ariannol

Mae IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i endid gydnabod ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol yn ei Ddatganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd yn dod yn barti i ddarpariaethau contract yr offeryn. Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi yn sgil contractau ar gyfer prynu a gwerthu eitemau anariannol (megis nwyddau neu wasanaethau), a drefnir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan, ac i'r graddau y bydd y perfformiad yn digwydd. Bydd pob ased a rhwymedigaeth ariannol arall yn cael ei chydnabod pan fydd Swyddfa Cymru yn dod yn barti i ddarpariaethau contract i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Bydd rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dadgydnabod pan fydd y contract sydd wedi arwain atynt yn cael ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu pan fydd yn dod i ben.

### *Asedau Ariannol*

#### *Benthyciadau a symiau derbyniadwy*

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn cynnwys symiau masnach derbyniadwy, symiau derbyniadwy eraill a benthyciadau sydd â thaliadau sefydlog neu derfynol nad ydynt yn cael eu nodi mewn marchnad weithredol. Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac wedyn cânt eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol net o unrhyw amhariad. Caiff llog ei gydnabod drwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol. Mae'r gyfradd llog effeithiol yn ddull o gyfrifo cost ased ariannol wedi'i hamorteiddio a dyrannu'r refeniw neu'r gost llog dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio'r amcangyfrif o'r llifoedd arian yn y dyfodol.

Mae IFRS 9 yn ei gwneud yn ofynnol i endid gynhyrchu model colled amhariad ddisgwyliedig ar gyfer yr offerynnau ariannol a ddelir. O dan FReM, sy'n cyd-fynd ag adrannau craidd y llywodraeth ganolog, mae Cronfeydd Trysorlys y Llywodraeth (gan gynnwys Cronfeydd y Benthyciadau Gwladol) wedi'u heithrio rhag cydnabod namau.

Y prif offeryn ariannol yw'r benthyciadau o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol. Nid oes lwfans colled i'r benthyciadau hyn gan na ellir gwneud benthyciadau NLF oni bai fod disgwyliad rhesymol y byddant yn cael eu gwasanaethu a'u had-dalu ar y dyddiadau dyledus gan nad yw'r NLF yn gyfreithlon yn cael gwneud colled (a5 (3) Deddf Benthyciadau Gwladol 1968).

Mae Swyddfa Cymru, sy'n gweithredu fel yr Adran Nawdd, yn darparu llythyr gwarant wedi'i lofnodi gan ei Chyfarwyddwr, i Gyfrifydd y Trysorlys yn Nhrysorlys Ei Fawrhydi, yn sefyll y tu ôl i'r holl fenthyciadau NLF a wnaed i Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau y bydd y Gronfa yn cael ei had-dalu'n llawn gan Swyddfa Cymru rhag ofn y bydd Llywodraeth Cymru'n methu. Mae hyn i bob pwrpas yn golygu y bydd benthyciadau'r Gronfa yn cael eu had-dalu o Amcangyfrif yr Adran.

### *Arian parod a chyfwerth ag arian parod*

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gedwir ar alwad gyda banciau, buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n hylifol iawn, gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

### *Rhwymedigaethau Ariannol*

#### *Masnach a symiau taladwy eraill*

Mae rhwymedigaethau ariannol mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg, sef y swm gwreiddiol a anfonebwyd fel arfer.

#### *Benthyciadau*

Caiff benthyciadau eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ynghyd â chostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol.

## 1.17 Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu sylweddol

Mae'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac fe'u seilir ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

#### *Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu critigol*

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am ddefnyddio dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a gofnodwyd ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau incwm a gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Nid oes unrhyw amcangyfrifon a thybiaethau wedi'u hadrodd sydd â risg sylweddol o achosi addasiad perthnasol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 1.18 Rhoi safonau cyfrifyddu newydd nad ydynt yn weithredol eto ar waith cyn bo hir

Gallai'r safonau, dehongliadau a diwygiadau newydd a ganlyn, sydd wedi cael eu mabwysiadu gan yr UE ond nad ydynt yn weithredol eto, gael effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol:

### *IFRS 17 Contractau Yswiriant*

Mae IFRS 17 Contractau Yswiriant yn disodli IFRS 4 sydd â'r un enw. Bydd y safon newydd yn defnyddio gofynion mwy safonol a thrwyadl ar gyfrifyddu ar gyfer contractau yswiriant. Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach o ran nodi, categoreiddio a mesur asedau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Ni fwriedir gweithredu IFRS 17 tan 2025, ac mae Trysorlys EF eisoes yn ystyried ei rhoi ar waith yn y sector cyhoeddus. Ni fydd IFRS 17 yn cael unrhyw effaith ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol.

## 2. Gwariant

| | 31 Mawrth 2023<br>£000 | 31 Mawrth 2022<br>£000 |
|---|---|---|
| ***Costau Staff:** | | |
| Cyflogau Wythnosol a Misol | 2,723 | 2,654 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 274 | 235 |
| Costau Pensiwn Eraill | 595 | 539 |
| **Nwyddau a Gwasanaethau:** | | |
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfl eustodau | 564 | 1,273 |
| Cyfathrebu, cyfl enwadau swyddfa a gwasanaethau | 52 | 56 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredu: tir ac adeiladau | - | 587 |
| Llogi Ceir Swyddogol | 126 | 53 |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiwn nad ydynt yn wasanaethau) | 46 | 32 |
| Gwasanaethau eraill sy'n cael eu contracti o allan | 13 | 13 |
| Gwasanaethau proff esiynol | 42 | 28 |
| Teithio a chynhaliaeth | 157 | 60 |
| Hyff orddiant a chostau eraill sy'n gysyllti edig â staff | 32 | 19 |
| Ffiedd a thaliadau banc | 3 | 3 |
| Gwariant arall ar weinyddu | 19 | 9 |
| Digwyddiadau a Chynadleddau | 12 | 7 |
| Dyrannu gorbenion | 284 | 154 |
| Treuliau Arglwydd Raglawiaid | 25 | 28 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Dibrisiant | 366 | 49 |
| Ailbrisio/Amhariad | – | (4) |
| **Grantiau cyfalaf mewn nwyddau i Adrannau eraill y Llywodraeth | – | 5,000 |
| ***Taliadau a threuliau archwilwyr | 42 | 34 |
| Darpariaethau wedi eu hysgrifennu yn ôl | – | (69) |
| Costau cyllid ar brydlesi | 44 | – |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | | |
| Talu i Gronfa Gyfunol Cymru | 19,687,123 | 19,942,334 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | **19,692,542** | **19,953,094** |

* Mae dadansoddiad pellach o gostau staff wedi'i leoli yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalen 65).

** Mae'r grant cyfalaf mewn nwyddau yn 2021-22 yn ymwneud â throsglwyddo Tŷ Gwydyr Swyddfa Llundain i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Nid yw trosglwyddo asedau yn cael unrhyw effaith ar gyllideb Swyddfa Cymru, gydag ochr arall y trosglwyddiad yn cael ei thrin fel gwarediad cyfalaf (incwm). Gweler Nodyn 2 SOPS.

*** Ni brynodd Swyddfa Cymru unrhyw wasanaethau heblaw archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. (2021-22 dim).

## 3. Incwm

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Incwm rhent | 99 | 99 |
| **Cyfanswm Incwm** | **99** | **99** |

## 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2022-23** | | | | |
| **Cost neu brisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 35 | 100 | 222 | 357 |
| Ychwanegiadau | 10 | 29 | – | 39 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **45** | **100** | **222** | **396** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 April 2023 | (18) | (35) | (198) | (251) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | (5) | (16) | (24) | (45) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(23)** | **(51)** | **(222)** | **(296)** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 March 2023** | **22** | **78** | **–** | **100** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 1 April 2022** | **17** | **65** | **24** | **106** |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | **22** | **78** | **–** | **100** |

Nid oes gan y Swyddfa unrhyw asedau eiddo.

## 4.a Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir ar Rydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2021-22** | | | | | | |
| **Cost neu brisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 2,000 | 3,000 | 35 | 118 | 297 | 5,450 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | – | – |
| Gwarediadau | (2,000) | (3,000) | – | (28) | (82) | (5,110) |
| Ailbrisio | – | – | – | 10 | 7 | 17 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **–** | **–** | **35** | **100** | **222** | **357** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| A1 1 Ebrill 2021 | – | – | (13) | (39) | (250) | (302) |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | – | – | (5) | (20) | (24) | (49) |
| Gwarediadau | – | – | – | 28 | 82 | 110 |
| Ailbrisio | – | – | – | (4) | (6) | (10) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **–** | **–** | **(18)** | **(35)** | **(198)** | **(251)** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2022** | **–** | **–** | **17** | **65** | **24** | **106** |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 1 Ebrill 2021** | **2,000** | **3,000** | **22** | **79** | **47** | **5,148** |
| **Mae'r holl asedau'n eiddo i Swyddfa Cymru** | **–** | **–** | **17** | **65** | **24** | **106** |

Trosglwyddo Asedau Rhydd-ddaliadol.

Yn 2020, cyhoeddodd Trysorlys EM y byddai holl eiddo rhydd-ddaliadol y llywodraeth yn trosglwyddo perchnogaeth i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Cwblhawyd y trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2021 pan drosglwyddodd Swyddfa Cymru ei Swyddfa (ti r ac adeiladau) yn Llundain i'r GPA.

Cwblhawyd y trosglwyddiad am ddim ystyriaeth.

## 5. Hawl i Ddefnyddio Asedau ar Brydles

Mabwysiadodd yr Adran 'Brydlesi' IFRS 16 o 1 Ebrill 2022, mewn cytundeb â Thrysorlys EM. Gweler nodyn 1 am wybodaeth ar fabwysiadu IFRS 16 'Prydlesi'.

Mae asedau prydles yr Hawl i Ddefnydd yn cynnwys adeiladau ar brydles.

| | Adeiladau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **2021-22 Cost neu brisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | – | – |
| Cydnabyddiaeth gychwynnol ar weithredu IFRS 16 | 4,999 | 4,999 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **4,999** | **4,999** |
| | | |
| **Dibrisiant** | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | – | – |
| Priodolwyd yn ystod y flwyddyn | (321) | (321) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(321)** | **(321)** |
| | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **4,678** | **4,678** |

## 6. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 28 | 80 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian | 41 | (52) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **69** | **28** |

Roedd pob balans yn cael ei ddal yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 7. Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, nid yw offerynnau ariannol yn chwarae cymaint o rôl wrth greu a rheoli risg ag y byddent mewn corff tebyg o ran maint heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac o ganlyniad nid yw'r Adran fel arfer yn agored i lawer o risgiau credyd, hylifedd neu risgiau'r farchnad.

## 8. Buddsoddiadau a Benthyciadau mewn Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill

| | Benthyciadau a ariennir drwy Gronfa'r Benthyciadau Gwladol |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost neu brisiant** | |
| **Ar 1 Ebril 2021** | **70,085** |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (2,476) |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **67,609** |
| Benthyciadau sy'n ad-daladwy o fewn 12 mis a drosglwyddwyd i symiau derbyniadwy | (4,454) |
| *Ychwanegiadau - Benthyciad Cyfalaf Newydd gan yr NLF ar gyfer Llywodraeth Cymru | 150,000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **213,155** |

* O dan Adran 122a o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (GOWA) gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £1bn ar gyfer gwariant cyfalaf. Ym mis Mawrth 2023, gofynnodd Llywodraeth Cymru am fenthyg £150m ar gyfer gwariant cyfalaf o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Mae Adran 122 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y gall y Trysorlys roi i'r Ysgrifennydd Gwladol o Gronfa'r Benthyciadau Gwladol y cyfryw symiau y mae ar yr Ysgrifennydd Gwladol eu hangen ar gyfer gwneud benthyciadau dan adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 9. Symiau Masnach Derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 65 | – |
| Symiau TAW derbyniadwy | 35 | – |
| Adneuon a blaendaliadau | 27 | 26 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 33 | 96 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - llog derbyniadwy | 355 | 257 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - cyfalaf | 4,454 | 2,476 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | **4,969** | **2,855** |

Nid oes symiau yn dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 10. Symiau Masnach Taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol arall | 128 | 117 |
| TAW yn daladwy | – | 3 |
| Symiau masnach taladwy | 1 | 1 |
| Symiau taladwy eraill | 145 | 99 |
| Croniadau | 489 | 474 |
| Croniadau cyfalaf | 10 | – |
| Rhan bresennol o rwymedigaethau prydles | 302 | – |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - cyfalaf | 4,454 | 2,476 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF - llog yn daladwy | 355 | 257 |
| Symiau a ddarparwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer y cyflenwad ond nad oeddent wedi'u gwario erbyn diwedd y flwyddyn | 69 | 28 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | **5,953** | **3,455** |

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | |
| Rhwymedigaethau prydles | 4,398 | – |
| Benthyciadau NLF | 213,155 | 67,609 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | **217,553** | **67,609** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau ac Arwystlon

Nid oedd gan Swyddfa Cymru unrhyw ddarpariaethau yn y flwyddyn ariannol 2022-23 (2021-22 - Dim).

## 12. Rhwymedigaethau Wrth Gefn o dan IAS 37

Mae'r Swyddfa wedi symud i Ganolfan Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd yn ddiweddar am gyfnod amhenodol, ac ar hyn o bryd ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau dadfeilio yn y dyfodol o amgylch y brydles pe baem yn dewis gadael. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gallai costau godi yn y dyfodol a bydd hyn yn destun adolygiad blynyddol wrth symud ymlaen.

## 13. Ymrwymiadau Cyfalaf

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw ymrwymiadau cyfalaf.

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig

*Adrannau Cysylltiedig a chyrff eraill y Llywodraeth ganolog*

Mae Swyddfa Cymru yn ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael trafodion perthnasol amrywiol ag ef yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion sylweddol ag adrannau eraill y llywodraeth, yn bennaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder, HMRC ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Nid oes yr un gweinidog, aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na pharti cysylltiedig arall wedi gwneud unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl iawndaliadau ar gyfer uwch reolwyr yn cael eu datgelu'n llawn yn yr Adroddiad Tâl.

## 15. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events After the reporting Period', ystyrir digwyddiadau ar ôl y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad pan awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir bod hyn ar yr un dyddiad ag yr ardystir y Cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oedd materion perthnasol i sôn amdanynt.

# Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

## TABL 1

### Gwariant Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru 2017-18 to 2023-24

| | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2019-20 Alldro £000 | 2020-21 Alldro £000 | 2021-22 Alldro £000 | 2022-23 Cynlluniau £000 | 2022-23 Alldro (7) £000 | 2023-24 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Swyddfa Cymru** | | | | | | | | |
| Gwariant ar adnoddau o fewn Costau Gweinyddu | 4,503 | 4,450 | 4,486 | 4,406 | 5,887 | 5,503 | 5,295 | 5,642 |
| Gwariant arall ar adnoddau | 178 | 183 | 195 | 276 | 77 | 61 | 25 | 136 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**[2] | **4,681** | **4,633** | **4,681** | **4,682** | **5,964** | **5,564** | **5,320** | **5,778** |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 73 | 17 | 45 | 73 | 0 | 72 | 39 | 30 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru + DEL Cyfalaf**[2] | **4,754** | **4,650** | **4,726** | **4,755** | **5,964** | **5,636** | **5,359** | **5,808** |
| *llai dibrisiant ac amhariad* | *-126* | *-141* | *-157* | *-163* | *-49* | *-407* | *-366* | *-407* |
| **DEL Swyddfa Cymru**[3] | **4,628** | **4,509** | **4,569** | **4,592** | **5,915** | **5,229** | **4,993** | **5,401** |

### Gwariant Llywodraeth Cymru (Bloc Cymru)[6]

| | 2017-18 Alldro £000 | 2018-19 Alldro £000 | 2019-20 Alldro £000 | 2020-21 Alldro £000 | 2021-22 Alldro £000 | 2022-23 Cynlluniau £000 | 2022-23 Alldro (7) £000 | 2023-24 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau[8] | 14,001,757 | 14,010,896 | 12,858,683 | 18,623,377 | 16,252,301 | 16,808,254 | 16,297,422 | 17,791,539 |
| Cyfalaf | 1,821,285 | 2,036,807 | 2,131,160 | 3,297,143 | 2,938,766 | 2,889,237 | 2,746,662 | 3,146,661 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | **15,823,042** | **16,047,703** | **14,989,843** | **21,920,520** | **19,191,067** | **19,697,491** | **19,044,084** | **20,938,200** |
| *llai dibrisiant ac amhariad* | *-708,262* | *-703,761* | *-768,478* | *-1,057,423* | *174,661* | *-1,232,033* | *-885,885* | *-1,803,254* |
| **DEL Llywodraeth Cymru**[3][5] | **15,114,780** | **15,343,942** | **14,221,365** | **20,863,097** | **19,365,728** | **18,465,458** | **18,158,199** | **19,134,946** |

(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) Gan gynnwys dibrisiant ac amhariadau.
(3) Adnoddau + cyfalaf - dibrisiant ac amhariadau (gan gynnwys amhariadau Benthyciadau Myfyrwyr).
(4) Yn ôl confensiwn, mynegir cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol fel adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a namau. Felly ni fydd yr adnoddau a rhifau cyfalaf yn y tabl hwn yn cyfyngu ar y terfyn gwariant adrannol: y gwahaniaeth yn ddibrisiant a namau.
(5) Mae ffigurau DEL ar gyfer blynyddoedd alldro wedi cael eu haddasu i adlewyrchu newidiadau cyllidebu dilynol.
(6) O Adolygiad Gwariant 2015, nid yw gwariant Swyddfa Cymru bellach yn rhan o floc Cymru.
(7) Mae data alldro Swyddfa Cymru yn cynrychioli alldro terfynol a bydd yn cyd-fynd â'r cyfrifon a gyhoeddir mewn mannau eraill yn y ddogfen hon. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos alldro dros dro gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau eu cyfrifon eto.
(8) O 2018-19 ymlaen, caiff Cyllideb Adnoddau Llywodraeth Cymru ei haddasu tuag i lawr mewn perthynas â datganoli trethi, gyda Llywodraeth Cymru yn hytrach yn cadw refeniw o drethi datganoledig.

## TABL 2

## Grant arian parod a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2021-22: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Alldro Terfynol £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL[(2)]** | 20,367,193 | 21,252,395 | 19,191,067 |
| **Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | 1,146,810 | 1,429,806 | 987,649 |
| **Gwariant a Gyllidir gan Drethi Cymru** | 2,325,370 | 2,474,236 | 2,509,224 |
| **Gwariant a Ariennir gan Benthyca Cyfalaf** | 150,000 | 113,000 | 0 |
| **Ardrethi Annomestig** | 1,101,000 | 721,500 | 770,193 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **25,090,373** | **25,990,937** | **23,458,133** |
| **Llai:** | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd LA | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| *Trafodiadau Deddf Cymru 2014:* | | | |
| Incwm o drethi Cymru: | | | |
| Treth Incwm | 2,064,061 | 2,064,061 | 2,064,062 |
| Treth Trafodiadau Tir | 230,998 | 367,246 | 402,245 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 32,728 | 45,346 | 45,334 |
| Ad-dalu prifswm benthyciadau | -2,417 | -2,417 | -2,417 |
| Benthyca Cyfalaf | 150,000 | 113,000 | 0 |
| *Nad yw'n arian parod:* | | | |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 1,519,960 | 1,582,490 | -174,661 |
| AME Anariannol | 366,605 | 583,519 | -170,384 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **4,456,813** | **4,848,123** | **2,259,057** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) A DDYFARNWYD** | **20,633,560** | **21,142,814** | **21,199,076** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,313,819 | 1,412,088 | 1,412,088 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 1,069,958 | 1,040,053 | 1,040,053 |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 0 | 108,453 | -716,191 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | -140.956 |
| Symudiadau mewn balans ar gronfa gyfunol | 0 | 0 | -11,516 |
| **Grant Arian Barod yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru[(3)]** | **18,249,783** | **18,799,126** | **17,878,272** |
| *Cyfradd Treth Incwm Cymru* | 2,064,061 | 2,064,061 | 2,064,062 |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys Cyfradd Treth Incwm Cymru*** | ***20,313,844*** | ***20,863,187*** | ***19,942,334*** |

**Nodiadau**
(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) DEL Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.
(3) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Adran 118 (2).

## TABL 3

## Grant arian parod a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2022-23: Darpariaeth ac Alldro Dros Dro

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Alldro dros do £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL**[2] | 20,038,113 | 19,697,490 | 19,044,084 |
| **Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | 1,272,584 | 690,621 | 832,839 |
| **Gwariant a Gyllidir gan Drethi Cymru** | 2,887,313 | 2,913,448 | 2,913,507 |
| **Gwariant a Ariennir gan Benthyca Cyfalaf** | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| **Ardrethi Annomestig** | 1,030,000 | 1,030,000 | 1,030,003 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **25,378,010** | **24,481,559** | **23,970,433** |
| **Llai:** | | | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd LA | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Arall Nas Dyfarnwyd | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| *Trafodiadau Deddf Cymru 2014:* | | | |
| Incwm o drethi Cymru: | | | |
| Treth Incwm | 2,477,747 | 2,477,747 | 2,477,747 |
| Treth Trafodiadau Tir | 380,542 | 394,738 | 394,738 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 35,188 | 43,439 | 43,439 |
| Ad-dalu prifswm benthyciadau | -6,164 | -2,476 | -2,417 |
| Benthyca Cyfalaf | 150,000 | 150,000 | 150,000 |
| *Nad yw'n arian parod:* | | | |
| Adnoddau wedi'u Clustnodi Anariannol | 1,782,731 | 1,232,032 | 885,885 |
| AME Non-cash | 599,441 | -166,385 | 39,434 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) NAS DYFARNWYD** | **5,514,363** | **4,223,973** | **4,083,704** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR (TME) A DDYFARNWYD** | **19,863,647** | **20,257,586** | **19,886,729** |
| **Derbyniadau a ddyfarnwyd** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 2,338,106 | 2,031,781 | 2,031,781 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 1,065,765 | 1,091,319 | 1,091,319 |
| **Addasiadau amseru** | | | |
| Cynnydd / Gostyngiad mewn Dyledwyr a Chredydwyr | 0 | 330,590 | 445,747 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 |
| **Grant Arian Parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **16,459,776** | **17,465,076** | **17,209,376** |
| *Cyfradd Treth Incwm Cymru* | *2,477,747* | *2,477,747* | *2,477,747* |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys Cyfradd Treth Incwm Cymru*** | ***18,937,523*** | ***19,942,823*** | ***19,687,123*** |

**Nodiadau**
(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) DEL Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.

## TABL 4
## Cyfrifo'r Grant Arian Parod sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2023-24

| | **2023-24 £000** |
|---|---|
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel DEL (Grant Bloc)[2] | 20,938,200 |
| Gwariant a Ddosbarthwyd fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | 1,155,499 |
| Gwariant a Gyllidir gan Drethi Cymru | 3,112,009 |
| Gwariant a Gyllidir drwy Fenthyg Cyfalaf | 150,000 |
| Gwariant a Gyllidir gan Ardrethi Annomestig | 906,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **26,261,708** |
| *Llai:* | |
| *Gwariant Nas Dyfarnwyd (non-voted):* | |
| Benthyca â Chymorth gan Awdurdodau Lleol Cymru | 88,800 |
| Costau casglu ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac Ardrethi Annomestig | 6,078 |
| *Trafodiadau Deddf Cymru 2016:* | |
| Incwm o drethi Cymru: | |
| Treith Incwm | 2,765,500 |
| Treth Trafodiadau Tir | 312,344 |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | 40,802 |
| Ad-dalu prifswm benthyciadau | -6,637 |
| Benthyca Cyfalaf | 150,000 |
| Adnoddau heb fod yn Arian Parod | 1,803,254 |
| AME Anariannol | 269,382 |
| ***Is-gyfanswm*** | ***5,429,523*** |
| **GWARIANT CYFLENWAD CYFANSWM** | **19,863,647** |
| **Llai derbyniadau** | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,514,198 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | 1,022,805 |
| **Addasiadau amseru** | |
| Cynnydd / Gostyngiad mewn Dyledwyr a Chredydwyr | 364,149 |
| **Grant Arian Parod sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **18,659,331** |
| *Cyfradd Treth Incwm Cymru* | *2,765,500* |
| ***Cyfanswm y gofyniad arian parod gan gynnwys Cyfradd Treth Incwm Cymru*** | ***21,424,831*** |

**Nodiadau**
(1) Efallai nad yw'r cyfansymiau'n adio'n union oherwydd talgrynnu ffigurau.
(2) DEL Adnoddau a chyfalaf yn cynnwys dibrisiant.

ISBN 978-1-5286-4059-6
E02898472